# Dysgu Cymraeg

## Mynediad – Entry (A1) Fersiwn 2

## (De Cymru – South Wales)

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol — National Centre for Learning Welsh

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymraeg
Dysgu
Learn

# Croeso!

Croeso i'ch taith yn dysgu Cymraeg. Er mwyn dysgu'n llwyddiannus, mae mynychu dosbarthiadau'n rheolaidd yn bwysig dros ben, yn ogystal â dysgu'r eirfa ym mhob uned, ymarfer y patrymau a defnyddio'ch sgiliau newydd. I'ch helpu chi i ymarfer, mae llawer o weithgareddau ar-lein sy'n cyd-fynd â'r cwrs yma ar **www.dysgucymraeg.cymru**. Mae unedau Gwaith cartref yng nghefn y llyfr yma. Mae'r llyfr yn dod yn rhydd yn hawdd iawn. Dylech chi ei roi e mewn ffeil a byddwch chi'n gallu ychwanegu unrhyw beth bydd eich tiwtor yn ei roi i chi. Gwrandewch ar Radio Cymru, gwyliwch S4C a darllenwch! Bydd eich tiwtor hefyd yn dweud wrthoch chi am lawer o gyfleoedd i ymarfer ac i ddefnyddio eich Cymraeg.

Pob lwc!

*Welcome to your learning Welsh journey. To make sure that you are successful, it is important to attend class regularly, learn the vocabulary in the units as you go along, practise the language patterns and use your new skills. To help you practise, you can access learning materials specifically designed to accompany this course at* **www.learnwelsh.cymru**. *There are Homework sections for each unit at the back of this book. The book will come apart easily. Place it in a file and then you will be able to add any additional materials your tutor will give you. Listen to Radio Cymru, watch S4C and read! Your tutor will inform you regularly of the numerous opportunities available to practise and use your Welsh.*

*Good luck!*

Dyma'r symbolau byddwch chi'n gweld yn y llyfr. *Here are the symbols you will see in the book.*



**Sgwrs** (*Dialogue*)




**Gemau dis** (*Dice Games*)




**Yr wyddor** (*The Alphabet*)



**Help llaw** (*Explanations*)




**Robin Radio**



**Darllen** (*Reading*)



**Gwrando** (*Listening*)



**Gwaith cartref** (*Homework*)

# **Cynnwys** / *Content*


| Uned | Teitl | Nod/ *Aim* | Cynnwys/ *Content* |
|---|---|---|---|
| 1 | **Helô, sut dych chi?** | **Dechrau sgwrs/** *Starting a conversation* | **Ceri dw i**<br>**Sut dych chi?**<br>**Sut wyt ti?**<br>**Ble dych chi'n byw?**<br>**Dw i'n gyrru**<br>**Rhifau/***Numbers* |
| 2 | **Wyt ti'n hoffi coffi?** | **Siarad am bethau 'dyn ni'n hoffi a gweithgareddau pob dydd/** *Talking about likes and everyday activities* | **Dw i'n lico/hoffi**<br>**Wyt ti'n lico/hoffi?**<br>**Ydw/Nac ydw**<br>**Dw i ddim yn hoffi**<br>**'Dyn ni'n hoffi**<br>**Dych chi'n hoffi?**<br>**Ydyn/Nac ydyn**<br>**'Dyn ni ddim yn hoffi**<br>**Dyddiau'r wythnos/** *Days of the week* |
| 3 | **Dych chi eisiau paned?** | **Mynegi dymuniad/** *Expressing a desire* | **Dw i eisiau**<br>**Wyt ti eisiau?**<br>**Ydw/Nac ydw**<br>**Mae Aled eisiau**<br>**Lliwiau/***Colours* |
| 4 | **Mynd a dod** | **Trafod o ble 'dyn ni'n dod a ble 'dyn ni'n mynd/** *Discussing where we come from and where we are going* | **Y Treiglad Meddal/** *Soft Mutation* |
| 5 | **Beth wnest ti ddoe?** | **Dweud beth wnaethoch chi/** *Saying what you did* | **Gwnes i**<br>**Wnest ti? Do/Naddo**<br>**Wnaethoch chi?**<br>**Do/Naddo**<br>**Coginiais i** |
| 6 | **Sut mae'r tywydd?** | **Siarad am y tywydd a phobl eraill/** *Talking about the weather and other people* | **Mae hi'n braf**<br>**Mae hi'n gallu**<br>**Mae e'n gallu**<br>**Maen nhw'n gallu**<br>**Sut/ble/pryd mae'r dosbarth?**<br>**Rhifau/***Numbers* 11-100 |

| **Uned** | **Teitl** | **Nod/** *Aim* | **Cynnwys/***Content* |
|---|---|---|---|
| 7 | **Ydy hi'n gweithio?** | **Gofyn ac ateb cwestiynau am bobl a phethau eraill/** *Asking and answering questions about other people and things* | **Siân yw hi**<br>**Ydy hi'n dda?**<br>**Ydy/Nac ydy**<br>**Ydyn nhw'n dda?**<br>**Ydyn/Nac ydyn**<br>**Dyw e ddim yn dda**<br>**'Dyn nhw ddim yn dda**<br>**Pwy/beth/faint yw e?** |
| 8 | **Adolygu ac ymestyn –** | **Siarad ar y ffôn**<br>**Adolygu ac ymarfer ymadroddion ffôn/** *Revision and useful phrases for the telephone* | **Gaf i? Cei/Na chei,**<br>**Cewch/Na chewch**<br>**Dw i'n gweithio yn y coleg / Dw i'n gweithio mewn coleg** |
| 9 | **Prynon ni fara** | **Dweud beth wnaethoch chi a phobl eraill yn y gorffennol/** *Saying what you and others did in the past* | **Gwnaeth e/hi,**<br>**Gwnaethon ni/nhw**<br>**Prynaist ti, Prynodd e/hi,**<br>**Prynon ni, Prynoch chi,**<br>**Prynon nhw** |
| 10 | **Es i i'r dre** | **Dweud ble aethoch chi a phobl eraill/** *Saying where you and others went* | **Es i**<br>**Est ti**<br>**Aeth e/hi**<br>**Aethon ni**<br>**Aethoch chi**<br>**Aethon nhw**<br>**Es i ddim**<br>**Y tymhorau/***The seasons* |
| 11 | **Ces i dost i frecwast** | **Dweud beth gawsoch chi a phobl eraill/** *Saying what you and others had or received* | **Ces i/Ges i**<br>**Cest ti/Gest ti**<br>**Cafodd Sam/Gaeth Sam**<br>**Cawson ni/Gaethon ni**<br>**Cawsoch chi/ Gaethoch chi**<br>**Cawson nhw/ Gaethon nhw**<br>**Gest ti?**<br>**Ches i ddim** |
| 12 | **Mae car gyda fi** | **Dweud beth sy gyda chi a phobl eraill/** *Saying what you and others have and own* | **Mae car gyda fi/ti/fe/hi/ ni/chi/nhw**<br>**Oes car gyda ti?**<br>**Does dim car gyda fi** |

| **Uned** | **Teitl** | **Nod/** *Aim* | **Cynnwys/***Content* |
|---|---|---|---|
| 13 | **Roedd hi'n braf** | **Disgrifio pethau yn y gorffennol/** *Describing things in the past* | **Roedd hi'n braf**<br>**Oedd hi'n braf?**<br>**Oedd/Nac oedd**<br>**Doedd hi ddim yn braf**<br>**Roedd pen tost gyda fi**<br>**Roedd annwyd arna i** |
| 14 | **Ble ro'ch chi'n byw ac yn gweithio?** | **Siarad am bethau ro'ch chi'n arfer eu gwneud/** *Talking about things you used to do* | **Ro'n i/Ro't ti/Ro'n ni/ Ro'ch chi/Ro'n nhw**<br>**Y Treiglad Trwynol/** *Nasal Mutation* |
| 15 | **Adolygu ac Ymestyn – Siarad wyneb yn wyneb** | **Adolygu ac ymarfer ymadroddion ar gyfer siarad wyneb yn wyneb/** *Revision and useful phrases for face-to-face meetings* | **Dw i wedi**<br>**arall**<br>**Y misoedd/** *The months* |
| 16 | **Rhifau, Amser ac Arian** | **Siarad am amser ac arian/** *Talking about time and money* | **Faint o'r gloch yw hi?**<br>**Y cloc**<br>**Faint yw...?**<br>**Arian** |
| 17 | **Bydd hi'n braf yfory** | **Siarad am ddigwyddiadau yn y dyfodol/** *Talking about events in the future* | **Bydd e/hi**<br>**Fydd e/hi...?**<br>**Bydd/Na fydd**<br>**Fydd e/hi ddim**<br>**Bydda i** |
| 18 | **Bydda i'n mynd** | **Siarad am gynlluniau yn y dyfodol/** *Talking about plans in the future* | **Byddwn ni**<br>**Byddan nhw**<br>**Fyddi di?**<br>**Bydda/Na fydda**<br>**Fyddwch chi?**<br>**Byddwn/Na fyddwn** |
| 19 | **Fy** | **Siarad am eich eiddo chi a'ch perthnasau chi/** *Talking about your possessions and your relatives* | **fy nhad i fy nrws i**<br>**fy nghar i fy ngwin i**<br>**fy mhen i fy mrawd i** |
| 20 | **Dy/Eich** | **Gofyn cwestiynau am eiddo a pherthnasau pobl eraill/** *Asking questions about other people's possessions and relatives* | **eich tocyn chi**<br>**dy docyn di** |

| **Uned** | **Teitl** | **Nod/** *Aim* | **Cynnwys/** *Content* |
|---|---|---|---|
| 21 | **Dewch yma!** | **Cyfarwyddo/** *Giving instructions* | **Codwch/Ewch/ Dewch/Gwnewch Coda/Cer/Dere/ Gwna** |
| 22 | **Yn y gwaith** | **Siarad yn y gwaith ac adolygu unedau 16-21/** *Speaking at work and revision of units 16-21* | |
| 23 | **Rhaid i fi** | **Siarad am orfod gwneud rhywbeth/** *Talking about having to do something* | **Rhaid i fi<br>Rhaid i ti<br>Rhaid iddo fe<br>Rhaid iddi hi<br>Rhaid i ni<br>Rhaid i chi<br>Rhaid iddyn nhw<br>Oes rhaid i ti?<br>Does dim rhaid i fi<br>Rhaid i fi beidio** |
| 24 | **Cyn ac ar ôl** | **Siarad am gyfres o ddigwyddiadau yn eu trefn/** *Talking about a series of events in sequence* | **Ar ôl i fi fynd<br>Cyn i fi fynd** |
| 25 | **Mae bwyd yn y caffi** | **Gofyn am bethau mewn caffi/** *Asking for things in a café* | **Mae'r te'n oer<br>Ydy'r te'n oer?<br>Dyw'r te ddim yn oer<br>Mae te<br>Oes te?<br>Does dim te** |
| 26 | **Ei/Ein/Eu** | **Siarad am bethau a phobl sy'n perthyn i bobl eraill/** *Talking about other people's belongings and relatives* | **ei gar e<br>ei char hi<br>ein car ni<br>eu car nhw** |
| 27 | **Pobl y Cwm** | **Siarad am eiddo a pherthnasau/** *Talking about possessions and relatives* | **pris petrol<br>pris y petrol** |
| 28 | **Adolygu ac edrych ymlaen** | **Adolygu/** *Revision* | **Roedd rhaid i fi<br>Bydd rhaid i fi** |
| Uned Arholiad Mynediad | **Yr Arholiad** | **Paratoi at Arholiad Mynediad/** *Preparing for the Entry level examination* | **Enghreifftiau o'r tasgau/** *Examples of the tasks* |

# **Rhestri Defnyddiol /** *Useful Vocabulary Lists*

**Dyddiau'r Wythnos/***Days of the Week*

| | |
|---|---|
| dydd Sul | *Sunday* |
| dydd Llun | *Monday* |
| dydd Mawrth | *Tuesday* |
| dydd Mercher | *Wednesday* |
| dydd Iau | *Thursday* |
| dydd Gwener | *Friday* |
| dydd Sadwrn | *Saturday* |

**Misoedd/***Months*

| | |
|---|---|
| mis Ionawr | *January* |
| mis Chwefror | *February* |
| mis Mawrth | *March* |
| mis Ebrill | *April* |
| mis Mai | *May* |
| mis Mehefin | *June* |
| mis Gorffennaf | *July* |
| mis Awst | *August* |
| mis Medi | *September* |
| mis Hydref | *October* |
| mis Tachwedd | *November* |
| mis Rhagfyr | *December* |

**Lliwiau/***Colours*

| | |
|---|---|
| brown | *brown* |
| coch | *red* |
| du | *black* |
| glas | *blue* |
| gwyn | *white* |
| gwyrdd | *green* |
| llwyd | *grey* |
| melyn | *yellow* |
| oren | *orange* |
| pinc | *pink* |
| porffor | *purple* |

# Uned 1 (un) Helô, sut dych chi?

**Nod: Dechrau sgwrs** / *Starting a conversation*
(Ceri dw i, Pwy dych chi?, Sut dych chi?, Sut wyt ti?, Ble dych chi'n byw?)

## Geirfa

- enwau benywaidd / *feminine nouns*
- enwau gwrywaidd / *masculine nouns*
- berfau / *verbs*
- ansoddeiriau / *adjectives*
- arall / *other*

**Abertawe** — *Swansea*
**nos** — *night*
**noswaith** — *evening*
**paned** — *cuppa*
**problem(au)** — *problem(s)*
**rhaglen(ni)** — *programme(s)*
**uned(au)** — *unit(s)*

**bore(au)** — *morning(s)*
**car (ceir)** — *car(s)*
**croeso** — *welcome*
**dosbarth(iadau)** — *class(es)*
**enw(au)** — *name(s)*
**heddlu** — *police*
**prynhawn(iau)** — *afternoon(s)*
**rhif(au)** — *number(s)*

**byw** — *to live*
**darllen** — *to read*
**dysgu** — *to learn, to teach*
**gwylio** — *to watch*
**gyrru** — *to drive*
**stopio** — *to stop*

**da** — *good*
**ofnadwy** — *terrible*
**pinc** — *pink*
**wedi blino** — *tired*

**a** — *and*
**ble?** — *where?*
**chi** — *you*
**diolch** — *thanks*
**dyna pam** — *that's why*
**eto** — *again*
**fi** — *me*
**gyda** — *with*
**heddiw** — *today*
**hwyl!** — *bye!*
**i** — *to; for*
**iawn** — *ok, very*
**nawr** — *now*
**ond** — *but*
**pawb** — *everybody*
**pwy?** — *who?*
**sut?** — *how?*
**ti** — *you*
**yma** — *here*
**yn** — *in*

Geiriau pwysig i fi


×

×


×

×

**Cymraeg Dosbarth** – Pawb! Eto!




**Siôn dw i.** — *I'm Siôn.*



**Mari dw i.** — *I'm Mari.*



**Siân dw i.** — *I'm Siân.*



**Twm dw i.** — *I'm Twm.*

**Pwy dych chi?** — *Who are you?*

**Sut dych chi?** — *How are you?*
**Iawn.** — *OK.*
**Da iawn, diolch.** — *Very well, thanks.*
**Ofnadwy.** — *Terrible.*
**Wedi blino.** — *Tired.*

## Sgwrs 1

**A:** Helô, Eryl dw i. Pwy dych chi?

**B:** Bore da, Ceri dw i. Sut dych chi?

**A:** Da iawn, diolch. Sut dych chi?

**B:** Iawn, diolch.

**A:** Hwyl, Ceri!

**B:** Hwyl.

## Ynganu – Yr Wyddor

- A - cat/hard
- B - bat
- C - cat
- Ch - loch
- D - dog
- Dd - the
- E - egg/air
- F - valley
- Ff - friend
- G - garden
- Ng - long
- H - hard
- I - ink/tree
- J - jam
- L - lounge
- Ll - Llanelli (Place tongue behind teeth and blow)
- M - mam
- N - no
- O - orange/roar
- P - paper
- Ph - physics
- R - race
- Rh - as in Y Rhyl Rhiwbeina
- S - seven
- T - tavern
- Th - three
- U - tin/been
- W - water/look
- Y - bin / been/ 'uh' as in Pontypridd

**Un llythyren (*one letter*) yw**

| Ch | Dd | Ff | Ng | Ll | Ph | Rh | Th |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Rhifau

| | | |
|---|---|---|
| dim (0) | pedwar (4) | wyth (8) |
| un (1) | pump (5) | naw (9) |
| dau (2) | chwech (6) | deg (10) |
| tri (3) | saith (7) | |

## **Pwyslais!** *Stress!*

*professional* — **proffesiYNol**
*novelist* — **noFELydd**

The emphasis in Welsh is almost always on the last but one syllable.

| | | |
|---|---|---|
| Siôn | A | Siân |
| Huw | 2 | Mair |
| Marc | 3 | Gwen |
| **Gar**eth | 4 | **Mar**ged |
| **Car**wyn | 5 | **Rhi**an |
| **Rhod**ri | 6 | **Beth**an |
| **Dyl**an | 7 | **Glen**ys |
| **Ger**aint | 8 | **Ffi**on |
| **Gwil**ym | 9 | **Mar**i |
| **Rhid**ian | 10 | Rhi**ann**on |
| **Arf**on | Jac | El**er**i |
| Llyw**el**yn | Brenhines | Mer**er**id |
| Mer**ed**ydd | Brenin | Myf**an**wy |

### **Ymarfer!** *Practice!*

| | | | |
|---|---|---|---|
| mân | man | twr | tŵr |
| cân | carn | dal | dall |
| marc | march | dallu | dathlu |
| ci | si | beth | bedd |
| gwên | Gwen | nodi | noddi |
| tôn | ton | ofer | offer |
| dur | dŵr | y garreg | y garej |

## Sgwrs 2

**A:** O na, yr heddlu! (Stopio'r car)
**B:** Hello, hello, hello.
**A:** Cymraeg, plîs.
**B:** O, helô, helô, helô.
**A:** Prynhawn da, cwnstabl.
**B:** Prynhawn da. Pwy dych chi?
**A:** Ceri Llwyd dw i.
**B:** Ceri Llwyd, y gitarydd?
**A:** Ie, sut ...
**B:** Y gitarydd gyda band Y Pandas Pinc?
**A:** Ie.
**B:** Y Pandas Pinc. Waw...
**A:** Problem gyda'r car, cwnstabl?
**B:** Na, na, dim problem. Hwyl, Ceri.
**A:** Hwyl.
**B:** Wel, wel, Ceri Llwyd, Y Pandas Pinc, waw ...

**Bore da (am)**




**Prynhawn da (pm)**



**Noswaith dda**



**Nos da**



## Sut wyt ti?

**A:** Bore da, Ceri.

**B:** Helô, Eryl. Sut wyt ti?

**A:** Da iawn, diolch, sut wyt ti?


**B:** Iawn.

**CHI =** *formal & plural*
**TI =** *one person you know well, a child, a pet*

**Ble dych chi'n byw?** *Where do you live?* **Llanelli.**
**Ble rwyt ti'n byw?** *Where do you live?* **Abertawe.**



Aber



Llan



Caer



Pont

**Dw i'n gyrru *Fiesta*.** — *I drive a Fiesta.*
**Dw i'n gwylio *Strictly*.** — *I watch Strictly.*
**Dw i'n darllen y *Western Mail*.** — *I read the Western Mail.*
**Dw i'n dysgu Cymraeg.** — *I'm learning Welsh.*

## Sgwrs 3

**A:** Bore da. Sut dych chi?

**B:** Iawn, ond wedi blino heddiw.

**A:** Ble dych chi'n byw nawr?

**B:** Abertawe.

**A:** Abertawe? A dych chi'n dysgu Cymraeg yma!

**B:** Dyna pam dw i wedi blino. Dw i'n gyrru yma.

**A:** Paned?

**B:** Ie, plîs.

## Help llaw *(Top Tips)*

**1.** *Welsh pronunciation is generally quite consistent.*

*There are 7 vowels –*
*a e i o u w y*
*Y has 2 sounds, see* Ynys, Aberystwyth. *This will be explained soon.*

*A, I, O + Y are also useful words! (meaning and, to, from, the)*

*S also has 2 sounds – normally a hiss* (stopio) *but combined with i is a sh sound (e.g.* Siân*).*

**2.** *The stress on a Welsh word is almost always on the last syllable but one.*

**3.** **Iawn** – *You will see in the vocabulary that* 'iawn' *can mean both 'OK' and 'very'. On its own, it means 'OK':*
Sut dych chi? Iawn.

*However, when used after an adjective its meaning is 'very':*
da iawn *(very good).*

**4.** **Ti** + **Chi** *are similar to Tu + Vous in French (and many other languages).* Ti *is always singular and* Chi *can be either formal singular or plural.*

**5.** *The word for 'and' is* **a**, *but it becomes* **ac** *before a vowel.*
Aled **a** Siân / Siân **ac** Aled

# Uned 2 (dau) – Wyt ti'n lico/hoffi coffi?

**Nod: Siarad am bethau 'dyn ni'n hoffi a gweithgareddau pob dydd/**
*Talking about likes and everyday activities* (dw i, 'dyn ni, wyt ti, dych chi)

- enwau benywaidd / *feminine nouns*
- enwau gwrywaidd / *masculine nouns*
- berfau / *verbs*
- ansoddeiriau / *adjectives*
- arall / *other*

## Geirfa

**cacen(nau)** — *cake(s)*
**pêl (peli)** — *ball(s)*
**teisen(nau)** — *cake(s)*
**wythnos(au)** — *week(s)*

**bwyd** — *food*
**caws** — *cheese*
**cerdyn (cardiau)** *card(s)*
**cig(oedd)** — *meat(s)*
**coffi(s)** — *coffee(s)*
**criced** — *cricket*
**dillad** — *clothes*
**dydd(iau)** — *day(s)*
**golff** — *golf*
**gwin** — *wine*
**hoci** — *hockey*
**llaeth** — *milk*
**papur(au)** — *paper(s)*
**papur newydd** — *newspaper*
**pêl-droed** — *football*
**radio** — *radio*
**siocled(i)** — *chocolate(s)*
**siwgr** — *sugar*
**teledu** — *television*
**tennis** — *tennis*
**tiwtor(iaid)** — *tutor(s)*
**tost** — *toast*

**bod** — *to be*
**bwyta** — *to eat*
**canu** — *to sing*
**chwarae** — *to play*
**dawnsio** — *to dance*
**gweithio** — *to work*
**gweld** — *to see*
**gwneud** — *to do, to make*
**hoffi** — *to like*
**lico** — *to like*
**mynd** — *to go*
**prynu** — *to buy*
**siopa** — *to shop*
**smwddio** — *to iron*
**yfed** — *to drink*
**ymddeol** — *to retire*

**bendigedig** — *fantastic*
**coch** — *red*
**gwyn** — *white*
**neis** — *nice*
**newydd** — *new*
**siŵr** — *sure*

**ar** — *on*
**beth?** — *what?*
**chwaith** — *either*
**dim** — *not; nothing; zero*
**hefyd** — *also*
**heno** — *tonight*
**mynd am dro** — *to go for a walk*
**pryd?** — *when?*
**wrth gwrs** — *of course*
**ych a fi** — *yuck*
**yfory** — *tomorrow*

**Cymraeg Dosbarth**
Codwch!
Eisteddwch!
Dych chi ar *mute.*

Geiriau pwysig i fi

| | |
|---|---|
| × | × |
| × | × |

## Lico/Hoffi

**Dw i'n lico/hoffi coffi.** — *I like coffee.*
**Dw i'n lico/hoffi siocled.** — *I like chocolate.*
**Dw i'n lico/hoffi pitsa.** — *I like pizza.*
**Dw i'n lico/hoffi llaeth.** — *I like milk.*

**Wyt ti'n lico/hoffi coffi?** — *Do you like coffee?*
**Wyt ti'n lico/hoffi siwgr?** — *Do you like sugar?*
**Wyt ti'n lico/hoffi cyrri?** — *Do you like curry?*
**Wyt ti'n lico/hoffi pasta?** — *Do you like pasta?*

**Ydw.** ✔ **Nac ydw.** ✗

**Dw i ddim yn lico/hoffi caws.** — *I don't like cheese.*
**Dw i ddim yn lico/hoffi siocled.** — *I don't like chocolate.*
**Dw i ddim yn lico/hoffi cyrri.** — *I don't like curry.*
**Dw i ddim yn lico/hoffi pasta.** — *I don't like pasta.*

| Enw | caws | cacen | pêl-droed | canu |
|---|---|---|---|---|
| Chi | | | | |
| Tiwtor | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

Gyda'ch partner, llenwch y bylchau. *With your partner, fill in the gaps.*

**A:** Wyt ti’n hoffi gwin gwyn?

**B:** ✔ ..........................................................



**A:** Dw i ddim. Wyt ti’n hoffi gwin coch?

**B:** ✗ ..........................................................



**A:** Dw i ddim yn hoffi gwin coch chwaith! Ond dw i’n hoffi coffi!

**B:** A fi. Dw i’n hoffi coffi hefyd.



*****


**A:** Wyt ti’n lico rygbi?

**B:** ✔ ..........................................................



**A:** Dw i ddim. Wyt ti’n lico criced?

**B:** ✗ ..........................................................



**A:** Dw i ddim yn lico criced chwaith! Ond dw i’n lico pêl-droed.

**B:** A fi. Dw i’n lico pêl-droed hefyd.



## Sgwrs 1

**Ceri:** Noswaith dda, Eryl. Sut wyt ti?
**Eryl:** Da iawn, diolch. A sut wyt ti?
**Ceri:** Wedi blino.
**Eryl:** Wyt ti'n mynd i'r dosbarth salsa yfory?
**Ceri:** Ydw, wrth gwrs! Dw i'n lico'r dosbarth salsa.
**Eryl:** Da iawn! Hwyl, Ceri.
**Ceri:** Nos da.

**Beth dych chi'n hoffi/lico?** — *What do you like?*
**Beth dych chi ddim yn hoffi/lico?** — *What don't you like?*
**Beth wyt ti'n hoffi/lico ar y teledu?** — *What do you like on television?*
**Beth wyt ti'n hoffi/lico ar y radio?** — *What do you like on the radio?*

**Dw i'n hoffi pasta ond dw i ddim yn hoffi pitsa.**
**Dw i'n hoffi ioga ond dw i ddim yn hoffi dawnsio.**

Beth dych chi **ddim** yn hoffi?

| | | |
|---|---|---|
| **siopa** | **dawnsio** | **canu** |
| **gweithio** | **smwddio** | **darllen** |

## Ynganu – llafariaid hir/*long vowels*

Gyda'r tiwtor, wedyn gyda'ch partner, dwedwch:

**da/de/di/do/du/dw/dy**
**pa/te/ci/to/plu/nhw/fy**

**Ymarfer!**/*Practice!*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| campus | mud | union | archangel | call |
| cell | murmur | Arthur | blinder | dawn |
| offer | barn | march | her | person |
| toll | pump | bore | draw | torch |

**'Dyn ni'n dysgu Cymraeg.** — *We are learning Welsh.*
**'Dyn ni'n gweithio.** — *We are working.*
**'Dyn ni'n chwarae tennis.** — *We play tennis.*
**'Dyn ni'n prynu bwyd yn Tesbury's.** — *We buy food in Tesbury's.*

**Dych chi'n dysgu Cymraeg?** — *Are you learning Welsh?*
**Dych chi'n darllen papur newydd?** — *Do you read a newspaper?*
**Dych chi'n gwylio *Emmerdale*?** — *Do you watch Emmerdale?*
**Dych chi'n bwyta cig?** — *Do you eat meat?*

**Ydyn.** ✔ **Nac ydyn.** ✗

**'Dyn ni ddim yn gwylio *Emmerdale*.** — *We don't watch Emmerdale.*
**'Dyn ni ddim yn bwyta cig.** — *We don't eat meat.*
**'Dyn ni ddim yn hoffi/lico criced.** — *We don't like cricket.*
**'Dyn ni ddim yn yfed gwin.** — *We don't drink wine.*

**Ble dych chi'n siopa?** — *Where do you shop?*
**Ble dych chi'n prynu bwyd?** — *Where do you buy food?*
**Ble dych chi'n prynu dillad?** — *Where do you buy clothes?*
**Ble dych chi'n prynu petrol?** — *Where do you buy petrol?*

## Holiadur siopa/*Shopping questionnaire*

**Gofynnwch i 4 person ble maen nhw'n prynu bwyd, dillad, petrol.**
*Ask four class members where they buy* bwyd, dillad, petrol.

| Enw | bwyd | dillad | petrol |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## **Dyddiau'r wythnos**/*Days of the week*

| | | | |
|---|---|---|---|
| dydd Sul | dydd Llun | dydd Mawrth | dydd Mercher |
| dydd Iau | dydd Gwener | dydd Sadwrn | HWRÊ!! |

**Pryd dych chi'n……?**



**(Dewiswch un gweithgaredd ar gyfer pob dydd.**
*Choose one activity for each day.)*

**chwarae** tennis/hoci/golff/cardiau/pêl-droed/rygbi/criced?

siopa?

mynd am dro?

**dysgu** Cymraeg/ioga/pilates?

| | **Llun** | **Mawrth** | **Mercher** | **Iau** | **Gwener** | **Sadwrn** | **Sul** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Chi** | | | | | | | |
| | **Llun** | **Mawrth** | **Mercher** | **Iau** | **Gwener** | **Sadwrn** | **Sul** |
| **Partner** | | | | | | | |

# Beth dych chi'n wneud?

Dewiswch un gweithgaredd ar gyfer pob dydd./*Choose one activity for each day.*

| | Chi | | |
|---|---|---|---|
| **dydd Sul** | | | |
| **dydd Llun** | | | |
| **dydd Mawrth** | | | |
| **dydd Mercher** | | | |
| **dydd Iau** | | | |
| **dydd Gwener** | | | |
| **dydd Sadwrn** | | | |



## Sgwrs 2

**A:** Bore da.

**B:** Hmff.

**A:** Sut dych chi heddiw?

**B:** Ofnadwy. Dw i ddim yn lico dydd Llun.

**A:** Coffi?

**B:** Ych a fi. Dw i ddim yn lico coffi.

**A:** Te?

**B:** Iawn.

**A:** Llaeth?

**B:** Ych a fi. Dw i ddim yn lico llaeth. Reit, ble dw i'n gweithio?

**A:** Gweithio? Ym, dw i ddim yn siŵr. Pwy dych chi, plîs?

**B:** Williams, y bòs newydd.

**A:** O? Neis iawn.... Croeso, Mr Williams.

**B:** Dr Williams.

**A:** Croeso, Dr Williams.

....

**A:** (wrtho/wrthi ei hun / *to him*/*herself*) Ych a fi, dw i ddim yn lico'r bòs newydd.

## Robin Radio

**a) Atebwch /** ***Answer:***

Gyda phwy mae Robin yn siarad?
*Who is Robin speaking to?*

.........................................................................

.........................................................................

.........................................................................

Pa adeg o'r diwrnod yw hi?
*What time of day is it?*

.........................................................................

.........................................................................

.........................................................................

Ble mae Robin yn byw?
*Where does Robin live?*

.........................................................................

.........................................................................

**b) Gwrandewch am /** ***Listen out for:***

Pwy sy'n siarad? — *Who is speaking?*
byd bach — *small world*
wedi ymddeol — *retired*

**c) Cyfieithwch /** ***Translate:***

*How are you today?*

.........................................................................

*Where do you live?*

.........................................................................

*I don't work.*

.........................................................................

.........................................................................

.........................................................................

.........................................................................

## Help llaw

1. *The verb* **bod** *(to be) is very important in Welsh. Here it is used to make present tense patterns.* **Dw i + yn + *verb (also* Rwyt ti, 'Dyn ni, Dych chi).** *In this unit we have been looking at present tense sentences, e.g.*

   **Dw i'n hoffi** — *I like*
   **Dw i'n mynd** — *I go/I am going*
   **Dw i'n darllen** — *I read/I am reading*
   **Dw i'n gweithio** — *I work/I am working*

2. **Dw i'n hoffi** *– I like – is also said as* **Dw i'n lico/licio** *in many areas of Wales. Both are fine, use the one you like (ask your tutor!)*

3. **Ydw / Nac ydw** *is the 1st person answer (present tense) when questions start with* **Wyt ti** *or* **Dych chi...***You are literally saying I am / I do or I am not / I don't. The plural is* **Ydyn / Nac ydyn.**

4. *You may come across the form* **Rydw i. Dw i** *is a shortened form used in speech.*

5. *Here are the forms of the verb* **bod** *in* Uned 2*:*

| **Cadarnhaol/ *Affirmative*** | **Negyddol/ *Negative*** | **Cwestiwn/ *Question*** | |
|---|---|---|---|
| **Dw i** | **Dw i ddim** | **Wyt ti?** | **Ydw/Nac ydw** |
| **Rwyt ti** | **Dwyt ti ddim** | **Dych chi?** | **Ydyn/Nac ydyn** |
| **'Dyn ni** | **'Dyn ni ddim** | | |
| **Dych chi** | **Dych chi ddim** | | |

6. **Beth dych chi'n wneud?**
   *You will notice that* **gwneud** *(to do, to make) has become* **wneud**. *Giving a full explanation here would not be meaningful and therefore just learn it as a really useful question.*

# Uned 3 (tri) Dych chi eisiau paned?

**Nod: Mynegi dymuniad /** *Expressing a desire*
(Dw i eisiau, Mae Aled eisiau)

- enwau benywaidd / *feminine nouns*
- enwau gwrywaidd / *masculine nouns*
- berfau / *verbs*
- ansoddeiriau / *adjectives*
- arall / *other*

## Geirfa

| | | | |
|---|---|---|---|
| **diod(ydd)** | *drink(s)* | **swydd(i)** | *job(s)* |
| **iâ** | *ice* | **punt (punnoedd)** | *pound(s) (money)* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **blodyn (blodau)** | *flower(s)* | **hufen iâ** | *ice cream* |
| **caffi(s)** | *café(s)* | **pysgodyn (pysgod)** | *fish(es)* |
| **dŵr** | *water* | **rhywbeth** | *something* |
| **ffôn (ffonau)** | *phone(s)* | **sglodion** | *chips* |
| **finegr** | *vinegar* | **te** | *tea* |
| **gwaith** | *work* | **tŷ (tai)** | *house(s)* |
| **halen** | *salt* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **cael** | *to have* | **eisiau** | *to want* |
| **clywed** | *to hear* | **nofio** | *to swim* |
| **deall** | *to understand* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **arall** | *other, else* | **rhywbeth arall** | *something else* |
| **dyma** | *here is, this is* | **os gwelwch chi'n dda** | *please* |

**Cymraeg Dosbarth –**
Dw i ddim yn deall.
Pawb yn deall?

Geiriau pwysig i fi

× ..................................... × .....................................

× ..................................... × .....................................

**Dw i eisiau paned.** — *I want a cuppa.*
**Dw i eisiau te.** — *I want tea.*
**Dw i eisiau car newydd.** — *I want a new car.*
**Dw i eisiau swydd newydd.** — *I want a new job.*

**Wyt ti eisiau diod?** — *Do you want a drink?*
**Wyt ti eisiau paned?** — *Do you want a cuppa?*
**Wyt ti eisiau llaeth?** — *Do you want milk?*
**Wyt ti eisiau siwgr?** — *Do you want sugar?*

**Ydw.** ✔ **Nac ydw.** ✗

**Dw i ddim eisiau coffi.** — *I don't want coffee.*
**Dw i ddim eisiau te gwyrdd.** — *I don't want green tea.*
**Dw i ddim eisiau tŷ newydd.** — *I don't want a new house.*
**Dw i ddim eisiau ffôn newydd.** — *I don't want a new phone.*

## Amser Paned – Gofynnwch i'r dosbarth:

| Enw | coffi | te | llaeth | siwgr |
|---|---|---|---|---|
| Chi | | | | |
| Tiwtor | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

## Sgwrs 1

**A:** Noswaith dda. Beth dych chi eisiau?
**B:** Pysgodyn a sglodion, os gwelwch chi'n dda.
**A:** Dych chi eisiau finegr?
**B:** Ydw, plîs.
**A:** Dych chi eisiau halen?
**B:** Dim diolch.
**A:** Dych chi eisiau rhywbeth arall?
**B:** Potel o lemonêd, os gwelwch chi'n dda.
**A:** Dyma chi. Pum punt, os gwelwch chi'n dda.
**B:** Dyma chi.
**A:** Diolch.

## Yn y caffi...

**A:** Beth dych chi eisiau?
**B:** 
**A:** Dych chi eisiau  ?
**B:** ✗
**A:** Dych chi eisiau  ?
**B:** ✓ Dw i eisiau siwgr.
**A:** Dych chi eisiau rhywbeth arall?
**B:** ✗
**A:** Dyma chi. Punt, os gwelwch chi'n dda.
**B:** Dyma chi.
**A:** Diolch.

**A:** Beth dych chi eisiau?
**B:** 
**A:** Dych chi eisiau  ?
**B:** ✓
**A:** Dych chi eisiau  ?
**B:** ✗ Dw i ddim eisiau siwgr.
**A:** Dych chi eisiau rhywbeth arall?
**B:** ✗
**A:** Dyma chi. Punt, os gwelwch chi'n dda.
**B:** Dyma chi.
**A:** Diolch.

| | |
|---|---|
| **Beth dych chi eisiau wneud nawr?** | *What do you want to do now?* |
| **Beth dych chi eisiau wneud heddiw?** | *What do you want to do today?* |
| **Beth dych chi eisiau wneud heno?** | *What do you want to do tonight?* |
| **Beth dych chi eisiau wneud yfory?** | *What do you want to do tomorrow?* |

| | |
|---|---|
| **'Dyn ni eisiau dawnsio heno.** | *We want to dance tonight.* |
| **'Dyn ni eisiau canu carioci heno.** | *We want to sing karaoke tonight.* |
| **'Dyn ni eisiau smwddio heno.** | *We want to iron tonight.* |
| **'Dyn ni eisiau gwneud y gwaith cartre heno.** | *We want to do the homework tonight.* |

| | |
|---|---|
| **Dych chi eisiau dawnsio heno?** | *Do you want to dance tonight?* |
| **Dych chi eisiau canu carioci heno?** | *Do you want to sing karaoke tonight?* |
| **Dych chi eisiau smwddio heno?** | *Do you want to iron tonight?* |
| **Dych chi eisiau gwneud y gwaith cartre heno?** | *Do you want to do the homework tonight?* |

**Ydyn.** ✔ **Nac ydyn.** ✗

## Sgwrs 2

**A:** Dych chi eisiau paned?

**B:** Mm, diolch yn fawr. Coffi, plîs.

**A:** Dych chi eisiau llaeth a siwgr?

**B:** Ydw, llaeth a chwech siwgr.

**A:** Dyma chi. Dych chi eisiau cacen?

**B:** Dim diolch. Dw i'n slimo.

| | |
|---|---|
| **Mae Siân eisiau diod.** | *Siân wants a drink.* |
| **Mae Siân eisiau te.** | *Siân wants tea.* |
| **Mae Siân eisiau hufen iâ.** | *Siân wants ice cream.* |
| **Mae Siân eisiau dŵr.** | *Siân wants water.* |


## Ynganu

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| cof | ffynnu | synnu | dysgu | hynny |
| nain | trai | crai | sain | taid |

## Lliwiau



# Blodau



## Robin Radio

**a) Atebwch /** *Answer:*
Pwy sy'n ffonio Robin?

..........................................................................................

Sut mae Haf?

..........................................................................................

Beth yw gwaith Haf? *What is Haf's job?*

..........................................................................................

**b) Gwrandewch am /** *Listen out for:*
Mae'n braf. —— *It's nice weather.*
ysbyty —— *hospital*
Diolch am ffonio. —— *Thanks for phoning.*

**c) Cyfieithwch /** *Translate:*
*I'm Haf. How are you?* ..........................................................................

*Where do you work?* ..........................................................................

## Help llaw

**1**. *When using* **eisiau** *– to want – never use* **yn**.

**2.** *The third person singular of* **bod** *(to be) is introduced in* Uned 3. *To speak of a third person, we use* **Mae** *at the beginning of the sentence:*

**Mae** Aled eisiau diod. / **Mae** Aled yn hoffi te.
**Mae** Aled yn dysgu Cymraeg.

*So far, you have learned.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dw i | *I am* | 'Dyn ni | *We are* |
| Rwyt ti | *You are* | Dych chi | *You are* |
| Mae Aled | *Aled is* | | |

**3.** *Notice:*
**pum punt =** *a singular noun following a number.*

# Uned 4 (pedwar) – Mynd a dod

**Nod: Trafod o ble dych chi'n dod a ble dych chi'n mynd**/*Discussing where you come from and where you are going* (Dw i'n dod o, dw i'n mynd i)

---

## Geirfa

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Caerdydd** | *Cardiff* | **Lloegr** | *England* |
| **Cymru** | *Wales* | **Llundain** | *London* |
| **gêm (gemau)** | *game(s), match(es)* | **siop(au)** | *shop(s)* |
| **gwlad (gwledydd)** | *country (countries)* | **tref(i)** | *town(s)* |
| **gwyliau** | *holiday(s)* | **tudalen(nau)** | *page(s)* |
| **Iwerddon** | *Ireland* | **theatr(au)** | *theatre(s)* |
| | | **Yr Alban** | *Scotland* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **beic(iau)** | *bike(s)* | **Nadolig** | *Christmas* |
| **byd** | *world* | **penwythnos(au)** | *weekend(s)* |
| **dyn(ion)** | *man (men)* | **sinema (sinemâu)** | *cinema(s)* |
| **gwely(au)** | *bed(s)* | **tîm (timau)** | *team(s)* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **aros** | *to stay, to wait* | **dweud** | *to say, to tell* |
| **cerdded** | *to walk* | **hedfan** | *to fly* |
| **cofio** | *to remember* | **helpu** | *to help* |
| **dod** | *to come* | **nabod** | *to know, to recognise* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **aml** | *often* | **gwreiddiol** | *original* |
| **bach** | *small* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **a dweud y gwir** | *to tell the truth* | **pan** | *when* |
| **adre** | *(towards) home* | **pob** | *every* |
| **dros** | *over* | **pob lwc** | *good luck* |
| **dyna** | *there is* | **weithiau** | *sometimes* |
| **gan** | *by, from (a person)* | **wir** | *indeed* |
| **neu** | *or* | **yno** | *there* |


**Cymraeg Dosbarth –**
Gyda'ch partner.
Partner newydd.
Gwela i chi yr wythnos nesa!

Geiriau pwysig i fi

× ........................ × ........................

× ........................ × ........................

| | |
|---|---|
| **Dw i'n dod o Abertawe.** | *I come from Swansea.* |
| **Dw i'n dod o Harlech.** | *I come from Harlech.* |
| **'Dyn ni'n dod o'r Bala.** | *We come from Bala.* |
| **'Dyn ni'n dod o'r Fenni.** | *We come from Abergavenny.* |
| **O ble rwyt ti'n dod?** | *Where do you come from?* |
| **O ble dych chi'n dod?** | *Where do you come from?* |



| | |
|---|---|
| ABERYSTWYTH | ABERDEEN |
| EGLWYSBACH | EGLWYSWRW |
| FFWRNAIS | FFRAINC |
| HARLECH | HWLFFORDD |
| AWSTRALIA | IWERDDON |
| RWMANIA | RWSIA |
| SYRIA | SBAEN |
| WAUNFAWR | WRECSAM |
| YSTRADGYNLAIS | Y BARRI |

## Y Treiglad Meddal – *Soft Mutation*

**Ar ôl o mae 9 llythyren** *(9 letters)* **yn newid. Gweler Help llaw (***see* **Help llaw).**

| | | |
|---|---|---|
| **t** | **d** | **ll** |
| **c** | **g** | **rh** |
| **p** | **b** | **m** |

| | |
|---|---|
| Dw i'n dod o **D**alybont, o **D**reffynnon, o **D**reorci, o **D**yddewi | T > **D** |
| Dw i'n dod o **G**aerdydd, o **G**eredigion, o **G**aergybi, o **G**ymru | C > **G** |
| Dw i'n dod o **B**enarth, o **B**wllheli, o **B**restatyn, o **B**ontypridd | P > **B** |
| Dw i'n dod o **Dd**olgellau, o **Dd**owlais, o **Dd**eganwy, o **Dd**inbych | D > **Dd** |
| Dw i'n dod o _**L**ynebwy, o _**W**ynedd, o _**L**ynceiriog, o _**W**ent | G > _ |
| Dw i'n dod o **F**angor, o **F**ethesda, o **F**rynmawr, o **F**edwas | B > **F** |
| Dw i'n dod o **R**ydaman, o **R**uthun, o **R**isga, o **R**osneigr | Rh > **R** |
| Dw i'n dod o **L**angrannog, o **L**anelli, o **L**angollen, o **L**oegr | Ll > **L** |
| Dw i'n dod o **F**achynlleth, o **F**erthyr, o **F**aesteg, o **F**eifod | M > **F** |

## O ble dych chi'n dod yn wreiddiol?

| | |
|---|---|
| **Cymru** | *Wales* |
| **Iwerddon** | *Ireland* |
| **Yr Alban** | *Scotland* |
| **Lloegr** | *England* |



**Mae Gareth yn dod o Gymru.** — *Gareth comes from Wales.*
**Mae Lisa yn dod o Loegr.** — *Lisa comes from England.*
**Mae Iona yn dod o Iwerddon.** — *Iona comes from Ireland.*
**Mae Andrew yn dod o'r Alban.** — *Andrew comes from Scotland.*
**O ble mae Carmen yn dod?** — *Where does Carmen come from?*

| **Enw** | **C** | **Ll** | **A** | **I** | **Gwlad arall** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

Dyma gerdd *(poem)* gan Cyril Jones (*Dysgu trwy lenyddiaeth*, CBAC)

I gofio'r treiglad meddal:
Mae Ceri o Gaerdydd,
Mae Tom yn dod o Dalybont
A Pam o Bontypridd.

Mae Gwyn yn dod o Wynedd,
Mae Dai o Ddinas Brân,
Mae Bob yn dod o Fangor,
A dyna hanner cân.

Mae Mari'n dod o Fargam,
A Llew o Lan–y–bri,
Mae Rhys yn dod o Ryd–y–waun,
Ac wedyn, dyna ni!

## Ble dych chi'n mynd?

| | |
|---|---|
| **Dw i'n mynd i Gaerdydd.** | *I'm going to Cardiff.* |
| **Dw i'n mynd i Fangor.** | *I'm going to Bangor.* |
| **Dw i'n mynd i Landudno.** | *I'm going to Llandudno.* |
| **Dw i'n mynd i Bontypridd.** | *I'm going to Pontypridd.* |
| **Dw i'n mynd i'r sinema.** | *I'm going to the cinema.* |
| **Dw i'n mynd i'r gêm.** | *I'm going to the game.* |
| **Dw i'n mynd i'r siop.** | *I'm going to the shop.* |
| **Dw i'n mynd i'r theatr.** | *I'm going to the theatre.* |
| **'Dyn ni'n mynd i'r gwaith.** | *We're going to work.* |
| **'Dyn ni'n mynd i'r dosbarth.** | *We're going to class.* |
| **'Dyn ni'n mynd i'r gwely.** | *We're going to bed.* |
| **'Dyn ni'n mynd i'r dre.** | *We're going to town.* |
| **Ble rwyt ti'n mynd yfory?** | *Where are you going tomorrow?* |
| **Ble rwyt ti'n mynd dydd Sul?** | *Where are you going on Sunday?* |
| **Ble dych chi'n mynd nos yfory?** | *Where are you going tomorrow night?* |
| **Ble dych chi'n mynd nos Sul?** | *Where are you going Sunday night?* |

## Dych chi'n cofio?

**dydd Sul**
**dydd Llun**
**dydd Mawrth**
**dydd Mercher**
**dydd Iau**
**dydd Gwener**
**dydd Sadwrn**

Ond...

**nos Sul**
**nos Lun**
**nos Fawrth**
**nos Fercher**
**nos Iau**
**nos _Wener**
**nos Sadwrn – Hwrê!!**



Dewiswch un lle ac un dull o deithio ar gyfer pob dydd./*Choose one place and one way of getting there for each day.*


| **Chi** | **nos Lun** | **nos Fawrth** | **nos Fercher** | **nos Iau** | **nos Wener** | **nos Sadwrn** | **nos Sul** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ble?** | | | | | | | |
| **Sut?** | | | | | | | |
| **Partner:** | **nos Lun** | **nos Fawrth** | **nos Fercher** | **nos Iau** | **nos Wener** | **nos Sadwrn** | **nos Sul** |
| **Ble?** | | | | | | | |
| **Sut?** | | | | | | | |


**BLE?** – i'r sinema, i'r theatr, i'r dre, i'r gêm, i'r dosbarth, i'r caffi, i'r siop.
**SUT?** – yn y car, ar y bws, ar y beic, ar y trên, **neu** Dw i'n cerdded.

# Beth dych chi'n mynd i wneud?


**Dw i'n mynd i siopa.** — *I'm going shopping.*
**Dw i'n mynd i nofio.** — *I'm going swimming.*
**Dw i'n mynd i chwarae golff.** — *I'm going to play golf.*
**Dw i'n mynd i helpu ffrind.** — *I'm going to help a friend.*

**Dw i'n mynd i ddarllen llyfr.** — *I'm going to read a book.*
**Dw i'n mynd i gael bath.** — *I'm going to have a bath.*
**Dw i'n mynd i fwyta cinio.** — *I'm going to eat lunch.*
**Dw i'n mynd i weld ffilm.** — *I'm going to see a film.*





## Gêm dis



**1** - heno
**2** - bore yfory
**3** - nos yfory
**4** - dydd Sul
**5** - nos Sul
**6** - yr wythnos nesa

## Ynganu – llythrennau dwbl

**Aberystwyth**
**Dinbych**
**Llandudno**
**Llangollen**
**Treffynnon**

**Beddgelert**
**Dolgellau**
**Llanelli**
**Machynlleth**
**Tyddewi**

**Clydach**
**Hwlffordd**
**Llanfihangel**
**Pwllheli**
**Y Rhyl**

Edrychwch yn ôl ar yr wyddor ar dudalen 10.
*Look back at the alphabet on page 10.*

## Sgwrs 1

**Ceri:** O ble rwyt ti'n dod yn wreiddiol?
**Chris:** Dw i'n dod o America.
**Ceri:** Ble yn America?
**Chris:** Dw i'n dod o Los Angeles.
**Ceri:** Wel, wel, dw i'n lico Los Angeles. Dw i'n mynd yno ar wyliau bob haf.
**Chris** Wyt ti'n nabod Ioan Ifans o Gaerdydd?
**Ceri:** Ydw, wir! Dw i'n aros gyda Ioan weithiau.
**Chris:** Wel, wel, dw i'n mynd i wylio pêl-fasged gyda Ioan yn aml.
**Ceri:** Byd bach!

## Sgwrs 2

Mae Gareth a Mari'n cael sgwrs.

**A:** Beth wyt ti'n wneud y penwythnos 'ma?

**B:** Dw i'n mynd i Lundain ar y trên bore dydd Gwener.

**A:** Pryd?

**B:** Pump o'r gloch y bore. Dw i'n mynd i Stockholm yn y prynhawn.

**A:** O ble rwyt ti'n hedfan?

**B:** O Heathrow. Dw i'n mynd i weld tîm pêl-droed Cymru yn chwarae yn Sweden nos Wener.

**A:** Ble rwyt ti'n aros?

**B:** Dw i ddim yn aros. Dw i'n mynd ar y fferi i Riga dros nos. Dw i'n mynd i barti yn Riga nos Sadwrn.

**A:** Pryd rwyt ti'n dod adre?

**B:** Nos Sul. Wel, tri o'r gloch y bore, bore dydd Llun, a dweud y gwir.

**A:** Wyt ti'n gweithio dydd Llun?

**B:** Ydw, dw i'n mynd i Gaerdydd gyda'r bòs. 'Dyn ni'n mynd ar y trên o Fangor!

**A:** Pob lwc!

## Llenwch y bylchau/*Fill in the gaps:*

**Mae Mari'n mynd i ................................ ar y trên bore dydd Gwener.**

**Mae Mari'n mynd i Stockholm yn y prynhawn o ....................................**

**Mae Mari'n mynd ar y fferi i ................................ dros nos.**

**Mae Mari'n mynd i ................................ yn Riga nos Sadwrn.**

**Mae Mari'n mynd i Gaerdydd ar y ................................ bore Llun.**

## Robin Radio

**a) Atebwch /** *Answer:*

**1.** Gyda phwy mae Robin yn siarad? *Who is Robin talking to?*

........................................................................................................................

**2.** Ble mae hi'n byw? *Where does she live?*

........................................................................................................................

**3.** Pam mae hi'n mynd i Melbourne? *Why is she going to Melbourne?*

........................................................................................................................

**b) Gwrandewch am /** *Listen out for:*

dros y Nadolig —— *over Christmas*
Dych chi'n mynd yn ôl? —— *Do you go back?*
siwrne dda —— *good journey*

**c) Cyfieithwch /** *Translate:*

*I come from Australia.* ..........................................................................................

*I'm going to Melbourne.* ........................................................................................

## Help llaw

**1. Y Treiglad Meddal /** *The Soft Mutation*

*You may have noticed that some words change their first letter in Welsh sometimes. These are called mutations and are meant to make it easier to link words together.*

*Once you start listening out for them you will see that they are quite common for various reasons – but don't worry too much about them, they don't change the meaning and people will understand you even if you forget.*

*After the words* **o** *(from) and* **i** *( to) there is a change called the soft mutation –* **treiglad meddal.**

*Only 9 letters change – the majority stay the same.*

| | | |
|---|---|---|
| **t > d** | **d > dd** | **m > f** |
| **c > g** | **g > /** | **rh > r** |
| **p > b** | **b > f** | **ll > l** |

**2. Dw i'n mynd i'r** = *I'm going to the…blocks the mutation unless it's a* ***singular*** *feminine noun!* **Dw i'n mynd i'r dosbarth, i'r caffi, i'r tŷ bwyta, i'r dafarn, i'r dre** *(feminine nouns!).*

**3. I'r** *means 'to the' but look at the following phrases:*

| | |
|---|---|
| **mynd i'r dosbarth** | *to go to class* |
| **mynd i'r gwaith** | *to go to work* |
| **mynd i'r ysgol** | *to go to school* |
| **mynd i'r dre** | *to go to town* |

*In English, we omit 'the' when referring to a specific place we attend regularly.*

**4. Dw i'n mynd i** *… can mean both "I'm going to…" a place and "I'm going to…." do something.*

**5.** Yn Sgwrs 2, dych chi'n gweld 'Dw i'n mynd i barti':

| | |
|---|---|
| Dw i'n mynd **i b**arti. | *I am going* **to a** *party.* |
| Dw i'n mynd **i'r** parti. | *I am going to the party.* |
| Dw i'n mynd **i g**affi. | *I am going* **to a** *café.* |
| Dw i'n mynd **i'r** caffi. | *I am going to the café.* |
| Dw i'n mynd **i** siop. | *I am going* **to a** *shop.* |
| Dw i'n mynd **i'r** siop. | *I am going to the shop.* |

# Uned 5 (pump) – Beth wnest ti ddoe?

**Nod: Dweud beth wnaethoch chi/***Saying what you made and did*
(Gwnes i, Beth wnest ti?, Beth wnaethoch chi? Coginiais i)

## Geirfa

| | | | |
|---|---|---|---|
| **eglwys(i)** | *church(es)* | **swyddfa bost** | *a post office* |
| **lolfa** | *lounge* | **tafarn(au)** | *pub(s)* |
| **llyfrgell(oedd)** | *library (libraries)* | **ysgol(ion)** | *school(s); ladder(s)* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **amser** | *time* | **llyfr(au)** | *book(s)* |
| **banc(iau)** | *bank(s)* | **parc(iau)** | *park(s)* |
| **brecwast(au)** | *breakfast(s)* | **rygbi** | *rugby* |
| **cartref(i)** | *a home (homes)* | **stamp(iau)** | *stamp(s)* |
| **clwb (clybiau)** | *club(s)* | **swper** | *supper* |
| **llestr(i)** | *dish(es)* | **ysbyty (ysbytai)** | *hospital(s)* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **coginio** | *to cook* | **golchi** | *to wash* |
| **edrych ar** | *to look at* | **ymlacio** | *to relax* |
| **garddio** | *to garden* | **ymolchi** | *to wash (oneself)* |

| | |
|---|---|
| **diwetha** | *last (previous)* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **ddoe** | *yesterday* | **neithiwr** | *last night* |
| **gyda'r nos** | *in the evening* | **wedyn** | *afterwards* |

Geiriau pwysig i fi

..................................... ..................................... 
× ×
..................................... .....................................
× ×
..................................... .....................................

**Cymraeg Dosbarth –**
Mae'n ddrwg gyda fi.
Dim problem.
Tudalen 41.

## Gwneud

**Gwnes i swper ddoe.** — *I made supper yesterday.*
**Gwnes i de ddoe.** — *I made tea yesterday.*
**Gwnes i ginio ddoe.** — *I made dinner yesterday.*
**Gwnes i frecwast ddoe.** — *I made breakfast yesterday.*

**Beth wnest ti ddoe?** — *What did you do yesterday?*
**Beth wnest ti neithiwr?** — *What did you do last night?*
**Beth wnaethoch chi ddoe?** — *What did you do yesterday?*
**Beth wnaethoch chi neithiwr?** — *What did you do last night?*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **8.15am** | **gwneud paned** | **1.30pm** | **gwneud cacen** |
| **8.30am** | **gwneud brecwast** | **2.00pm** | **gwneud bara** |
| **11.00am** | **gwneud coffi** | **3.30pm** | **gwneud te** |
| **12.30pm** | **gwneud cinio** | **7.00pm** | **gwneud swper** |

**Wnest ti swper ddoe?** — *Did you make supper yesterday?*
**Wnest ti de ddoe?** — *Did you make tea yesterday?*
**Wnest ti ginio ddoe?** — *Did you make dinner yesterday?*
**Wnest ti frecwast ddoe?** — *Did you make breakfast yesterday?*

**Do.** ✔ **Naddo.** ✗

## Berfau rheolaidd/Regular verbs

| | | | |
|---|---|---|---|
| golchi | golch**ais** i | coginio | cogini**ais** i |
| ymolchi | ymolch**ais** i | ymlacio | ymlaci**ais** i |
| edrych | edrych**ais** i | | |

| | |
|---|---|
| **Gyrrais i ddoe.** | *I drove yesterday.* |
| **Ymolchais i ddoe.** | *I washed yesterday.* |
| **Canais i ddoe.** | *I sang yesterday.* |
| **Bwytais i ddoe.** | *I ate yesterday.* |
| **Bwytais i siocled ddoe.** | *I ate chocolate yesterday.* |
| **Bwytais i sglodion ddoe.** | *I ate chips yesterday.* |
| **Bwytais i gig ddoe.** | *I ate meat yesterday.* |
| **Bwytais i gaws ddoe.** | *I ate cheese yesterday.* |
| **Coginiais i bysgod ddoe.** | *I cooked fish yesterday.* |
| **Gwyliais i *Pobol y Cwm* ddoe.** | *I watched Pobol y Cwm yesterday.* |
| **Gweithiais i yn y tŷ ddoe.** | *I worked in the house yesterday.* |
| **Ymlaciais i yn y tŷ ddoe.** | *I relaxed in the house yesterday.* |
| **Darllenais i lyfr neithiwr.** | *I read a book last night.* |
| **Chwaraeais i gyda'r plant neithiwr.** | *I played with the children last night.* |
| **Edrychais i ar y teledu neithiwr.** | *I watched television last night.* |
| **Arhosais i yn y tŷ neithiwr.** | *I stayed in the house last night.* |

## Holiadur

| Enw | ddoe | neithiwr | dydd Sadwrn |
|---|---|---|---|
| | | | |

## Sgwrs

**A:** Beth wnaethoch chi ddoe?

**B:** Arhosais i yn y tŷ.

**A:** Beth wnaethoch chi yn y tŷ, 'te?

**B:** Golchais i'r car yn y bore,
garddiais i yn y prynhawn
ac wedyn darllenais i'r papur.

**A:** A beth wnaethoch chi gyda'r nos?

**B:** Edrychais i ar y teledu yn y lolfa.

**A:** Wnaethoch chi swper?


**B:** Naddo. Gyrrais i i'r siop i brynu
têcawê!

## Ynganu - Y

| | | | |
|---|---|---|---|
| trydan | gwyn | tywydd | ysbyty |
| pymtheg | plentyn | ynys | gwely |
| gyrru | menyn | mynydd | bwyty |

## Robin Radio

**a) Alwen dych chi.** *(You are Alwen.)* **Atebwch y cwestiynau:**



Beth wnaethoch chi ddoe? ..................................................

Dych chi'n lico'r gwaith? ..................................................

Beth dych chi eisiau wneud? ..................................................



**b) Gwrandewch am:**

Wnes i ddim byd. ________________ *I didn't do anything.*
Es i i'r gwaith. ________________ *I went to work.*
Pam rwyt ti'n ffonio? ________________ *Why are you phoning?*

**c) Cyfieithwch:**

*What did you do?* ..................................................

*I stayed at home.* ..................................................

*I'm not sure.* ..................................................

# Help llaw

**1**. *In this unit, you have been introduced to some concise past tense verbs so that you can have a chat about your weekends and so on at the beginning of class. This work will be introduced fully in units 9-11, but for the time being, concentrate on the following rules.*

*You have to add the ending -***ais** *to the stem of a verb to speak about yourself in the past. Here are some basic rules for finding the stem:*

| | |
|---|---|
| *drop the final vowel sound* | golchi > golchais i |
| *drop the final vowel sound where there is an* **io** *at the end* | ymlacio > ymlaciais i |
| *add the ending to the verb itself* | edrych > edrychais i |
| *Note that* **aros** *is a little differrent* | aros > arhosais i |

**2. Gwneud** *is an irregular verb. For the time being, learn the following forms:*

| **Cadarnhaol/*Affirmative*** | | **Cwestiwn/*Question*** | |
|---|---|---|---|
| Gwnes i | *I did* | Wnes i? | *Did I?* |
| Gwnest ti | *You did* | Wnest ti? | *Did you?* |
| Gwnaethoch chi | *You did* | Wnaethoch chi? | *Did you?* |

**3.** *The answer to questions in the past tense is always* **Do** *or* **Naddo**.

| | |
|---|---|
| Wnest ti swper ddoe? | Do/Naddo. |

**4.** *You will hear two different ways of the concise past being expressed.*

| | |
|---|---|
| Coginiais i. | Gwnes i goginio. |
| Gyrrais i. | Gwnes i yrru. |
| Darllenais i. | Gwnes i ddarllen. |

# Uned 6 (chwech) – Sut mae'r tywydd?

**Nod: Siarad am y tywydd a phobl eraill/** *Talking about the weather and other people*
(mae e, mae hi, maen nhw)

## Geirfa

| | | | |
|---|---|---|---|
| **awyren(nau)** | *plane(s)* | **gwraig (gwragedd)** | *wife (wives)* |
| **barn** | *opinion* | **neuadd(au)** | *hall(s)* |
| **cân (caneuon)** | *song(s)* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **bws (bysiau)** | *bus(es)* | **llawr** | *floor* |
| **cant (cannoedd)** | *hundred(s)* | **lle(oedd)** | *place(s)* |
| **cyfarfod(ydd)** | *meeting(s)* | **teulu(oedd)** | *family (families)* |
| **eira** | *snow* | **traeth(au)** | *beach(es)* |
| **glaw** | *rain* | **trên (trenau)** | *train(s)* |
| **gŵr (gwŷr)** | *husband(s)* | **tywydd** | *weather* |
| **hanner** | *half* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **bwrw eira** | *to snow* | **gallu** | *to be able to* |
| **bwrw glaw** | *to rain* | **gorfod** | *to have to* |
| **cau** | *to close* | **gorffen** | *to finish* |
| **cwrdd (â)** | *to meet* | **gwybod** | *to know* |
| **dechrau** | *to start* | **rhedeg** | *to run* |
| **gadael** | *to leave* | **torri i lawr** | *to break down* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **braf** | *fine* | **oer** | *cold* |
| **cymylog** | *cloudy* | **poeth** | *hot* |
| **diflas** | *boring, miserable* | **prysur** | *busy* |
| **gwlyb** | *wet* | **pwysig** | *important* |
| **gwyntog** | *windy* | **stormus** | *stormy* |
| **hapus** | *happy* | **swnllyd** | *noisy* |
| **hyfryd** | *nice, pleasant* | **sych** | *dry* |
| **mawr** | *big* | **twym** | *warm* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **pam?** | *why?* | **tua** | *about* |
| **rhywle** | *somewhere* | | |

Geiriau pwysig i fi

× ..........................................................

× ..........................................................


**Cymraeg Dosbarth**
Sut mae dweud ......? Ysgrifennwch yn y *chat*.

**Mae hi'n braf.** — *It's fine.*
**Mae hi'n oer.** — *It's cold.*
**Mae hi'n stormus.** — *It's stormy.*
**Mae hi'n sych.** — *It's dry.*

**Mae hi'n wyntog.** — *It's windy.*
**Mae hi'n wlyb.** — *It's wet.*
**Mae hi'n gymylog.** — *It's cloudy.*
**Mae hi'n dwym.** — *It's hot.*

**Mae hi'n bwrw glaw.** — *It's raining.*
**Mae hi'n bwrw eira.** — *It's snowing.*

**Sut mae'r tywydd heddiw?** — *How is the weather today?*




## Ymarfer

**A:** Bore da. Mae hi'n <u>braf</u> heddiw. (gwyntog, twym, stormus, gwlyb)
**B:** Ydy, mae hi'n braf iawn. Dw i'n mynd i'r <u>parc.</u> (sinema, tafarn, llyfrgell, traeth)
**A:** Hyfryd, hwyl!
( *ydy= yes, it is. )

## Mae hi/Mae e/Maen nhw

| | |
|---|---|
| **Mae Sam yn nofio.** | *Sam is swimming.* |
| **Mae hi'n nofio.** | *She is swimming.* |
| **Mae hi'n gyrru.** | *She is driving.* |
| **Mae e'n canu.** | *He is singing.* |
| **Mae e'n dawnsio.** | *He is dancing.* |
| **Maen nhw'n coginio.** | *They are cooking.* |
| **Maen nhw'n rhedeg.** | *They are running.* |
| **Mae Sam yn gallu nofio.** | *Sam can swim.* |
| **Mae hi'n gallu nofio.** | *She can swim.* |
| **Mae hi'n gallu gyrru.** | *She can drive.* |
| **Mae e'n gallu canu.** | *He can sing.* |
| **Mae e'n gallu dawnsio.** | *He can dance.* |
| **Maen nhw'n gallu coginio.** | *They can cook.* |
| **Maen nhw'n gallu rhedeg.** | *They can run.* |
| **Mae Sam yn gallu nofio'n dda.** | *Sam can swim well.* |
| **Mae hi'n gallu nofio'n dda.** | *She can swim well.* |
| **Mae hi'n gallu gyrru'n dda.** | *She can drive well.* |
| **Mae e'n gallu canu'n dda.** | *He can sing well.* |
| **Mae e'n gallu dawnsio'n dda.** | *He can dance well.* |
| **Maen nhw'n gallu coginio'n dda.** | *They can cook well.* |
| **Maen nhw'n gallu rhedeg yn dda.** | *They can can run well.* |

## Dyma John / Dyma Tom

Dyma ........................ Mae e'n dod o ................................

Mae e'n hoffi ..................... Mae e'n gallu ..................... 'n dda.

Mae e'n mynd i ................................ i .................................. bob penwythnos.

| | |
|---|---|
| **Mae hi'n gorfod siopa yfory.** | *She must shop tomorrow.* |
| **Mae hi'n gorfod gweithio yfory.** | *She must work tomorrow.* |
| **Mae e'n gorfod gweithio yfory.** | *He must work tomorrow.* |
| **Mae e'n gorfod smwddio yfory.** | *He must iron tomorrow.* |
| **Maen nhw'n gorfod smwddio yfory.** | *They must iron tomorrow.* |
| **Maen nhw'n gorfod coginio yfory.** | *They must cook tomorrow.* |









## Barn


| | |
|---|---|
| **Wyt ti'n hoffi bocsio?** | Ydw, mae e'n grêt.<br>Mae e'n iawn.<br>Nac ydw, mae e'n ofnadwy. |
| **Wyt ti'n lico'r ffilm?** | Ydw, mae hi'n fendigedig.<br>Mae hi'n iawn.<br>Nac ydw, mae hi'n ddiflas. |
| **Wyt ti'n hoffi'r grŵp?** | Ydw, maen nhw'n fendigedig.<br>Maen nhw'n iawn.<br>Nac ydw, maen nhw'n swnllyd. |

| |  |  |  |
|---|---|---|---|
| **criced** | | | |
| **golff** | | | |
| **ffilm:** | | | |
| **ffilm:** | | | |
| **grŵp:** | | | |
| **grŵp:** | | | |

**Sut mae'r dosbarth?** — *How is the class?*
**Ble mae'r dosbarth?** — *Where is the class?*
**Pryd mae'r dosbarth?** — *When is the class?*

**Cysylltwch y cwestiwn â'r ateb cywir/**
*Match the question to the correct answer*

| | |
|---|---|
| Sut mae'r bòs? | Wyth o'r gloch. |
| Ble mae'r bòs? | Mae hi'n brysur. |
| Pryd mae'r bòs yn mynd adre? | Yn y swyddfa. |
| Sut mae'r gŵr? | Mae e yn y car. |
| Ble mae'r gŵr? | Nawr. |
| Pryd mae'r gŵr yn mynd adre? | Mae e'n hapus. |
| Sut mae'r plant? | Tri o'r gloch. |
| Ble mae'r plant? | Maen nhw'n iawn. |
| Pryd mae'r plant yn mynd adre? | Yn yr ysgol. |



# Ynganu

Deuseiniaid – 2 lafariad
*Diphthongs – 2 vowels together*

| | |
|---|---|
| **ai** | Dai, Mair, gair, gwaith, Owain |
| **ae** | pennaeth, gwasanaeth |
| **au** | dau, cau, dechrau |
| **aw** | naw, mawr, llawr, awr, caws, cawl, glaw, pawb |
| **ei** | beic, peint, eira, gweithio |
| **eu** | neu, neuadd, dweud |
| **ew** | blew, llew, tew |

**Dau lew tew heb ddim blew.**
**Mae pawb yn y cae yn chwarae.**
**Dau gawr mawr ar y llawr.**
**Mae'r Neuadd Fawr wedi cau.**
**Mae Dai wedi mynd ar y beic i gael peint o seidr yn y Llew Aur.**

# Sgwrs 1

**A:** Noswaith dda, sut wyt ti heno?
**B:** Ofnadwy.
**A:** Mae hi'n wlyb heno.
**B:** Mae hi'n ofnadwy.
**A:** Sut mae'r teulu?
**B:** Ofnadwy.
**A:** Sut mae'r gwaith?
**B:** Ofnadwy.
**A:** Sut mae'r dosbarth Cymraeg yn mynd?
**B:** Bendigedig.

## Sgwrs 2

**Eryl:** Pryd mae'r cyfarfod pwysig?
**Ceri:** Heno.
**Eryl:** Iawn. Ble mae e?
**Ceri:** Yn Neuadd y Dre.
**Eryl:** Pryd mae e'n dechrau?
**Ceri:** Chwech o'r gloch.
**Eryl:** Pryd mae e'n gorffen?
**Ceri:** Dw i ddim yn gwybod. Tua naw o'r gloch?
**Eryl:** Wyt ti'n mynd?
**Ceri:** Ydw, wrth gwrs. Ond dw i'n gadael am saith o'r gloch.
**Eryl:** Pam?
**Ceri:** Mae'r dosbarth Cymraeg yn cwrdd yn y clwb golff.
**Eryl:** Wel, wel, dw i'n dod i'r clwb golff hefyd, 'te!

## Rhifau mwy na 10 (Numbers greater than 10)

**Degau** *(tens)* **ac unedau** *(units)*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Un deg + un | = 11 | Chwe deg + chwech | = 66 |
| Dau ddeg + dau | = 22 | Saith deg + saith | = 77 |
| Tri deg + tri | = 33 | Wyth deg + wyth | = 88 |
| Pedwar deg + pedwar | = 44 | Naw deg + naw | = 99 |
| Pum deg + pump | = 55 | Cant | = 100 |

## Robin Radio

**a) Atebwch:**

Sut mae'r tywydd yn Aberafon? ..............................................................................

Beth mae Ann eisiau wneud y prynhawn yma? ..............................................................

Beth mae Ann yn mynd i wneud y prynhawn yma? ..........................................................

**b) Gwrandewch am:**

drwy'r wythnos ———— *throughout the week*
ers chwech o'r gloch ———— *since six o'clock*
Does dim ots gyda fi. ———— *I don't mind.*

**c) Cyfieithwch:**

*It is very wet.* ..............................................................................

*What are you doing?* ..............................................................................

*It is dry in the club.* ..............................................................................

# Help llaw

1. *When we speak about the weather we use the feminine version of 'it is' –* **mae hi**. *However, many people don't say the word* **hi** *when speaking – just* **Mae'n...**

2. *In* Uned 6 *we meet another important example of the soft mutation – Adjectives mutate after* **yn**.

   **da > yn dda   prysur > yn brysur**

3. **Sut mae...** *– How is...* **Mae** *is used in questions starting with these words:*

   **Sut mae?** ——— *How is?*
   **Ble mae?** ——— *Where is?*
   **Pryd mae?** ——— *When is?*
   **Pam mae?** ——— *Why is?*

4. *The word for 'the' is* **y**. *However, it is* **yr** *before a vowel and becomes* **'r** *when it follows a vowel.*

   | | | |
   |---|---|---|
   | y neuadd | yr awyren | Sut mae'r tywydd? |
   | y bws | yr eira | i'r ysgol |

5. **Gorfod** *is really useful. Learn the following:*

   Dw i'n gorfod mynd.
   Rwyt ti'n gorfod mynd.
   Mae e'n gorfod mynd.
   Mae hi'n gorfod mynd.
   'Dyn ni'n gorfod mynd.
   Dych chi'n gorfod mynd.
   Maen nhw'n gorfod mynd.

# Uned 7 (saith) – Ydy hi'n gweithio?

**Nod: Gofyn ac ateb cwestiynau am bobl a phethau eraill/***Asking and answering questions about other people and other things*
(Ydy e? Ydy hi? Dyw e ddim, Dyw hi ddim)

## Geirfa

**awr (oriau)** — *hour(s)*
**ceiniog(au)** — *penny (pennies)*
**merch(ed)** — *girl(s), daughter(s)*
**stryd(oedd)** — *street(s)*

**arian** — *money; silver*
**ffasiwn** — *fashion*
**ffermwr (ffermwyr)** — *farmer(s)*
**mab (meibion)** — *son(s)*
**pen-blwydd (penblwyddi)** — *birthday(s)*
**postmon (postmyn)** — *postman (-men)*
**oed** — *age (of person)*
**rhew** — *ice*
**staff** — *staff*
**tŷ bwyta (tai bwyta)** — *restaurant(s)*

**codi** — *to get up, to lift*
**ffeindio** — *to find*

**crac** — *angry*
**cyfeillgar** — *friendly*
**cynta** — *first*
**drud** — *expensive*
**enwog** — *famous*
**twp** — *silly*
**hen** — *old*
**hwyr** — *late*
**nesa** — *next*
**rhad** — *cheap*
**trist** — *sad*

**faint?** — *how much? how many?*
**o'r gloch** — *o'clock*

Geiriau pwysig i fi

........................................ ........................................
× ×
........................................ ........................................
× ×
........................................ ........................................

**Cymraeg Dosbarth –**
Beth yw "rhad" yn Saesneg? *"Cheap."*
Beth yw "expensive" yn Gymraeg? *"Drud."*


**Siôn dw i.** — *I am Siôn.*
**Siôn yw e.** — *He is Siôn.*
**Tiwtor yw e.** — *He is a tutor.*

**Pwy yw e?** — *Who is he?*
**Beth yw e?** — *What is he?*
**Siôn yw e?** — *Is he Siôn?*

**Siân dw i.** — *I am Siân.*
**Siân yw hi.** — *She is Siân.*
**Tiwtor yw hi.** — *She is a tutor.*


**Pwy yw hi?** — *Who is she?*
**Beth yw hi?** — *What is she?*
**Siân yw hi?** — *Is she Siân?*

**Ie.** ✔ **Nage.** ✗



**Ydy hi'n canu?** — *Is she singing?/Does she sing?*
**Ydy hi'n actio?** — *Is she acting?/Does she act?*
**Ydy e'n chwarae golff?** — *Is he playing golf?/Does he play golf?*
**Ydy e'n gweithio?** — *Is he working?/Does he work?*

**Ydy.** ✔ **Nac ydy.** ✗



**Ydyn nhw'n gwybod?** — *Do they know?*
**Ydyn nhw'n gadael?** — *Are they leaving?*
**Ydyn nhw'n brysur?** — *Are they busy?*
**Ydyn nhw'n ddiflas?** — *Are they miserable?*

**Ydyn.** ✔ **Nac ydyn.** ✗

## Ydyn nhw'n...?

Ysgrifennwch enwau wyth cwpl enwog ar yr ochr chwith a dyfalwch ba gwpl mae eich partner wedi ysgrifennu ar gyfer pob gweithgaredd. Rhaid i chi ddewis yr un cyplau. *Write the names of eight famous couples on the left hand side and then decide which couple your partner has written for each activity. You must choose the same couples.*

| | |
|---|---|
| | **darllen y *Times?*** |
| | **gyrru Porsche?** |
| | **prynu tŷ newydd?** |
| | **lico coffi du?** |
| | **mynd i sioe ffasiwn?** |
| | **dysgu Cymraeg?** |
| | **mynd i Disneyland?** |
| | **mynd i glwb nos?** |

**Dyw'r gwin ddim yn dda.** — *The wine isn't good.*
**Dyw'r bwyd ddim yn dda.** — *The food isn't good.*
**Dyw'r staff ddim yn dda.** — *The staff aren't good.*
**Dyw'r prisiau ddim yn dda.** — *The prices aren't good.*







**Dyw e ddim yn hapus.** — *He is not happy.*
**Dyw hi ddim yn hapus.** — *She is not happy.*
**'Dyn nhw ddim yn hapus.** — *They are not happy.*
**'Dyn nhw ddim yn grac.** — *They are not angry.*





**Ysgrifennwch un o'r brawddegau o dan bob llun./**
*Write one of the sentences under every picture.*














**1.** Dyw hi ddim eisiau codi.

**2**. Dyw hi ddim eisiau clywed.

**3**. 'Dyn nhw ddim eisiau bod yn y car.

**4**. Dyw hi ddim eisiau bod yn y swyddfa.

**5**. Dyw e ddim eisiau bod yn hwyr.

**6**. 'Dyn nhw ddim eisiau bod yn y cyfarfod.

## Arian

| | |
|---|---|
| **Faint yw e?** | *How much is it?* |
| **Faint ydyn nhw?** | *How much are they?* |
| **Un bunt.** | *One pound.* |
| **Dwy bunt.** | *Two pounds.* |
| **Tair punt.** | *Three pounds.* |
| **Pedair punt.** | *Four pounds.* |

## Ynganu

**Deuseiniaid eto – 2 lafariad** *(Dipthongs – 2 vowels together)*

| | |
|---|---|
| **oi**<br>**oe** | troi, rhoi, cloi<br>oer, ddoe, oed, poeth |
| **ow** | Owen, Lowri, brown, clown |
| **iw** | lliw, rhiw, siwt |
| **yw** | byw, llyw |

## Sgwrs 1

**Ceri:** Wyt ti'n dod i'r theatr heno?
**Eryl:** Dw i ddim yn siŵr. Dw i wedi blino.
**Ceri:** Ond mae pawb o'r dosbarth yn mynd.
**Eryl:** Dw i ddim yn hoffi pantomeim a dweud y gwir.
**Ceri:** Mae e'n grêt!
**Eryl:** Nac ydy, dyw e ddim! Mae e'n dwp.
**Ceri:** Dyw e ddim yn dwp!
**Eryl:** O ydy, mae e...!
**Ceri:** Dyw e ddim!
**Eryl:** Ac mae e'n ddrud iawn.
**Ceri:** Dyw e ddim! Mae e'n rhad!
**Eryl:** Wel, a dweud y gwir, dw i eisiau aros gartre i wneud y gwaith cartre Cymraeg.
**Ceri:** Ond mae'r pantomeim yn Gymraeg!
**Eryl:** O'r gorau 'te.

## Sgwrs 2

**A:** Wyt ti'n mynd i'r cyfarfod y prynhawn 'ma?
**B:** Nac ydw, dw i'n brysur. Ond mae Siôn yn gallu mynd.
**A:** Iawn, dim problem. Wyt ti'n gallu mynd i'r cyfarfod mawr dydd Mercher?
**B:** Pryd mae e?
**A:** Deg o'r gloch.
**B:** Nac ydw, dw i'n brysur iawn bore dydd Mercher. Ond mae Siôn yn gallu mynd, dw i'n siŵr.
**A:** Mae Siôn yn gallu mynd i'r cyfarfod busnes gyda'r cleient newydd yn Barcelona dydd Gwener hefyd, 'te.
**B:** O nac ydy, mae Siôn yn ofnadwy o brysur dydd Gwener, ond dw i'n gallu mynd i Barcelona, dim problem.

## Yr Amser – Faint o'r gloch yw hi?

| | |
|---|---|
| **Un** | **Dau** |
| **Tri** | **Pedwar** |
| **Pump** | **Chwech** |
| **Saith** | **Wyth** |
| **Naw** | **Deg** |
| **Un ar ddeg** | **Deuddeg** |

## . . . o'r gloch.





**Hanner dydd** – *Midday*




**Hanner nos** – *Midnight*

# Robin Radio

**a) Atebwch:**
Beth maen nhw'n wneud dydd Sadwrn?:



plant Mari .................................... Mari ................................

Robin ................................



**b) Gwrandewch am:**

Mae mab gyda fi. —— *I have a son.*

dim o gwbl —— *not at all*

Pen-blwydd hapus! —— *Happy birthday!*

**c) Cyfieithwch:**

*I'm not going swimming.* ..............................................................................................

*The children are learning to swim.* ...........................................................................

..........................................................................................................................................

*Can you play tennis well?* ...........................................................................................

## Help llaw

**1**. *We have now learnt the verb* **bod** *in the present tense:*

| **Cadarnhaol/ *Affirmative*** | **Cwestiwn/ *Question*** | **Negyddol/ *Negative*** |
|---|---|---|
| Dw i | Dw i? | Dw i ddim |
| Rwyt ti | Wyt ti? | Dwyt ti ddim |
| Mae e/hi | Ydy e/hi? | Dyw e/hi ddim |
| 'Dyn ni | 'Dyn ni? | 'Dyn ni ddim |
| Dych chi | Dych chi? | Dych chi ddim |
| Maen nhw | Ydyn nhw? | 'Dyn nhw ddim |

**2.** *Also, take a look at the answers but concentrate on the ones in the bold font:*

| | |
|---|---|
| Dw i'n mynd? | Wyt/Ydych. |
| **Wyt ti'n mynd?** | **Ydw.** |
| **Ydy e/hi'n mynd?** | **Ydy.** |
| 'Dyn ni'n mynd? | Ydyn/Ydych. |
| **Dych chi'n mynd?** | **Ydw/Ydyn.** |
| **Ydyn nhw'n mynd?** | **Ydyn.** |

**3**. *When we introduce ourselves or say who someone else is in Welsh, we need to use emphasis and place the name at the beginning of the sentence. When this happens in a question, the answer is* **Ie** *or* **Nage**.

| | | |
|---|---|---|
| Siôn dw i. | Siôn wyt ti? | Ie / Nage. |
| Siôn yw e. | Siôn yw e? | Ie / Nage. |
| Siân yw hi. | Siân yw hi? | Ie / Nage. |

*You will frequently hear people say just* **Na**, *rather than* **Nage**.

**4**. *Notice the difference in the way we form a question:*

| | |
|---|---|
| Ble **mae** e/hi? | Pwy **yw** e/hi? |
| Pryd **mae** e/hi? | Beth **yw** e/hi? |
| Sut **mae** e/hi? | Faint **yw** e/hi? |

**5.** *Note that* **dau** *and* **tri** *and* **pedwar** *have feminine versions to be used before feminine nouns.*

| | |
|---|---|
| dau fab | dwy bunt |
| tri mab | tair punt |
| pedwar mab | pedair punt |

# Uned 8 (wyth) – Adolygu ac Ymestyn

*(Revision and Extension)*

**Nod: Adolygu ac ymarfer ymadroddion ffôn/***Revision and useful phrases for speaking on the telephone*

## Geirfa

**actores(au)** — *actor(s)*
**athrawes(au)** — *teacher(s)*
**drama (dramâu)** - *drama, play(s)*
**ffatri (ffatrïoedd)** - *factory (factories)*
**fflat(iau)** — *flat(s)*
**gorsaf(oedd)** — *station(s)*
**munud(au)** — *minute(s)*
**nyrs(ys)** — *nurse(s)*
**pobl** — *people*
**rheolwraig** — *manager*

**actor(ion)** — *actor(s)*
**athro (athrawon)** *teacher(s)*
**bachgen (bechgyn)** — *boy(s)*
**camera (camerâu)** *camera(s)*
**cogydd(ion)** — *chef(s), cook(s)*
**cyngerdd (cyngherddau)** — *concert(s)*
**derbynnydd** — *receptionist*
**gwesty (gwestai)** - *hotel(s)*
**maes parcio** — *car park*
**meddyg(on)** — *doctor(s)*
**pennaeth** — *head (person)*
**plismon (plismyn)** — *policeman (policemen)*
**rheolwr (rheolwyr)** — *manager(s)*
**rhywun** — *someone*
**tocyn(nau)** — *ticket(s)*

**adolygu** — *to revise, to review*
**benthyg** — *to borrow, to lend*
**cadw** — *to keep, to reserve*
**ffonio** — *to phone*
**gofyn** — *to ask*
**siarad (â)** — *to talk, to speak*
**talu** — *to pay*

**allan/mas** — *out*
**ar gael** — *available*
**mewn** — *in a*
**yr un** — *each*

**Cymraeg Dosbarth**
– Gaf i ofyn cwestiwn?
Un funud.


Geiriau pwysig i fi

...............................................................
× ...............................................................
...............................................................
× ...............................................................

# Gêm o gardiau

| | ♠ | ♦ | ♣ | ♥ |
|---|---|---|---|---|
| **A** | O ble rwyt ti'n dod? | Wyt ti'n gyrru car? | Ble rwyt ti'n gweithio? | Beth dych chi'n gorfod wneud heddiw? |
| **2** | Ble rwyt ti'n lico prynu bwyd? | Beth wyt ti'n gadw yn y car? | Beth wyt ti'n fwyta i frecwast? | Beth wyt ti'n hoffi chwarae? |
| **3** | Beth dych chi'n wneud y penwythnos nesa? | Wyt ti'n gweithio? | Wyt ti'n darllen papur newydd? | Dych chi'n bwyta cacennau? |
| **4** | Beth dych chi'n lico ar y teledu? | Ble dych chi'n mynd dydd Sadwrn? | Beth wnaethoch chi neithiwr? | Ble rwyt ti'n hoffi mynd ar wyliau? |
| **5** | Dych chi'n brysur yfory? | Beth wnaethoch chi ddoe? | Beth wyt ti'n hoffi yfed amser brecwast? | Ble rwyt ti'n byw? |
| **6** | Ble mae'r plant? | Beth wnaethoch chi dydd Sadwrn? | Sut mae'r tywydd? | Beth wyt ti'n lico ddarllen? |
| **7** | Beth wyt ti eisiau wneud dydd Sul? | Pwy dych chi? | Wyt ti'n lico chwarae bingo? | Ydy hi'n braf heddiw? |
| **8** | Wyt ti'n hoffi nofio? | Ble mae'r dosbarth? | Wyt ti'n gallu nofio'n dda? | Wyt ti wedi blino? |
| **9** | Pryd mae'r dosbarth? | Wnaethoch chi waith cartref ddoe? | Beth wyt ti'n lico fwyta? | Ydy hi'n bwrw glaw? |
| **10** | Beth wyt ti'n wneud yfory? | Ble dych chi'n hoffi mynd i weld cyngerdd? | Beth dwyt ti ddim yn lico yfed? | Beth wnaethoch chi nos Wener? |
| **Jac** | Dych chi'n hoffi mynd i gaffis? | Wyt ti'n hoffi rygbi? | Ble rwyt ti'n mynd yfory? | Wyt ti'n gallu canu'n dda? |
| **Brenhines** | Ble rwyt ti'n dysgu Cymraeg? | Ble dych chi'n mynd i'r sinema? | Sut wyt ti? | Dych chi'n hoffi mynd am dro? |
| **Brenin** | Ydy hi'n bwrw eira? | Wyt ti'n lico coffi? | Beth dych chi'n gorfod wneud yfory? | Beth wyt ti eisiau amser paned? |

## 1. Ffonio'r banc



**A:** Bore da, banc Llanaber.
**B:** Gaf i siarad â Mr Jones os gwelwch chi'n dda?
**A:** Cewch wrth gwrs. .... Dyma Mr Jones i chi nawr.


**A:** Bore da, Banc Abercastell.
**B:** Gaf i siarad â Ms Morgan, os gwelwch chi'n dda?
**A:** Un funud. Mae'n ddrwg gyda fi, dyw hi ddim yma heddiw.
**B:** Dim problem.
**A:** Dych chi eisiau ffonio'n ôl yfory?
**B:** Wrth gwrs, diolch yn fawr.

**Gaf i helpu?** —— *May I help?*
**Gaf i dalu?** —— *May I pay?*
**Gaf i ofyn?** —— *May I ask?*
**Gaf i adael?** —— *May I leave?*

**Cewch.** *Yes, you may.* ✔
**Cei.** *Yes, you may.*


**Na chewch.** *No, you may not.* ✗
**Na chei.** *No, you may not.*

**Gaf i hufen iâ?** —— *Can I have ice cream?*
**Gaf i laeth?** —— *Can I have milk?*
**Gaf i ddŵr?** —— *Can I have water?*
**Gaf i dost?** —— *Can I have toast?*



## 2. Ffonio'r ysgol



**A:** Prynhawn da, Ysgol y Bryn.
**B:** Gaf i siarad â'r pennaeth, os gwelwch chi'n dda?
**A:** Mae'n ddrwg gyda fi, dyw e ddim ar gael. Mae e mewn cyfarfod yng Nghaerdydd y bore 'ma.
**B:** Ydy e'n gallu ffonio'n ôl?
**A:** Ydy, wrth gwrs. Mae e'n ôl yn yr ysgol yfory.
**B:** Ydy e'n gallu ffonio yn y bore? Dw i'n mynd mas yn y prynhawn.
**A:** Beth yw'ch enw chi?
**B:** Pat Jones.
**A:** Beth yw'r rhif ffôn?
**B:** 07841 632591.
**A:** 07841 632591. Iawn?
**B:** Iawn.
**A:** Dim problem. Hwyl.
**B:** Diolch. Hwyl!


**Dw i'n gweithio yn y coleg.** — *I work in the college.*
**Dw i'n gweithio yn y banc.** — *I work in the bank.*
**Dw i'n gweithio yn yr ysbyty.** — *I work in the hospital.*
**Dw i'n gweithio yn yr ysgol.** — *I work in the school.*

**Dw i'n gweithio mewn siop.** — *I work in a shop.*
**Dw i'n gweithio mewn caffi.** — *I work in a cafe.*
**Dw i'n gweithio mewn swyddfa.** — *I work in an office.*
**Dw i'n gweithio mewn ffatri.** — *I work in a factory.*


**Ble dych chi'n gweithio?**



**derbynnydd**



**plismon**




**athrawes**



**nyrs**



**cogydd**



**mecanic**

**Dilynwch y patrwm:**


Nyrs dw i, dw i'n gweithio mewn ..........

**Gyda phartner:** Ysgrifennwch **mewn** neu **yn** yn y bylchau.

Bob dw i. Dw i'n byw .......... fflat a dw i'n gweithio .......... swyddfa brysur .......... yr ysbyty .......... Llanaber. Dw i'n mynd i'r gwaith .......... y car bob dydd a dw i'n gallu parcio .......... maes parcio bach i'r staff. Dw i'n lico'r gwaith yn fawr iawn.

**Nawr, ysgrifennwch y paragraff am Bob, e.e. Bob yw e.**






### 3. Ffonio'r theatr

**Derbynnydd:** Noswaith dda. Theatr yr Aber.
**Sam:** Gaf i docynnau i'r ddrama nos yfory? (cyngerdd)
**Derbynnydd:** Cewch, wrth gwrs.
**Sam:** Faint ydyn nhw?
**Derbynnydd:** Deg punt yr un. (£5)
**Sam:** Gaf i bedwar tocyn os gwelwch chi'n dda? (7)
**Derbynnydd:** Cewch, wrth gwrs.
**Sam:** Gaf i dalu nos yfory? Dw i eisiau rhaglen hefyd.
**Derbynnydd:** Dw i'n gallu cadw tocynnau a rhaglen i chi. Mae'r ddrama yn dechrau am saith o'r gloch. (8) Beth yw'ch enw chi?
**Sam:** Sam Jones.

## Robin Radio –

Mae Robin, Llinos ac Anti Mair yn siarad yn y swyddfa



**a) Atebwch:**

Faint o'r gloch yw hi? ................................................................................

Ble mae'r parti? ................................................................................

Faint o'r gloch mae Robin yn gweithio yfory? ..........................................



**b) Gwrandewch am:** ................................................................................

Dw i yma ers wyth o'r gloch. —— *I've been here since eight o'clock.*
Dw i'n mynd i alw mewn. —— *I'm going to call in.*
Dw i'n mynd i gael tacsi. —— *I'm going to get a taxi.*

**c) Cyfieithwch:**

*Can I have a black coffee?* ................................................................................

*I don't drink coffee.* ................................................................................

*Can I have a lift?* ................................................................................

**Adolygu Atebion –** *Yes and No Revision*

| | | |
|---|---|---|
| Wyt **ti**'n dysgu Cymraeg? | Yd**w**/Nac yd**w**. | Uned 2 |
| Dych **chi**'n dysgu yn y Barri? | Yd**yn**/Nac yd**yn**. | Uned 2 |
| **Ydy**'r bws yn mynd i Wrecsam? | Yd**y**/Nac yd**y**. | Uned 7 |
| Ydy'r plant yn yr ysgol? (Yd**yn** nhw?) | Yd**yn**/Nac yd**yn**. | Uned 7 |
| Wnaethoch chi swper? | **Do/Naddo.** | Uned 5 |
| **Actor wyt** ti? *(noun/adj 1st)* | **Ie/Nage.** | Uned 7 |
| **Y Beatles** ydyn nhw? | **Ie/Nage.** | Uned 7 |
| **Gaf i** ofyn cwestiwn? | **Cei/Na chei.** | Uned 8 |
| **Gaf i** fenthyg y camera? | **Cewch/Na chewch.** | Uned 8 |

## Help llaw

1. **Gaf i** *...? May I ...? is useful to ask for things and for permission. It comes from the verb* **cael** *– to have. You can use it before verbs and nouns:*

   **Gaf i helpu?** *– May I help?* **Gaf i docynnau?** *– May I have tickets?*

   *The final* **f** *is often omitted in spoken Welsh and you will hear* **Ga i**.
   *The answers are:*

   | | | | |
   |---|---|---|---|
   | **Ti:** Cei | *Yes, you may* | **Chi:** Cewch | *Yes, you may* |
   | Na chei | *No, you may not* | Na chewch | *No, you may not* |

2. **Mewn** *and* **yn** *can both mean 'in' but are used in different ways.*
   **Mewn** *– in a (before an indefinite noun)*
   **Yn** *– in (before the definite article + with proper nouns such as place names)*


3. Yn y sgwrs **'Ffonio'r ysgol'**, *you come across* **yng Nghaerdydd**. *This is an example of the nasal mutation which happens following* **yn** *meaning 'in'. It will be fully introduced in* Uned 14 *but try to recognise the mutations. Look at the following examples:*

   Caerdydd – **yng Ngh**aerdydd Cymru – **yng Ngh**ymru
   Caernarfon – **yng Ngh**aernarfon Caerffili – **yng Ngh**aerffili

4. **Beth wyt ti'n fwyta? Beth wyt ti'n ddarllen?**
   Dych chi'n cofio 'Beth dych chi'n wneud?' *The verb mutates after* Beth dych chi'n.../wyt ti'n...?

Dych chi nawr yn gallu darllen *Am Ddiwrnod*.  Dych chi'n gallu prynu'r llyfr yn eich siop Gymraeg leol chi neu ar www.gwales.com.

Dyma'r clawr *(cover)* ac un paragraff:




Dw i yng Nghaerdydd!  Hwyl fawr, Abertawe a hwyl fawr, Caffi Jac, am wythnos!  Dw i'n hapus iawn, iawn.  Dw i eisiau **chwerthin** a dw eisiau **gweiddi** a dawnsio.

**chwerthin** – *to laugh* **gweiddi** – *to shout*

## Syniad da!




**Syniad da! Gwylio S4C**

*Watching Welsh programmes will help develop your vocabulary and listening skills, and you can switch on subtitles in Welsh or English. S4C have a special YouTube channel for learners, including clips for Mynediad level learners:* **https://www.youtube.com/channel/UCSnqXodFrOCxTH2VRAeXIVQ/featured**.

*Also, S4C's* Clic *catch-up TV service has a section for Welsh learners, featuring series about learning Welsh such as* Cariad@iaith *as well as popular programmes such as* Heno *which use simpler forms of Welsh.* Beth am wylio S4C heddiw? **https://www.s4c.cymru/clic/Categories/26**

# Uned 9 (naw) – Prynon ni fara

**Nod: Dweud beth wnaethoch chi a phobl eraill yn y gorffennol/**
*Saying what you and others did in the past*
(gwnaeth e/hi, gwnaethon ni/nhw, prynaist ti, prynodd e/hi, prynon ni, prynoch chi, prynon nhw)

## Geirfa

| | |
|---|---|
| **garej(is)** | *garage(s)* |
| **cegin(au)** | *kitchen(s)* |
| **cerddoriaeth** | *music* |
| **Lerpwl** | *Liverpool* |
| **Saesneg** | *English* |

| | |
|---|---|
| **bwrdd (byrddau)** | *table(s); board(s)* |
| **cwrw** | *beer* |
| **drws (drysau)** | *door(s)* |
| **ebost (ebyst)** | *email(s)* |
| **gair (geiriau)** | *word(s)* |
| **help** | *help* |
| **llawer** | *a lot* |
| **tipyn** | *a little* |

| | |
|---|---|
| **agor** | *to open* |
| **ateb** | *to answer* |
| **bowlio** | *to bowl* |
| **cadw'n heini** | *to keep fit* |
| **cyrraedd** | *to arrive* |
| **gwrando ar** | *to listen to* |
| **llenwi** | *to fill* |
| **mwynhau (joio)** | *to enjoy* |
| **mynd â** | *to take* |
| **peintio** | *to paint* |
| **seiclo** | *to cycle* |

| | |
|---|---|
| **ar-lein** | *online* |
| **echdoe** | *the day before yesterday* |
| **eitha da** | *quite good* |
| **felly** | *therefore, so* |
| **trueni!** | *what a pity!* |
| **yna** | *there; then* |

**Cymraeg Dosbarth** –
Esgusodwch fi.
Dewch yn ôl.

Geiriau pwysig i fi

.............................................................. ..............................................................
× ×
.............................................................. ..............................................................
× ×
.............................................................. ..............................................................

## Dych chi'n cofio?

**Beth wnest ti ddoe?** — Gwnes i swper.
**Beth wnaethoch chi ddoe?** — Gwnes i goffi.

**Gwnaeth e goffi.** — *He made coffee.*
**Gwnaeth e de.** — *He made tea.*
**Gwnaeth hi fwyd.** — *She made food.*
**Gwnaeth hi ginio.** — *She made dinner.*

**Beth wnaeth e?** — *What did he do?*
**Beth wnaeth hi?** — *What did she do?*
**Beth wnaeth y plant?** — *What did the children do?*
**Beth wnaethon nhw?** — *What did they do?*

**Gwnaethon ni'r gwaith cartre.** — *We did the homework.*
**Gwnaethon ni'r bwyd.** — *We did the food.*
**Gwnaethon nhw'r gwaith cartre.** — *They did the homework.*
**Gwnaethon nhw'r bwyd.** — *They did the food.*

**Beth wnaeth pawb echdoe?**

| | |
|---|---|
| **8.15am** | gwneud y gwely |
| **8.30am** | gwneud y brecwast |
| **9.00am** | gwneud y glanhau |
| **11.00am** | gwneud y coffi |
| **11.15am** | gwneud y siopa |
| **12.30pm** | gwneud y cinio |
| **1.30pm** | gwneud y gwaith cartre |
| **2.00pm** | gwneud y gwaith papur |
| **3.30pm** | gwneud y te |
| **4.00pm** | gwneud y smwddio |
| **7.00pm** | gwneud y swper |
| **8.00pm** | gwneud y llestri |

# Dych chi'n cofio?

**Bwytais i <u>bysgod</u> ddoe.**
**Gwyliais i <u>Pobol y Cwm</u> ddoe.**
**Chwaraeais i <u>rygbi</u> ddoe.**

**Gwelais i ffrind ddoe.** — *I saw a friend yesterday.*
**Yfais i goffi ddoe.** — *I drank coffee yesterday.*
**Cerddais i i'r dre ddoe.** — *I walked to town yesterday.*
**Rhedais i i'r dre ddoe.** — *I ran to town yesterday.*

# Beth wnest ti bore ddoe?


**Codais i.** — *I got up.*
**Gwisgais i.** — *I dressed.*
**Bwytais i frecwast.** — *I ate breakfast.*
**Golchais i'r llestri.** — *I washed the dishes.*
**Gadawais i'r tŷ.** — *I left the house.*
**Gwrandawais i ar Radio Cymru yn y car.** — *I listened to Radio Cymru in the car.*

# Beth wnest ti?

| Enw | neithiwr | bore ddoe | dydd Sadwrn | nos Wener |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

**Ddarllenaist ti lyfr ddoe?** ——— *Did you read a book yesterday?*
**Brynaist ti lyfr ddoe?** ——— *Did you buy a book yesterday?*
**Brynaist ti fara ddoe?** ——— *Did you buy bread yesterday?*
**Fwytaist ti fara ddoe?** ——— *Did you eat bread yesterday?*

**Do.** ✔ **Naddo.** ✗



| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dechrau** | Fwytaist ti frecwast heddiw? | Weithiaist ti yn yr ardd ddoe? | Goginiaist ti ddoe? |
| Yfaist ti de ddoe? | Brynaist ti rywbeth ddoe? | Ffoniaist ti rywun ddoe? | Olchaist ti'r car yr wythnos diwetha? |
| Smwddiaist ti yr wythnos diwetha? | Wrandawaist ti ar y radio y bore 'ma? | Welaist ti ffrind ddoe? | Yrraist ti i'r dosbarth heddiw? |
| Wyliaist ti ffilm dydd Sadwrn? | Chwaraeaist ti gêm yr wythnos diwetha? | Wrandawaist ti ar gerddoriaeth ddoe? | Beintiaist ti'r tŷ yr wythnos diwetha? |
| Gerddaist ti i'r dosbarth heddiw? | Gyrhaeddaist ti'r dosbarth yn hwyr heddiw? | Arhosaist ti yn y tŷ neithiwr? | Ddysgaist ti'r eirfa yr wythnos diwetha? |
| Orffennaist ti'r gwaith cartre yr wythnos diwetha? | Dalaist ti fil yr wythnos diwetha? | Brynaist ti rywbeth ar-lein yr wythnos diwetha? | **Yn ôl i'r dechrau** |

## Llongau rhyfel

| | | | |
|---|---|---|---|
| bwyta swper | darllen papur newydd | garddio | edrych ar S4C |
| coginio cyrri | ymlacio | smwddio | yfed coffi |
| prynu car newydd | gyrru i'r gwaith | cerdded i'r gwaith | gweld ffilm |
| siarad Cymraeg | bwyta brecwast | ffonio ffrind | anfon ebost |
| darllen nofel | edrych ar y teledu | golchi dillad | yfed dŵr |

## E/Hi

**Yfodd Sam goffi yn y caffi.** — *Sam drank coffee in the café.*
**Yfodd e goffi yn y caffi.** — *He drank coffee in the café.*
**Yfodd hi goffi yn y caffi.** — *She drank coffee in the café.*
**Yfodd y plant goffi yn y caffi.** — *The children drank coffee in the café.*

## Beth wnaeth Mari neithiwr?

**Gyrrodd hi i'r garej.** — *She drove to the garage.*
**Llenwodd hi'r tanc petrol.** — *She filled the petrol tank.*
**Talodd hi'r bil.** — *She paid the bill.*
**Gyrrodd hi adre.** — *She drove home.*

## Ni/Nhw

**Edrychon ni ar y teledu neithiwr.** — *We watched television last night.*
**Gwrandawon ni ar y radio neithiwr.** — *We listened to the radio last night.*
**Arhoson ni yn y tŷ neithiwr.** — *We stayed in the house last night.*
**Darllenon ni lyfr neithiwr.** — *We read a book last night.*

**Edrychon nhw ar y teledu neithiwr.** — *They watched television last night.*
**Gwrandawon nhw ar y radio neithiwr.** — *They listened to the radio last night.*
**Arhoson nhw yn y tŷ neithiwr.** — *They stayed in the house last night.*
**Darllenon nhw lyfr neithiwr.** — *They read a book last night.*

## Cysylltwch y cwestiwn â'r ateb:


| | |
|---|---|
| Beth wnaeth y staff? | Prynon nhw betrol i'r car. |
| Beth wnaeth y teulu? | Bwyton nhw deisen pen-blwydd. |
| Beth wnaeth y ffrindiau? | Siaradon nhw yn y swyddfa. |
| Beth wnaeth y bobl drws nesa? | Gwrandawon nhw ar gerddoriaeth. |
| Beth wnaeth yr heddlu? | Chwaraeon nhw yn y parc. |
| Beth wnaeth John a Jane? | Peintion nhw'r tŷ. |

**Edrychoch chi ar y teledu neithiwr?** — *Did you watch television last night?*
**Wrandawoch chi ar y radio neithiwr?** – *Did you listen to the radio last night?*
**Arhosoch chi yn y tŷ neithiwr?** — *Did you stay in the house last night?*
**Ddarllenoch chi lyfr neithiwr?** — *Did you read a book last night?*

**Do.** ✔ **Naddo.** ✗

**Arhosais i ddim yn y tŷ neithiwr.** — *I didn't stay in the house last night.*
**Edrychais i ddim ar y teledu neithiwr.** – *I didn't watch television last night.*
**Wrandawais i ddim ar y radio neithiwr.** – *I didn't listen to the radio last night.*
**Ddarllenais i ddim llyfr neithiwr.** — *I didn't read a book last night.*

## Gêm dis



| | ✔ | ✗ |
|---|---|---|
| **1 – i** | golchi'r car | garddio |
| **2 – ti** | darllen y papur | smwddio |
| **3 – hi** | prynu blodau | gyrru i'r gwaith |
| **4 – ni** | smwddio | ffonio ffrind |
| **5 – chi** | cerdded i'r gwaith | golchi dillad |
| **6 – nhw** | chwarae pêl-droed | chwarae rygbi |

# Ynganu – wy

**Dwedwch:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| wy | dwy | llwy | mwy |
| wyth | hwyr | cwyn | nwy |

Beth yw *food / egg / grey / who / late / birthday* yn Gymraeg?

..................................................................................................................................

Beth yw *windy / green / white / weather* yn Gymraeg?

..................................................................................................................................

## Sgwrs 1

**Mam:** Rwyt ti'n edrych yn ofnadwy y bore 'ma. Beth wnest ti neithiwr?
**Sam:** Es i mas gyda ffrindiau.
**Mam:** I ble?
**Sam:** I glwb newydd yn y dre. Gadawon ni'r clwb am bedwar o'r gloch!
**Mam:** Dyna pam rwyt ti'n edrych yn ofnadwy 'te!
**Sam:** Ac yna prynon ni gyrri.
**Mam:** Ond dwyt ti ddim yn lico cyrri!
**Sam:** Dw i'n gwybod. Cyrhaeddais i adre am bump o'r gloch. Byth eto!

## Sgwrs 2

Gwrandewch ar y sgwrs a llenwch y tabl.


Beth wnaeth Gwyn?

| | |
|---|---|
| **dydd Llun** | |
| **nos Fawrth** | |
| **dydd Mercher** | |
| **y bore 'ma** | |

**A:** Helo Gwyn, sut mae'r cwrs Cymraeg yn mynd?
**B:** Grêt, diolch. 'Dyn ni'n gwneud Uned 9 yr wythnos yma.
**A:** Wyt ti'n siarad Cymraeg mas o'r dosbarth?
**B:** Dw i'n trio gwneud tipyn bach yn Gymraeg bob dydd, a dw i'n adolygu ar-lein.
**A:** Sut mae'n mynd?
**B:** Mmm... yn eitha da. Siaradais i Gymraeg ar y bws dydd Llun, ond siaradodd y gyrrwr â fi yn Saesneg.
**A:** Ond ddeallodd e'r cwestiwn?
**B:** Do.
**A:** Dechrau da!
**B:** Nos Fawrth, siaradais i Gymraeg yn y dafarn. Atebodd y barman yn Gymraeg – hwrê – ond gwnes i gael peint o ddŵr, dim cwrw.
**A:** Trueni, ond mae dŵr yn dda i ti.
**B:** Dydd Mercher, gwrandawais i ar Radio Cymru.
**A:** Da iawn. Mae gwrando ar y radio'n help mawr.
**B:** Y bore 'ma, siaradais i Gymraeg â'r ci. Deallodd e bob gair.

## Robin Radio

**a) Atebwch:**
Sut aeth Alwyn o Lanelli i Gydweli?



..........................................................................................................

Sut aeth e o Gydweli i Lanelli? ..................................................



Wnaeth e gael tywydd braf? ..................................................

**b) Gwrandewch am:**
Diolch byth! —— *Thank goodness!*
Mae'n gas gyda fi... —— *I hate...*
Hwyl ar y cerdded. —— *Good luck with the walking.*

**c) Cyfieithwch:**
*What did you do?* ..........................................................................................

*We parked in Llanelli.* ..........................................................................................

*He is a doctor.* ..........................................................................................

# Help llaw

**1**. **Gwneud** *(to do or to make) is widely used. Learn it thoroughly:*

| **Cadarnhaol/ *Affirmative*** | **Cwestiwn/ *Question*** | **Negyddol/ *Negative*** |
|---|---|---|
| Gwnes i | Wnes i? | Wnes i ddim |
| Gwnest ti | Wnest ti? | Wnest ti ddim |
| Gwnaeth e/hi | Wnaeth e/hi? | Wnaeth e/hi ddim |
| Gwnaethon ni | Wnaethon ni? | Wnaethon ni ddim |
| Gwnaethoch chi | Wnaethoch chi? | Wnaethoch chi ddim |
| Gwnaethon nhw | Wnaethon nhw? | Wnaethon nhw ddim |

**2. Gwneud** *is an irregular verb. With the majority of verbs, you have to find the* bôn *(stem) and add an ending.*

*When a verb ends in a single vowel, you will lose that vowel to find the* bôn*:*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Prynu | Prynais i | Golchi | Golchais i |
| Canu | Canais i | Bwyta | Bwytais i |

*When a verb ends in* **io***, we once again lose the final vowel:*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gweithio | Gweithiais i | Smwddio | Smwddiais i |
| Nofio | Nofiais i | Gwylio | Gwyliais i |

*We always lose a final* **ed** *or* **eg** *('eds will roll and 'egs will smash!!)*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cerdded | Cerddais i | Yfed | Yfais i |
| Clywed | Clywais i | Rhedeg | Rhedais i |

*With some verbs, we add the* bôn *to the end of the verb, without changing it at all (many of these end in a consonant):*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Darllen | Darllenais i | Edrych | Edrychais i |
| Deall | Deallais i | Chwarae | Chwaraeais i |

*There are also some irregular forms. Learn the following for now:*

| | |
|---|---|
| Gadael | Gadawais i |
| Gwrando | Gwrandawais i |
| Aros | Arhosais i |
| Cyrraedd | Cyrhaeddais i |

**3.** *Learn the endings:*

| | |
|---|---|
| Pryn**ais** i | Pryn**on** ni |
| Pryn**aist** ti | Pryn**och** chi |
| Pryn**odd** e/hi | Pryn**on** nhw |

**4.** *A noun following immediately after the short forms will take a* treiglad meddal:

| | |
|---|---|
| bara | Prynais i **f**ara. |

**5.** *There is a* treiglad meddal *in direct questions:*

**B**rynaist ti fara?

**6.** *Notice that there is a* treiglad meddal *in the negative forms introduced in the unit:*

| | |
|---|---|
| Darllenais i | **Dd**arllenais i ddim |

*However, this is not true for t, c, p. This will be introduced in* Uned 11*.*

**7.** Do *and* Naddo *are the answers in all instances:*

| | |
|---|---|
| Brynaist ti fara? | Do/Naddo. |
| Brynoch chi fara? | Do/Naddo. |
| Brynodd e fara? | Do/Naddo. |

**8.** *You will also come across the use of* **gwneud** *to form past tense sentences, by using the past tense of* **gwneud** *+ the verbnoun, e.g.*

Gwnes i brynu	Gwnes i ddarllen	Gwnes i helpu

# Uned 10 (deg) – Es i i'r dre

**Nod: Dweud ble aethoch chi a phobl eraill** /
*Saying where you and others went*
(es i, est ti, aeth e/hi, aethon ni, aethoch chi, aethon nhw, es i ddim)

## Geirfa

| | | | |
|---|---|---|---|
| **coeden (coed)** | *tree(s)* | **Sbaen** | *Spain* |
| **deilen (dail)** | *leaf (leaves)* | **siec(iau)** | *cheque(s)* |
| **miliwn (miliynau)** | *million(s)* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **capel(i)** | *chapel(s)* | **haf** | *summer* |
| **capten** | *captain* | **hydref** | *autumn* |
| **Dydd Calan** | *New Year's Day* | **mis(oedd)** | *month(s)* |
| **Dydd Gŵyl Dewi** | *St. David's Day* | **môr (moroedd)** | *sea(s)* |
| **gaeaf** | *winter* | **pwll (pyllau)** | *pool(s)* |
| **gwanwyn** | *spring* | **tymor (tymhorau)** | *season(s), term(s)* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **casglu** | *to collect* | **gwario** | *to spend (money)* |
| **ennill** | *to win* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **cynnar** | *early* | **syth** | *straight* |
| **mwy** | *more* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **am** | *about* | **i ffwrdd** | *away* |
| **dal** | *still* | **i mewn** | *in* |

**Cymraeg Dosbarth** –
Dych chi'n gweld y sgrîn?
Edrychwch ar y sgrîn.

Geiriau pwysig i fi

×
×
×
×

**Es i i'r gwaith ddoe.** — *I went to work yesterday.*
**Es i i'r sinema ddoe.** — *I went to the cinema yesterday.*
**Es i i'r gêm neithiwr.** — *I went to the game last night.*
**Es i i'r dosbarth neithiwr.** — *I went to class last night.*

**Ble est ti ddoe?** — *Where did you go yesterday?*
**Ble est ti neithiwr?** — *Where did you go last night?*
**Ble est ti echdoe?** — *Where did you go the day before yesterday?*

| | nos Lun | nos Fawrth | nos Fercher | nos Iau | nos Wener | nos Sadwrn | nos Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| fi | | | | | | | |
| enw | | | | | | | |
| enw | | | | | | | |



**Est ti i siopa ddoe?** — *Did you go shopping yesterday?*
**Est ti i nofio ddoe?** — *Did you go swimming yesterday?*
**Aethoch chi i nofio ddoe?** — *Did you go swimming yesterday?*
**Aethoch chi i weld ffilm ddoe?** — *Did you go to see a film yesterday?*

**Do.** ✔ **Naddo.** ✗

| Yr wythnos diwetha | ✗ neu ✔ | ✗ neu ✔ |
|---|---|---|
| y dosbarth Cymraeg | | |
| yr eglwys | | |
| y llyfrgell | | |
| yr ysbyty | | |
| yr ysgol | | |
| y banc | | |
| y parc | | |
| y clwb rygbi | | |


**Aeth Ceri i'r dre.** — *Ceri went to town.*
**Aeth Eryl i'r siop.** — *Eryl went to the shop*
**Aeth e i'r dosbarth.** — *He went to the class.*
**Aeth hi i'r gêm.** — *She went to the game.*

**Aeth Ceri i'r capel?** — *Did Ceri go to chapel?*
**Aeth Eryl i'r eglwys?** — *Did Eryl go to church?*
**Aeth e i'r mosg?** — *Did he to to the mosque?*
**Aeth hi i'r neuadd?** — *Did she go to the hall?*

**Do.** ✔ **Naddo.** ✗



**Aethon ni i siopa ddoe.** — *We went shopping yesterday.*
**Aethon ni i seiclo ddoe.** — *We went cycling yesterday.*
**Aethon ni i brynu car ddoe.** — *We went to buy a car yesterday.*
**Aethon ni i weld ffilm neithiwr.** — *We went to see a film last night.*



## Ymarfer – Ble aethoch chi?


**A:** Ble aethoch chi neithiwr?
**B:** Aethon ni i Abertawe neithiwr.
**A:** Pam aethoch chi i Abertawe?
**B:** Aethon ni i weld gêm.


**A:** Ble aethoch chi ddoe?
**B:** Aethon ni i Gaerdydd.
**A:** Pam aethoch chi i Gaerdydd?
**B:** Aethon ni i siopa.

**A:** Ble aethoch chi dydd Sadwrn?
**B:** Aethon ni i Borthcawl.
**A:** Pam aethoch chi i Borthcawl?
**B:** Aethon ni i nofio yn y môr.

**Es i ddim mas ddoe.** — *I didn't go out yesterday.*
**Aethon nhw ddim mas ddoe.** — *They didn't go out yesterday.*
**Aethon nhw ddim mas neithiwr.** — *They didn't go out last night.*
**Aethon nhw ddim mas o gwbl.** — *They didn't go out at all.*

## Y tymhorau






.................................... .................................... .................................... ....................................

Dewiswch un elfen o bob colofn i wneud brawddeg. Yna, dyfalwch beth yw brawddeg eich partner chi. *Choose one element from each column to make a sentence. Then, guess your partner's sentence.*

| Pwy? | Ble? | Sut? | Pryd? |
|---|---|---|---|
| fi | Llundain | mewn tacsi | yn y gwanwyn |
| Siân | Awstria | ar y trên | yn yr haf |
| Dafydd | Lerpwl | yn y car | yn yr hydref |
| y plant | Sbaen | mewn awyren | yn y gaeaf |
| y teulu | Awstralia | ar y bws | ddoe |
| y dosbarth | Yr Alban | ar y beic | neithiwr |

## Ynganu – o

eto
nofio
dawnsio
heno
seiclo
gweithio
gwrando
trio
smwddio
cinio
gwylio
ymlacio
lico
coginio
garddio

## Sgwrs 1


**Ceri:** Pen-blwydd hapus, Eryl!
**Eryl:** Diolch.
**Ceri:** Ble est ti dros y penwythnos, 'te?
**Eryl:** Es i i'r tŷ bwyta newydd ym Mangor nos Sadwrn.
**Ceri:** Neis iawn! Gyda phwy est ti?
**Eryl:** Es i gyda Jo a Chris.
**Ceri:** Aethoch chi i rywle wedyn?
**Eryl:** Do, aethon ni i'r sinema. Ond aethon ni ddim i mewn...
**Ceri:** Pam?
**Eryl:** Mae Chris yn mynd i weld pob ffilm newydd yn syth! Felly aethon ni adre yn gynnar.
**Ceri:** Dyna drueni!

## Sgwrs 2

**A:** Gaf i air?
**B:** Cei, wrth gwrs.
**A:** Sut aeth y cyfarfod neithiwr?
**B:** Dw i ddim yn gwybod. Es i ddim. Es i mas am dro.
**A:** Est ti ddim?
**B:** Naddo.
**A:** Aeth Ceri ddim chwaith.
**B:** Naddo? Beth am Siôn a Siân?
**A:** Na, aethon nhw ddim chwaith.
**B:** Wel, wel, ofnadwy.
**A:** Gwelais i rywbeth ar Facebook y bore 'ma. Sam yw'r capten newydd.
**B:** Sam? O na!
**A:** Beth? Dwyt ti ddim yn hapus? Ond est ti ddim i'r cyfarfod neithiwr?
**B:** Naddo.
**A:** TYFF, felly.

## Llyfrau Amdani


Dych chi nawr yn gallu darllen *Blacmêl* gan Pegi Talfryn.
Dyma'r clawr a'r paragraff cyntaf.
Dych chi'n gallu prynu'r llyfr o siop Gymraeg neu ar www.gwales.com.




**ELSA BOWEN, DITECTIF PREIFAT**

Elsa Bowen dw i.
Ditectif preifat dw i.
Dw i'n byw yng Nghaernarfon.
Dw i'n dŵad o Gaernarfon yn wreiddiol.
Dw i'n gweithio yng Nghaernarfon.
Ond dw i ddim yn hoffi Caernarfon.

# Robin Radio





**a) Atebwch:**

O ble mae Teleri Tomos yn siarad? ..................................................

..........................................................................................................

Beth wnaeth y teulu yn Llundain? ..................................................

Ble maen nhw'n mynd heno? ..................................................

**b) Gwrandewch am:**

peidiwch â gwario —— *don't spend*
paid â phoeni —— *don't worry*

**c) Cyfieithwch:**

*Five million pounds* ..................................................

*We went to London.* ..................................................

*We are not coming home.* ..................................................

## Help llaw

**1.** *Learn the past tense of* **mynd**:

| **Cadarnhaol/ *Affirmative*** | **Cwestiwn/ *Question*** | **Negyddol/ *Negative*** |
|---|---|---|
| Es | Es i? | Es i ddim |
| Est ti | Est ti? | Est ti ddim |
| Aeth e | Aeth e? | Aeth e ddim |
| Aeth hi | Aeth hi? | Aeth hi ddim |
| Aethon ni | Aethon ni? | Aethon ni ddim |
| Aethoch chi | Aethoch chi? | Aethoch chi ddim |
| Aethon nhw | Aethon nhw? | Aethon nhw ddim |

**2.** *All the concise past answers are* **DO** *(yes) and* **NADDO** *(no):*

Est ti i'r cyfarfod? Do. Aethoch chi i'r cyfarfod? Naddo.
Aeth Dewi i'r cyfarfod? Do. Aethon nhw i'r cyfarfod? Naddo.

**3. Ym Mangor**. *This is another example of the nasal mutation after* **yn**. *You have already seen* **yng Nghaerdydd**.

| | |
|---|---|
| y**m M**angor | y**m M**eddgelert |
| y**m M**rechfa | y**m M**edwas |

**4.** Bôn *(stem)* newydd:

Ennill > Enill Enillais i

*If the emphasis falls on the letter* **n** *(in the last but one syllable), it is possible to have* **nn**. *If the* **n** *is anywhere else in the word, there will be a single* **n**. *Look at some other examples:*

| | |
|---|---|
| tocyn | tocy**nn**au |
| cacen | cace**nn**au |
| teisen | teise**nn**au |

# Uned 11 (un ar ddeg) – Ces i dost i frecwast

**Nod: Dweud beth gawsoch chi a phobl eraill/**
*Saying what you and others had or received*
(ces i, cest ti, cafodd Sam, cawson ni, cawsoch chi, cawson nhw)
(ges i, gest ti, gaeth Sam, gaethon ni, gaethoch chi, gaethon nhw)

## Geirfa

**banana(s)** — *banana(s)*
**bargen (bargeinion)** — *bargain(s)*
**bisged(i)** — *biscuit(s)*
**brechdan(au)** — *sandwich(es)*
**esgid(iau)** — *shoe(s)*
**moronen (moron)** — *carrot(s)*
**neges(euon)** — *message(s)*
**taten (tatws)** — *potato(es)*
**torth(au)** — *loaf (loaves)*

**afal(au)** — *apples(s)*
**bara** — *bread*
**cawl** — *soup*
**chwaraeon** — *sports*
**ffrwyth(au)** — *fruit(s)*
**ham** — *ham*
**haul** — *sun*
**jam** — *jam*
**lemon(au)** — *lemon(s)*
**llysiau** — *vegetables*
**llythyr(au)** — *letter(s)*
**peiriant (peiriannau)** — *machine(s)*
**salad** — *salad*
**sudd** — *juice*
**tomato(s)** — *tomato(es)*
**uwd** — *porridge*
**wy(au)** — *egg(s)*

**angen** — *to need*
**gwerthu** — *to sell*
**parcio** — *to park*

**anodd** — *difficult*
**poeth** — *hot*

**dim byd** — *nothing*
**(e)fallai** — *perhaps*
**gormod** — *too much*
**popeth** — *everything*
**trwy** — *through*



Geiriau pwysig i fi

×
×
×
×

**Cymraeg Dosbarth –**
Sut mae sillafu...?

**Ces i/Ges i uwd i frecwast.** — *I had porridge for breakfast.*
**Ces i/Ges i ffrwythau i frecwast.** — *I had fruit for breakfast.*
**Ces i/Ges i wy i frecwast.** — *I had an egg for breakfast.*
**Ces i/Ges i dost i frecwast.** — *I had toast for breakfast.*

**Beth gest ti i frecwast?** — *What did you have for breakfast?*
**Beth gest ti i ginio?** — *What did you have for lunch?*
**Beth gest ti i de?** — *What did you have for tea?*
**Beth gest ti i swper?** — *What did you have for supper?*

| | Fi | Enw ................................ | Enw ................................ |
|---|---|---|---|
| **brecwast** | | | |
| **cinio** | | | |
| **te** | | | |
| **swper** | | | |

**Gawsoch chi/Gaethoch chi sglodion ddoe?** – *Did you have chips yesterday?*
**Gawsoch chi/Gaethoch chi frechdan ddoe?** – *Did you have a sandwich yesterday?*
**Gawsoch chi/Gaethoch chi uwd?** — *Did you have porridge?*
**Gawsoch chi/Gaethoch chi gawl?** — *Did you have soup?*

**Do.** ✔ **Naddo.** ✗




**Beth gafodd/gaeth Pat yn y caffi?** — *What did Pat have in the café?*
**Cafodd/Gaeth Pat de.** — *Pat had tea.*
**Cafodd/Gaeth Pat goffi.** — *Pat had coffee.*
**Cafodd/Gaeth e siocled poeth.** — *He had hot chocolate.*
**Cafodd/Gaeth hi sudd oren.** — *She had orange juice.*

## Beth gafodd pawb?

| | **i fwyta** | **i yfed** |
|---|---|---|
| **A – Tom** | caws | coffi du |
| **2 – Mari** | tost | te |
| **3 – Helen** | bara brown | *cappucino* |
| **4 – Marc** | brechdan salad | dŵr |
| **5 – Mair** | cyrri | lager |
| **6 – Sara** | brechdan domato | lemonêd |
| **7 – Matt** | pasta | gwin gwyn |
| **8 – Gareth** | banana | sudd oren |
| **9 – Paul** | brechdan jam | te gwyrdd |
| **10 – Sam** | brechdan ham | gwin coch |
| **Jac – Jac** | barbeciw | cwrw |
| **Brenhines – Liz** | cinio dydd Sul | siampên |
| **Brenin – Harri** | cawl | siocled poeth |

**Cawson ni/Gaethon ni ebost ddoe.** — *We had an email yesterday.*
**Cawson ni/Gaethon ni neges ddoe.** — *We had a message yesterday.*
**Cawson nhw/Gaethon nhw bost ddoe.** — *They had post yesterday.*
**Cawson nhw/Gaethon nhw lythyr ddoe.** — *They had a letter yesterday.*

**Ches i ddim post ddoe.** ——— *I didn't get any post yesterday.*
**Ches i ddim ebost ddoe.** ——— *I didn't get an email yesterday.*
**Ches i ddim tecst ddoe.** ——— *I didn't get a text yesterday.*
**Ches i ddim llythyr ddoe.** ——— *I didn't get a letter yesterday.*

**1. Yn y dosbarth**



**A:** Ces i uwd i frecwast heddiw.
**B:** O! Ces i wy ar dost.
**C:** Ches i ddim brecwast o gwbl! Ces i goffi du. Dw i ddim yn hoffi bwyta yn y bore.

**2. Yn y swyddfa**



**A:** Ces i gawl llysiau i ginio heddiw.
**B:** O! Ces i frechdan gaws.
**C:** Ches i ddim cinio o gwbl! Ces i baned o de a bisged siocled. Dw i eisiau bwyd!

**3. Yn y dafarn**



**A:** Ces i gyrri a reis i swper neithiwr.
**B:** O? Ces i gyrri hefyd ond ches i ddim reis. Ond ces i fara naan.
**C:** Ces i bysgod a sglodion – dw i ddim yn hoffi cyrri o gwbl.

Mewn grŵp o dri, ysgrifennwch ddeialog:

**A:** ..............................................................................................





**B:** ..............................................................................................

**C:** ..............................................................................................

..............................................................................................

# Ymarfer

1. **Es i i'r siop fara,** ces i dorth.
2. **Est ti i'r sinema,** cest ti bopcorn.
3. **Aeth e i'r siop lysiau,** cafodd e foron.
4. **Aethon ni i'r banc,** cawson ni arian.
5. **Aethoch chi i'r traeth,** cawsoch chi dywydd braf.
6. **Aethon nhw i'r siop ddillad,** cawson nhw fargen.

| | **mynd** | **cael** |
|---|---|---|
| **1 (fi)** | i'r banc |  |
| **2 (ti)** | i'r garej |  |
| **3 (fe/hi)** | at y meddyg |  |
| **4 (ni)** | i'r swyddfa bost |  |
| **5 (chi)** | i'r traeth |  |
| **6 (nhw)** | i'r siop fara |  |

# Ynganu – r

| | | | |
|---|---|---|---|
| storm | stormus | araf | arall |
| car | cariad | cerdded | cario |
| gŵr | gwraig | dosbarth | person |
| gair | geiriau | sgwrs | siarad |

## Sgwrs 1

**Ceri:** Helô Eryl, sut wyt ti? Est ti i'r dre ddoe?
**Eryl:** Naddo, pam?
**Ceri:** Mae siop Lewis Huws yn cau.
**Eryl:** O, trueni! Dw i'n lico'r siop yna yn fawr. Maen nhw'n gwerthu popeth!
**Ceri:** Ond newyddion da. Maen nhw'n symud i siop fawr yn y parc siopa y mis nesa.
**Eryl:** Wel, mae'n anodd parcio yn y dre….
**Ceri:** Ces i fargen – teledu newydd am hanner pris! Mae popeth yn hanner pris...
**Eryl:** Wel, wel!
**Ceri:** Ie! Dillad, esgidiau, pethau i'r gegin… Dw i'n mynd i brynu camera, peiriant golchi a siaced newydd yfory!
**Eryl:** Ydyn nhw eisiau staff newydd?
**Ceri:** Fallai. Pam?
**Eryl:** Ces i neges o'r banc y bore 'ma. Prynais i ormod yn y sêls… Dw i angen ffeindio gwaith, dw i'n meddwl...

## Sgwrs 2

**A:** Helô! Sut mae'r cadw'n heini'n mynd?
**B:** Yn eitha da, diolch.
Es i i'r gwaith ar y beic bob dydd yr wythnos diwetha ac es i mas i redeg dydd Sadwrn a dydd Sul.
**A:** Beth gest ti i fwyta trwy'r wythnos?
**B:** Ces i uwd i frecwast a ches i gawl i ginio bob dydd.
**A:** Da iawn ti.
**B:** A bod yn onest, es i mas i fwyta nos Wener a ches i ormod o sglodion. Es i i'r dafarn nos Sadwrn hefyd a ches i sglodion eto, a dweud y gwir.
**A:** O diar.
**B:** Ond ches i ddim byd ond salad a dŵr gyda lemon dydd Sul. A ti? Beth wnest ti i gadw'n heini yr wythnos diwetha?
**A:** Cerddais i o'r maes parcio i'r swyddfa bob dydd.
**B:** Pum deg metr?
**A:** O na, dau ddeg pump. Ond ches i ddim cwrw nos Sul a ches i ddim cacen amser cinio dydd Llun chwaith.
**B:** Chwarae teg i ti. Mae'r rhaglen cadw'n heini'n mynd yn dda, dw i'n gweld!

## Robin Radio – Yn y swyddfa

**a) Atebwch:**

Beth wnaeth Robin dydd Sul? ........................................................................

O ble ffoniodd Robin y bore 'ma? ........................................................................

Ble mae Llinos yn gweld y gêm? ........................................................................

**b) Gwrandewch am:**

Mae'n well gyda fi. —— *I prefer.*
Dw i'n cytuno. —— *I agree.*

**c) Cyfieithwch:**

*I had a telephone message.* ........................................................................

*Where is the game?* ........................................................................

*Robin phoned.* ........................................................................

## Help llaw

**1.** *Learn the past tense of* **cael**. *There are two possible forms. Your tutor will concentrate on one but you need to be familiar with both:*

| **Cadarnhaol/ *Affirmative*** | **Cwestiwn/ *Question*** | **Negyddol/ *Negative*** |
|---|---|---|
| Ces i/Ges i | Ges i? | Ches i ddim |
| Cest ti/Gest ti | Gest ti? | Chest ti ddim |
| Cafodd e/Gaeth e | Gafodd e?/Gaeth e? | Chafodd e ddim/<br>Chaeth e ddim |
| Cafodd hi/Gaeth hi | Gafodd hi?/Gaeth hi? | Chafodd hi ddim/<br>Chaeth hi ddim |
| Cawson ni/Gaethon ni | Gawson ni?/Gaethon ni? | Chawson ni ddim/<br>Chaethon ni ddim |
| Cawsoch chi/Gaethoch chi | Gawsoch chi?/<br>Gaethoch chi? | Chawsoch chi ddim/<br>Chaethoch chi ddim |
| Cawson nhw/Gaethon nhw | Gawson nhw?/<br>Gaethon nhw? | Chawson nhw ddim/<br>Chaethon nhw ddim |

**2.** *You may have noticed the* **ch** *at the beginning of another pattern –* Na **ch**ewch. *This change indicates the negative.*

*This change indicates the negative as we have in* **Ch**es i ddim.
*This is the aspirate mutation* (treiglad llaes) *and occurs with only 3 letters:*

| | | |
|---|---|---|
| T | Talais i | **Th**alais i ddim |
| C | Clywed | **Ch**lywais i ddim |
| P | Prynu | **Ph**rynais i ddim |

*So, the negative can take two mutations: the aspirate mutation with* **t**, **c**, **p** *and the soft mutation with* **d**, **g**, **b**, **m**, **ll**, **rh**:

| | |
|---|---|
| talu | **Th**alais i ddim. |
| clywed | **Ch**lywais i ddim. |
| prynu | **Ph**rynais i ddim. |
| darllen | **Dd**arllenais i ddim. |
| gyrru | Yrrais i ddim. |
| bwyta | **F**wytais i ddim. |
| mwynhau | **F**wynheuais i ddim. |
| llenwi | **L**enwais i ddim. |
| rhedeg | **R**edais i ddim. |

**3.** *The negative* **DDIM** *blocks the mutation:*

Ces/Ges i **g**offi.
Ches i ddim **c**offi.

# Uned 12 (deuddeg) – Mae car gyda fi

**Nod: Dweud beth sy gyda chi a phobl eraill** / *Saying what you and others have and own* (Mae .... gyda fi/ti/Sam/fe/hi/ni/chi/nhw)

## Geirfa

**canolfan(nau)** — *a centre (centres)*
**carafán (carafanau)** *caravan(s)*
**cath(od)** — *cat(s)*
**chwaer (chwiorydd)** - *sister(s)*
**het(iau)** — *hat(s)*
**mam(au)** — *mother(s)*
**mam-gu** — *grandmother*
**sbectol** — *spectacles*
**troed (traed)** — *foot (feet)*

**anifail (anifeiliaid)** — *animal(s)*
**anifail anwes** — *pet*
**apwyntiad(au)** — *appointment(s)*
**babi(s)** — *baby (babies)*
**brawd (brodyr)** — *brother(s)*
**cariad(on)** — *love, girlfriend(s), boyfriend(s),*
**ceffyl(au)** — *horse(s)*
**ci (cŵn)** — *dog(s)*
**cyfrifiadur(on)** — *computer(s)*
**cymydog (cymdogion)** — *neighbour(s)*
**geiriadur(on)** — *dictionary (dictionaries)*
**gwallt** — *hair*
**partner(iaid)** — *partner(s)*
**plentyn (plant)** — *child(ren)*
**syniad(au)** — *idea(s)*
**tad(au)** — *father(s)*
**tad-cu** — *grandfather*

**cysgu** — *to sleep*




**Cymraeg Dosbarth** –
Beth sy'n digwydd?

Geiriau pwysig i fi

..............................
×
..............................
×
..............................


..............................
×
..............................
×
..............................

**Mae car gyda fi.** ______ *I have a car.*
**Mae tŷ gyda fi.** ______ *I have a house.*
**Mae teledu gyda fi.** ______ *I have a television.*
**Mae cyfrifiadur gyda fi.** ______ *I have a computer.*



**Oes car gyda ti?** ______ *Have you got a car?*
**Oes teledu gyda ti?** ______ *Have you got a TV?*
**Oes dosbarth gyda ti?** ______ *Have you got a class?*
**Oes gwaith gyda ti?** ______ *Have you got work/a job?*

**Oes.** ✔ **Nac oes.** ✗




| Enw | teledu | camera | ffôn | sbectol | cyfrifiadur | geiriadur |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |

**Does dim ci gyda fi.** ______ *I don't have a dog.*
**Does dim cath gyda fi.** ______ *I don't have a cat.*
**Does dim ceffyl gyda fi.** ______ *I don't have a horse.*
**Does dim parot gyda fi.** ______ *I don't have a parrot.*

**Mae plant gyda Bethan.** ______ *Bethan has children.*
**Mae partner gyda Bethan.** ______ *Bethan has a partner.*
**Mae brawd gyda Bethan.** ______ *Bethan has a brother.*
**Mae chwaer gyda Bethan.** ______ *Bethan has a sister.*




Taflwch y dis a siaradwch am Gwen. *Throw the dice and talk about Gwen.*



| | | |
|---|---|---|
| **1. chwaer** | **2. brawd** | **3. plant** |
| **4. ffrindiau** | **5. partner** | **6. cymdogion** |

**Oes teulu gyda Tomos?** ______ *Has Tomos got a family?*
**Oes car gyda Tomos?** ______ *Has Tomos got a car?*
**Oes ci gyda Tomos?** ______ *Has Tomos got a dog?*
**Oes diod gyda Tomos?** ______ *Has Tomos got a drink?*




**Does dim teulu gyda Tomos.** ______ *Tomos hasn't got a family.*
**Does dim car gyda Carys.** ______ *Carys hasn't got a car.*
**Does dim ci gyda Gwen.** ______ *Gwen hasn't got a dog.*
**Does dim diod gyda Dewi.** ______ *Dewi hasn't got a drink.*

| **A** | **teulu** | **car** | **ci** | **diod** |
|---|---|---|---|---|
| Tomos | ✔ | ✔ | ✘ | ✔ |
| Carys | ✔ | ✘ | ✘ | ✘ |
| **B** | | | | |
| Gwen | ✘ | ✔ | ✔ | ✘ |
| Dewi | ✔ | ✘ | ✔ | ✔ |

**Does dim plant gyda fe.** — *He doesn't have children.*
**Does dim anifail anwes gyda fe.** — *He doesn't have a pet.*
**Does dim plant gyda hi.** — *She doesn't have children.*
**Does dim anifail anwes gyda hi.** — *She doesn't have a pet.*

**Mae plentyn gyda fe.**
**Mae dau o blant gyda fe.**
**Mae tri o blant gyda fe.**
**Mae pedwar o blant gyda fe.**
**Mae pump o blant gyda fe.**

**Mae plentyn gyda hi.**
**Mae dau o blant gyda hi.**
**Mae tri o blant gyda hi.**
**Mae pedwar o blant gyda hi.**
**Mae pump o blant gyda hi.**





**Mae problem gyda ni.** — *We have a problem.*
**Mae cyfarfod gyda ni.** — *We have a meeting.*
**Mae cyfarfod gyda nhw.** — *They have a meeting.*
**Mae cyfarfod staff gyda nhw.** — *They have a staff meeting.*

**Does dim cyfarfod gyda ni.** — *We don't have a meeting.*
**Does dim apwyntiad gyda ni.** — *We don't have an appointment.*
**Does dim apwyntiad gyda nhw.** — *They don't have an appointment.*
**Does dim syniad gyda nhw.** — *They don't have an idea.*

Edrychwch ar y cwestiwn a dewiswch ateb. *Look at the question and choose an appropriate answer*, e.e. Pam rwyt ti'n mynd i'r siop? Does dim bwyd gyda fi.

| | |
|---|---|
| Pam rwyt ti'n mynd i'r siop? | petrol |
| Pam dyw Serena ddim yn chwarae tennis? | pêl |
| Pam dwyt ti ddim yn darllen papur newydd bob dydd? | problem |
| Pam rwyt ti'n hapus? | pasport |
| Pam mae e'n cerdded i'r gwaith? | raced |
| Pam dyw'r plant ddim yn chwarae pêl-droed? | arian |
| Pam mae'r bòs yn mynd i'r banc? | bwyd |
| Pam mae'r actores yn mynd i'r Ganolfan Waith? | amser |
| Pam mae e'n cysgu mewn carafán? | gwaith |
| Pam dyw'r tiwtor ddim yn mynd i Sbaen? | car |
| Pam dyw e ddim yn edrych ar S4C? | tŷ |
| Pam mae Gwyn yn mynd i'r garej? | teledu |

**Oes problem gyda chi?** — *Have you got a problem?*
**Oes cyfarfod gyda chi?** — *Have you got a meeting?*
**Oes apwyntiad gyda chi?** — *Have you got an appointment?*
**Oes syniad gyda chi?** — *Have you got an idea?*

**Oes cyfarfod staff gyda nhw?** — *Have they got a staff meeting?*
**Oes apwyntiad gyda nhw?** — *Have they got an appointment?*
**Oes syniad gyda nhw?** — *Have they got an idea?*
**Oes swyddfa gyda nhw?** — *Have they got an office?*

Siaradwch â phump o bobl a gofynnwch **Oes ... gyda ti?** neu **Oes ... gyda chi?**


| Enw | chwaer | brawd | ci | cath |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

**Faint o blant sy gyda chi?** — *How many children do you have?*
**Faint o blant sy gyda ti?** — *How many children do you have?*
**Faint o blant sy gyda fe?** — *How many children does he have?*
**Faint o blant sy gyda hi?** — *How many children does she have?*

**Mae un mab gyda fi.** — **Mae un ferch gyda fi.**
**Mae dau fab gyda fi.** — **Mae dwy ferch gyda fi.**
**Mae tri mab gyda fi.** — **Mae tair merch gyda fi.**
**Mae pedwar mab gyda fi.** — **Mae pedair merch gyda fi.**

**Mae John yn un oed.** — *John is one.*
**Mae John yn ddwy oed.** — *John is two.*
**Mae John yn dair oed.** — *John is three.*
**Mae John yn bedair oed.** — *John is four.*











# Ynganu

Dyma hwiangerdd *(nursery rhyme)* enwog yn Gymraeg:

**Dau gi bach yn mynd i'r coed,**
**Esgid newydd am bob troed;**
**Dau gi bach yn dŵad adre**
**Wedi colli un o'u sgidie,**
**Dau gi bach.**



## Sgwrs 1

Bara brith – *"speckled bread" – fruit loaf*

**Mae Eryl yn ffonio Ceri.**

**Ceri:** Helô?

**Eryl:** Helô Ceri, Eryl yma. Mae cwestiwn gyda fi. Faint o'r gloch mae'r bore coffi dydd Sadwrn?

**Ceri:** Deg o'r gloch. Mae poster gyda fi yma.

**Eryl:** Da iawn. Dw i'n gallu mynd i'r bore coffi felly, ond mae cyfarfod gyda fi am hanner dydd.

**Ceri:** Dw i'n gallu cyrraedd am un ar ddeg ar y bws. Gwela i ti yna.

**Eryl:** Mae cacen gyda fi i'r bore coffi. Oes amser gyda ti i wneud cacen?

**Ceri:** Nac oes, ond mae bara brith gan Mam gyda fi yma.

**Eryl:** Neis iawn! Mae'r tiwtor a'r dosbarth yn hoffi bara brith yn fawr.

**Ceri:** Mae bara brith Mam yn flasus iawn. Mae hi'n gogydd da iawn.

**Eryl:** Mae gwaith cartre gyda ni hefyd – gofyn am baned yn Gymraeg yn y bore coffi!

**Ceri:** Da iawn, gwela i ti dydd Sadwrn.

## Sgwrs 2

**A:** Oes teulu mawr gyda chi?

**B:** Mae pump brawd a saith chwaer gyda fi.

**A:** Oes plant gyda chi?

**B:** Mae saith o blant gyda ni.

**A:** Oes anifeiliaid gyda chi?

**B:** Mae pedwar ci gyda ni.

**A:** Dych chi'n gallu mynd ar wyliau teulu?

**B:** O ydyn, 'dyn ni'n mynd i Aberaeron bob haf. Mae carafán gyda ni yno.

**A:** Sut dych chi'n mynd i Aberaeron?


**B:** Yn y car.

**A:** Oes car mawr gyda chi?

**B:** Nac oes, mae bws mini gyda ni.

## Robin Radio

**a) Atebwch:**



Ble mae Anti Mair yn gweithio? ..............................................................

..............................................................

Beth yw esgus *(excuse)* Anti Mair? ..............................................................



..............................................................

Ble mae Anti Mair? ..............................................................

..............................................................

**b) Gwrandewch am:**

Beth sy'n bod? —— *What's wrong?*
Dw i ar fy mhen fy hun. — *I'm on my own.*
Rwyt ti'n garedig iawn. — *You're very kind.*

**c) Cyfieithwch:**


*I have a problem.* ..............................................................

*I don't want to leave.* ..............................................................

*I want to stay.* ..............................................................

## Llyfrau Amdani

Dych chi nawr yn gallu darllen *Agor y Drws*. Dyma'r clawr a'r paragraff cynta yn y stori gynta. Dych chi'n gallu prynu'r llyfr mewn siop Gymraeg neu ar gwales.com.




Dydd Mercher, 5 Mai. Dw i'n 50 heddiw. Pum deg - ofnadwy! Dw i'n hen! A dw i ddim yn ffit...

## Help llaw

**1.** *Showing possession is an important pattern in Welsh. It is different to English. We are literally saying 'There is xx with me'.*

**Mae car gyda fi.**
**Does dim car gyda fi.**
**Oes car gyda chi?**

**Oes.** ✔ **Nac oes.** ✗

**2.** *In spoken Welsh,* **gyda** *is sometimes abbreviated to '***da**.

**3.** *There are 2 ways of using numbers in Welsh. Here we see both ways - number +* **o** *+ plural form (mutated after* **o***), e.g.* dau o blant.

*The other way is (we have already seen in* Uned 3*) to use the number + the singular form, but you need to know whether the noun is masculine or feminine:*

| | |
|---|---|
| un mab (dim treiglad) | un **f**erch (treiglad meddal) |
| dau **f**ab (treiglad meddal) | dwy **f**erch (treiglad meddal) |
| tri mab (dim treiglad yma ond **t**>th, **c**>ch, **p**>ph) | tair merch (dim treiglad) |
| pedwar mab (dim treiglad) | pedair merch (dim treiglad) |

# Uned 13 (un deg tri) – Roedd hi'n braf

**Nod: Disgrifio pethau yn y gorffennol**/*Describing things in the past* (Roedd hi'n braf, Oedd hi'n braf? Oedd/Nac oedd, Doedd hi ddim yn braf, Roedd .... gyda fi)

## Geirfa

**cawod(ydd)** – *a shower(s)*
**cot(iau)** – *coat(s)*
**dannodd** – *toothache*
**pabell (pebyll)** – *tent(s)*
**poen(au)** – *pain(s)*

**annwyd** – *a cold*
**bag(iau)** – *bag(s)*
**beic modur (beiciau modur)** – *motorbike(s)*
**bol(iau)/bola** – *stomach(s)*
**cefn(au)** – *back(s*
**llwnc** – *throat*
**moddion** – *medicine*
**pâr (parau)** – *pair(s), couple(s)*
**pen** – *head*
**person(au)** – *person(s)*
**peswch** – *a cough*
**llais (lleisiau)** – *voice(s)*

**cario** – *to carry*
**symud** – *to move*

**araf** – *slow*
**ardderchog** – *excellent*
**cyflym** – *fast*
**heulog** – *sunny*
**priod** – *married*
**tost** – *ill*

**achos** – *because*
**byth** – *ever; never*
**er** – *although*
**fel arfer** – *as usual; usually*
**(y) llynedd** – *last year*

Geiriau pwysig i fi


× ........................................
× ........................................
× ........................................
× ........................................

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Roedd hi'n braf ddoe.** | *It was fine yesterday.* | | |
| **Roedd hi'n heulog ddoe.** | *It was sunny yesterday.* | | |
| **Roedd hi'n oer ddoe.** | *It was cold yesterday.* | | |
| **Roedd hi'n wyntog ddoe.** | *It was windy yesterday.* | | |
| **Oedd hi'n braf neithiwr?** | *Was it fine last night?* | **Oedd.** | ✔ |
| **Oedd hi'n heulog neithiwr?** | *Was it sunny last night?* | **Oedd.** | ✔ |
| **Oedd hi'n oer neithiwr?** | *Was it cold last night?* | **Nac oedd.** | ✗ |
| **Oedd hi'n sych neithiwr?** | *Was it dry last night?* | **Nac oedd.** | ✗ |
| **Sut roedd y tywydd ddoe?** | *How was the weather yesterday?* | | |



| | |
|---|---|
| **Roedd hi'n dost.** | *She was ill.* |
| **Roedd hi'n drist.** | *She was sad.* |
| **Roedd hi'n hwyr.** | *She was late.* |
| **Roedd hi'n brysur.** | *She was busy.* |
| **Oedd e'n dost?** | *Was he ill?* |
| **Oedd e'n drist?** | *Was he sad?* |
| **Oedd e'n gyflym?** | *Was he quick?* |
| **Oedd e'n araf?** | *Was he slow?* |



**Oedd.** ✔ **Nac oedd.** ✗

| | |
|---|---|
| **Doedd hi ddim yn sych.** | *It wasn't dry.* |
| **Doedd hi ddim yn dda.** | *She wasn't well.* |
| **Doedd e ddim yn drist.** | *He wasn't sad.* |
| **Doedd e ddim yn hapus.** | *He wasn't happy.* |

| | |
|---|---|
| **Doedd y bwyd ddim yn dda.** | *The food wasn't good.* |
| **Doedd y bwyd ddim yn dwym.** | *The food wasn't warm.* |
| **Doedd y bwyd ddim yn ddrud.** | *The food wasn't expensive.* |
| **Doedd y bwyd ddim yn rhad.** | *The food wasn't cheap.* |

Trowch y cerdyn a gofynnwch gwestiwn i'ch partner. *Turn over a card and ask your partner a question*, e.e. Oedd y tywydd yn braf? Cerdyn coch = *Yes*. Cerdyn du = *No*.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1** | | (y tywydd) | **braf** |
| **2** | | (y gwaith) | **hawdd** |
| **3** | | (y bwyd) | **oer** |
| **4** | | (y car) | **drud** |
| **5** | | (y gwesty) | **rhad** |
| **6** | | (y môr) | **stormus** |
| **7** | | (y ffilm) | **trist** |
| **8** | | (y plentyn) | **hapus** |
| **9** | | (y ffordd) | **prysur** |
| **10** | | (y trên) | **hwyr** |

**Mae pen tost gyda fi.** ——— *I have a headache.*
**Roedd pen tost gyda fi.** ——— *I had a headache.*
**Roedd bola tost gyda fi.** ——— *I had a bad stomach.*
**Roedd clust dost gyda fi.** ——— *I had earache.*

**Roedd annwyd ar Sam.** ——— *Sam had a cold.*
**Roedd annwyd arna i.** ——— *I had a cold.*
**Roedd annwyd arnat ti.** ——— *You had a cold.*
**Roedd annwyd arno fe.** ——— *He had a cold.*
**Roedd annwyd arni hi.** ——— *She had a cold.*

**Roedd peswch arnon ni.** ——— *We had a cough.*
**Roedd peswch arnoch chi.** ——— *You had a cough.*
**Roedd peswch arnyn nhw.** ——— *They had a cough.*

# Pwy oedd yn y dosbarth?


Gofynnwch i'ch partner pwy oedd yn y dosbarth yr wythnos diwetha. Pam roedd pobl yn absennol? *Ask your partner who was in class last week. Why were people absent?*

| | A | B |
|---|---|---|
| **Siân** | |  |
| **Mair** | |  |
| **Aled** | |  |
| **Llinos** | |  |
| **Elen** | |  |
| **Gareth** |  | |
| **Huw** |  | |
| **Marc** |  | |
| **Dafydd** |  | |
| **Tomos** |  | |


## Ymarfer

**Roedd car glas gyda ni. Mae car coch gyda ni nawr.**

### Roedd

| | | | |
|---|---|---|---|
| cot babi |  | babi |  |
| beic modur | llyfrau |  | geiriadur Saesneg |

### Mae

| | | | |
|---|---|---|---|
|  | dau o blant |  | beic |
| gwely | cyfrifiadur |  | geiriadur Cymraeg |

## Ynganu – ymarfer y llythyren u

| | | | |
|---|---|---|---|
| un | hufen | dur | gwerthu |
| hapus | mefus | stormus | clust |

## Sgwrs 1

**Ceri:** Sut roedd y parti priodas neithiwr?
**Pat:** Roedd e'n grêt! Roedd y gwesty'n braf, roedd y bwffe'n flasus a chawson ni amser gwych.
**Ceri:** A sut roedd y pâr priod?
**Pat:** Hapus iawn.
**Ceri:** Oedd pawb yno?
**Pat:** Doedd y plant bach ddim yno, wrth gwrs, ond roedd pawb arall yno.
**Ceri:** Sut roedd mam Twm?
**Pat:** Iawn. Roedd hi'n mwynhau ei hun, dw i'n meddwl.
**Ceri:** Oedd hi'n dawnsio yn y disgo?
**Pat:** Oedd, wrth gwrs, fel arfer.
**Ceri:** Gyda phwy y tro 'ma?
**Pat:** Gyda'r ficer.
**Ceri:** A sut roedd y carioci?
**Pat:** Ofnadwy. Dw i ddim eisiau clywed ABBA byth eto.

## Sgwrs 2

Mae plismon o Heddlu Llanaber yn siarad â Mr Williams:

**A:** Felly, Mr Williams, beth weloch chi?

**B:** Gwelais i rywun yn rhedeg mas o'r banc.

**A:** Faint o'r gloch oedd hi?

**B:** Saith munud wedi dau.

**A:** Dw i'n gweld. Reit, gweloch chi rywun yn rhedeg mas o'r banc am saith munud wedi dau. Dyn oedd e?

**B:** Nage. Er, dw i ddim yn siŵr. Roedd cot fawr gyda hi, a balaclafa.

**A:** Oedd hi'n cario rhywbeth?

**B:** Oedd, roedd bag mawr du gyda hi.

**A:** Beth oedd oed y person?

**B:** Mae'n anodd dweud. Tua wyth deg, efallai.


**A:** Wyth deg oed? Oedd e neu hi'n rhedeg yn gyflym?

**B:** Nac oedd, wrth gwrs.

**A:** Diolch yn fawr am eich help, Mr Williams.

**B:** Pob lwc!

## Robin Radio



**a) Atebwch:**

Pam mae Robin yn hwyr? ..........................................................................

..........................................................................................................

Pwy sy'n gwneud y rhaglen gyda Robin? ..................................................

..........................................................................................................



Pam dyw Anti Mair ddim yn y gwaith? ......................................................

..........................................................................................................

**b) Gwrandewch am:**

Mae'n ddrwg gyda fi mod i'n hwyr. ________ *I'm sorry that I'm late.*
Dw i wedi blino'n lân. ________ *I am shattered.*
a dweud y gwir ________ *to tell the truth, to be honest*

**c) Cyfieithwch:**

*Don't worry.* ..........................................................................................

*Auntie Mair isn't here.* ...........................................................................

*Do you remember?* ................................................................................

## Help llaw

1. **Roedd** *is the 3rd person singular imperfect tense of the verb* **bod.**

2. *When a part of the body hurts, we use* **gyda***.*

   **Mae cefn tost gyda fi.** **Roedd pen tost gyda fi.**

3. *When a condition/illness affects a person, we use* **ar.**

   **Mae annwyd arna i.** **Roedd annwyd arna i.**

4. *Learn how* **ar** *conjugates (changes):*

   **arna i (arno i)** **arnon ni**
   **arnat ti (arnot ti)** **arnoch chi**
   **arno fe** **arnyn nhw**
   **arni hi**

5. *Remember the* treiglad meddal *after singular feminine nouns, e.g.* clust + tost > clust **d**ost.

# Uned 14 (un deg pedwar) – Ble ro'ch chi'n byw ac yn gweithio?

**Nod: Siarad am bethau ro'ch chi'n arfer eu gwneud/**
*Talking about things you used to do*
(ro'n i, ro't ti, ro'n ni, ro'ch chi, ro'n nhw)

## Geirfa

| | | | |
|---|---|---|---|
| **amgueddfa (amgueddfeydd)** | *museum(s)* | **gŵyl (gwyliau)** | *festival(s), holiday(s)* |
| **Bryste** | *Bristol* | **llong(au)** | *ship(s)* |
| **cost(au)** | *cost(s)* | **sir(oedd)** | *county (counties)* |
| **crempog(au)** | *pancake(s)* | | |
| **ffordd (ffyrdd)** | *road(s), way(s)* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **bwyty (bwytai)** | *restaurant(s)* | **de** | *south* |
| **castell (cestyll)** | *castle(s)* | **deintydd** | *dentist* |
| **côr (corau)** | *choir(s)* | **gogledd** | *north* |
| **cyngor** | *council, advice* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **galw** | *to call* | **pleidleisio** | *to vote* |
| **gobeithio** | *to hope* | **teimlo** | *to feel* |
| **nyrsio** | *to nurse* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **diog** | *lazy* | **pell** | *far* |
| **gwell** | *better* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **ar hyn o bryd** | *at the moment* | **fel** | *as, like* |
| **athro cyflenwi** | *supply teacher* | **i gyd** | *all* |
| **cymaint** | *so much* | **o gwmpas** | *around* |
| **cyn** | *before* | **pan** | *when* |

Geiriau pwysig i fi

........................................ ........................................
× ×
........................................ ........................................
× ×
........................................ ........................................

**Y Treiglad Trwynol/***Nasal Mutation*

**T > yn Nh**
**C > yng Ngh**
**P > ym Mh**
**D > yn N**
**G > yng Ng**
**B > ym M**

| | |
|---|---|
| Dw i'n byw yn **Nh**regaron. | T > **Nh** |
| Dw i'n byw yng **Ngh**ymru. | C > **Ngh** |
| Dw i'n byw ym **Mh**ontardawe. | P > **Mh** |
| Dw i'n byw yn **N**owlais. | D > **N** |
| Dw i'n byw yng **Ng**wynedd. | G > **Ng** |
| Dw i'n byw ym **M**edwas. | B > **M** |

**TREGARON**
**CYMRU**
**PONTARDAWE**
**DOWLAIS**
**GWYNEDD**
**BEDWAS**

**Dyma fersiwn 2 o gerdd** *(poem)* **gan Cyril Jones (*Dysgu trwy Lenyddiaeth*, CBAC)**

**I gofio'r treiglad trwynol:**
**Mae Ceri yng Nghaerdydd,**
**Mae Tom yn byw yn Nhalybont**
**A Pam ym Mhontypridd.**
*****
**Mae Gwyn yn byw yng Ngwynedd,**
**A Dai yn Ninas Brân,**
**Mae Bob yn byw ym Mangor,**
**A dyna ydy'r gân.**

**Ro'n i yn Llandeilo ddoe.** — *I was in Llandeilo yesterday.*
**Ro'n i yn y gwaith ddoe.** — *I was at work yesterday.*
**Ro'n i yn y dosbarth ddoe.** — *I was in class yesterday.*
**Ro'n i gartre ddoe.** — *I was at home yesterday.*

**Ble ro't ti ddoe?** — *Where were you yesterday?*
**Ble ro't ti neithiwr?** — *Where were you last night?*
**Ble ro'ch chi ddoe?** — *Where were you yesterday?*
**Ble ro'ch chi neithiwr?** — *Where were you last night?*

**A:** Ble ro't ti neithiwr? Galwais i yn y tŷ.
**B:** Ro'n i yn y gwaith. Cyrhaeddais i adre am ddeg o'r gloch.

**A:** Ble ro't ti prynhawn ddoe? Es i i'r gêm.
**B:** Ro'n i yn y gwely – yn dost. Pwy enillodd?
**A:** Ni, wrth gwrs. 5-0.

**Ro'n i'n cysgu am saith o'r gloch.** — *I was sleeping at seven o'clock.*
**Ro'n i'n bwyta brecwast am saith o'r gloch.** — *I was eating breakfast at seven o'clock.*
**Ro'n i'n gyrru am saith o'r gloch.** — *I was driving at seven o'clock.*
**Ro'n i'n gwrando ar y radio am saith o'r gloch.** — *I was listening to the radio at seven o'clock.*

**Beth o't ti'n wneud am saith o'r gloch?** — *What were you doing at seven o'clock?*
**Beth o't ti'n wneud am wyth o'r gloch?** — *What were you doing at eight o'clock?*
**Beth o'ch chi'n wneud am naw o'r gloch?** — *What were you doing at nine o'clock?*
**Beth o'ch chi'n wneud am ddeg o'r gloch?** — *What were you doing at ten o'clock?*

| Enw | 7am | 10am | 2pm | 7pm |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

**Ro'n i'n byw yn Llanelli pan o'n i'n fabi.**
*I lived in Llanelli when I was a baby.*

**LLANELLI**

**Ro'n i'n byw yng Nghaerfyrddin pan o'n i'n blentyn.**
*I lived in Carmarthen when I was a child.*

**CAERFYRDDIN**

**Ble ro't ti'n byw pan o't ti'n blentyn?**
*Where did you live when you were a child?*


**Ble ro'ch chi'n byw pan o'ch chi'n blentyn?**
*Where did you live when you were a child?*

## Ble ro'ch chi'n byw?

| | | |
|---|---|---|
| T | yn | |
| C | yng | |
| P | ym | |
| D | yn | |
| G | yng | |
| B | ym | |
| Dim newid | yn | |

**Pan o'n i'n blentyn...**







**Do'n i ddim yn lico hoci.** — *I didn't like hockey.*
**Do'n i ddim yn lico cinio ysgol.** — *I didn't like school dinners.*
**Do'n i ddim yn lico bwyta sbrowts.** — *I didn't like eating sprouts.*
**Do'n i ddim yn lico ymarfer piano.** — *I didn't like practising the piano.*

**O't ti'n hoffi cinio ysgol?** — *Did you like school dinners?*
**O't ti'n hoffi gwaith cartref?** — *Did you like homework?*
**O't ti'n hoffi ymarfer corff?** — *Did you like P.E.?*
**O't ti'n hoffi canu yn y côr?** — *Did you like singing in the choir?*

**O'n.** ✔ **Nac o'n.** ✗

**Beth o't ti'n lico?**
Ysgrifennwch ateb (e.e. Ro'n i'n lico mynd i'r ysgol / Do'n i ddim yn lico mynd i'r ysgol) a holwch *(ask)* eich partner.


| | |
|---|---|
| **helpu yn y tŷ** | |
|  | |
| **gwneud gwaith cartre** | |
|  | |
| **mynd i'r sŵ** | |
|  | |
| **mynd at y deintydd** | |
|  | |


**Ro'n i'n (arfer) gwylio *Blue Peter*.** — *I used to watch Blue Peter.*
**Ro'n i'n (arfer) darllen y *Beano*.** — *I used to read the Beano.*
**Ro'n i'n (arfer) chwarae hoci.** — *I used to play hockey.*
**Ro'n i'n (arfer) mynd i Lanelli.** — *I used to go to Llanelli.*

**Dw i wedi ymddeol nawr.** — *I have retired now.*
Ond...
**Ro'n i'n gweithio mewn canolfan siopa.** *I used to work in a shopping centre.*
**Ro'n i'n gweithio mewn ffatri.** — *I used to work in a factory.*
**Ro'n i'n gweithio mewn amgueddfa.** *I used to work in a museum.*
**Ro'n i'n gweithio mewn bwyty.** — *I used to work in a restaurant.*

**Ro'n ni'n gweithio yn Ysbyty Singleton.** — *We used to work in Singleton Hospital.*
**Ro'n ni'n gweithio yn y Cyngor Sir.** — *We used to work in the County Council.*
**Ro'n nhw'n gweithio yn y coleg.** — *They used to work in the college.*
**Ro'n nhw'n gweithio yn y parc busnes.** — *They used to work in the business park.*

**Ble ro'ch chi'n gweithio o'r blaen?** — *Where were you working before?*
**Ble ro'n nhw'n gweithio o'r blaen?** — *Where were they working before?*


Dis 1


Dis 2

| | |
|---|---|
| **1- fi** | **1 - trist** |
| **2 - ti** | **2 - hapus** |
| **3 – fe/hi** | **3 - tost** |
| **4 - ni** | **4 - oer** |
| **5 - chi** | **5 - prysur** |
| **6 - nhw** | **6 - diog** |

# Ffeindiwch yr ateb!

| | |
|---|---|
| **O't ti'n arfer byw mewn fflat?** | O'n. |
| **Oedd yr athrawes yn gwybod yr ateb?** | O'n. |
| **Oedd y swyddfa'n brysur?** | Nac o'n. |
| **O't ti'n hoffi mathemateg?** | Oedd. |
| **O'n nhw'n gweithio dydd Sadwrn?** | Nac oedd. |
| **O'ch chi'n gwybod?** | Oedd. |
| **O'n nhw'n oer yn y Sahara?** | O'n. |
| **Oedd Gareth yn chwarae neithiwr?** | Nac o'n. |

| | |
|---|---|
| **Ro'n i'n gwybod.** | *I knew.* |
| **Ro'n i'n nabod John.** | *I knew John.* |
| **Ro'n i'n meddwl.** | *I thought (so).* |
| **Ro'n i'n gobeithio.** | *I hoped (so).* |
| **Ro'n i eisiau.** | *I wanted.* |

## Sgwrs 1

**Chris:** Ble dych chi'n byw nawr?
**Pat:** Dw i'n byw ym Margoed.
**Chris:** Wel, wel! Dw i'n byw ym Margoed hefyd. Byd bach.
**Pat:** Dych chi'n lico Bargoed?
**Chris:** Ydw. Ro'n i eisiau byw yng Nghaerffili ond dw i'n lico Bargoed yn fawr.
**Pat:** Ble ro'ch chi'n byw cyn symud i Fargoed?
**Chris:** Ro'n i'n byw yn y Barri.
**Pat:** Wel, wel, do'n i ddim yn byw yn bell. Ro'n i'n byw ym Mhenarth pan o'n i'n blentyn.
**Chris:** Ble dych chi'n gweithio nawr?
**Pat:** Dw i'n gweithio yn Ysbyty Neville Hall yn y Fenni. Dw i'n nyrsio.
**Chris:** Wel, dw i wedi ymddeol.
**Pat:** Lwcus iawn. Ble ro'ch chi'n gweithio cyn ymddeol?
**Chris:** Ro'n i'n gweithio gyda'r Cyngor Sir. Ro'n i'n trwsio'r ffyrdd. A ble ro'ch chi'n gweithio cyn yr ysbyty?
**Pat:** Do'n i ddim yn gweithio. Ro'n i yn y coleg yng Nghaerdydd.
**Chris:** Braf iawn!

## Sgwrs 2

**A:** Rhys?
**B:** Yn siarad.
**A:** Pennaeth yr ysgol yma. Pam dwyt ti ddim yn yr ysgol ar hyn o bryd?
**B:** Roedd annwyd arna i dydd Llun a dydd Mawrth.
**A:** Est ti i'r feddygfa i gael papur doctor?
**B:** Naddo. Ro'n i'n well dydd Mercher, ond roedd apwyntiad deintydd gyda fi dydd Mercher.
**A:** Trwy'r dydd?
**B:** Ie. Mae'r deintydd ym Mryste.
**A:** Pam do't ti ddim yn yr ysgol dydd Iau?
**B:** Doedd y ci ddim yn dda. Roedd bola tost gyda fe.
**A:** Pam dwyt ti ddim yn yr ysgol heddiw?
**B:** Do'n i ddim yn deall y gwaith. Do'n i ddim eisiau teimlo fel ffŵl yn y dosbarth.
**A:** Wyt ti'n dod i'r ysgol dydd Llun?
**B:** Ydw.
**A:** Da iawn. Dw i ddim eisiau talu am athro cyflenwi eto yr wythnos nesa.

## Ynganu – Enwau llefydd *(Place names)* Pwyslais! *Stress!*

**Ar y sillaf olaf ond un /** *On the last syllable but one.*

**Fflint / Conwy / Caernarfon / Caerffili / Casnewydd / Cydweli / Llandeilo / Aberystwyth / Abertawe / Aberteifi / Dolwyddelan / Aberhonddu**

**OND – Caerdydd –** *stress on* dydd – *2 words* **= caer + dydd.**

Mae castell yn y lleoedd yma i gyd.
Felly, gyda eich partner dwedwch:
**Gwelais i gastell yn/yng...**

## Robin Radio:

**a) Atebwch:**

Gyda phwy mae Robin yn siarad?

Ble roedd hi'n gweithio?

Sut mae'r ffordd o'r castell i Fryncastell mewn eira?

**b) Gwrandewch am:**

ger y castell — *near the castle*
ddim yn bell — *not far*
Ydy hi'n bwrw eira'n aml? — *Does it snow often?*

**c) Cyfieithwch:**

*I was able to walk to the castle.*

*every winter*

*at the seaside*

# Help llaw

**1. Y Treiglad Trwynol/***Nasal Mutation*

*This change happens after the preposition* **yn** *meaning 'in'.*

| | |
|---|---|
| **T > yn Nh** | **D > yn N** |
| **C > yng Ngh** | **G > yng Ng** |
| **P > ym Mh** | **B > ym M** |

*It does occur in other contexts, but not as often as the soft mutation. Write a place name you can associate with in the gaps above.*

**2**. *Notice how the word* **yn** *itself changes.*
**3.** *There is no mutation after* **mewn** *(in a….)* Dw i'n gweithio mewn coleg.
**4.** *Here is the imperfect tense of* **bod***.*

| **Cadarnhaol/ *Affirmative*** | **Cwestiwn/ *Question*** | **Negyddol/ *Negative*** | **Atebion/ *Answers*** |
|---|---|---|---|
| Ro'n i* | O'n i? | Do'n i ddim | O'n/Nac o'n |
| Ro't ti* | O't ti? | Do't ti ddim | O't/Nac o't |
| Roedd e/hi | Oedd e/hi? | Doedd e/hi ddim | Oedd/Nac oedd |
| Ro'n ni* | O'n ni? | Do'n ni ddim | O'n/Nac o'n |
| Ro'ch chi* | O'ch chi? | Do'ch chi ddim | O'ch/Nac o'ch |
| Ro'n nhw* | O'n nhw? | Do'n nhw ddim | O'n/Nac o'n |

** you will also see* **Roeddwn i, Roeddet ti, Roedden ni, Roeddech chi, Roedden nhw.**

**5.** *This tense refers to things we did often in the past, rather than a one-off activity. Compare the following:*

| | |
|---|---|
| **Cerddais i'r ysgol ddoe. Gwelais i'r bws ysgol.** | *I walked to school yesterday. I saw the school bus.* |
| **Ro'n i'n cerdded i'r ysgol ddoe pan welais i'r bws ysgol.** | *I was walking to school yesterday when I saw the school bus.* |
| **Ro'n i'n cerdded i'r ysgol pan o'n i'n blentyn.** | *I walked to school when I was a child.* |
| **Ble ro't ti pan alwodd y bòs?** | *Where were you when the boss called?* |
| **Ro'n i'n cerdded i'r gwaith.** | *I was walking to work.* |

**6.** *You are familiar with the expression* **fel arfer** *= usually, as usual. We now see* **arfer** *to express something you used to do. However, we don't have to use it. Using the imperfect conveys the same meaning.* **Ro'n i'n arfer gweithio yn yr ysbyty.** *– I used to work in the hospital.*

**7.** *We always use the imperfect with the following:*
**Ro'n i'n hoffi/lico** ________ *I liked*
**Ro'n i'n gwybod/nabod** ________ *I knew*
**Ro'n i eisiau** ________ *I wanted*

**8.** *We usually use the imperfect with adjectives:*
**Ro'n i'n brysur.**
**Roedd hi'n oer.**

**9.** *The stem of* **galw** *is* **galw:**
**galwais i** ________ *I called*

# Uned 15 (un deg pump) – Siarad wyneb yn wyneb.

**Nod: Ymarfer siarad wyneb yn wyneb ac adolygu unedau 8–14/** *Practising speaking face to face and revising units 8–14.* (Dw i wedi, arall)

## Geirfa

| | | | |
|---|---|---|---|
| **gwers(i)** | *lesson(s)* | **Nos Galan** | *New Year's Eve* |
| **llinell(au)** | *line(s)* | **taith (teithiau)** | *journey(s)* |
| **awdur(on)** | *author(s)* | **llyfrgellydd (llyfrgellwyr)** | *librarian(s)* |
| **dant (dannedd)** | *tooth (teeth)* | **wyneb(au)** | *face(s)* |
| **dewis(iadau)** | *choice(s)* | | |
| **anghofio** | *to forget* | **trafod** | *to discuss* |
| **archebu** | *to order* | **ysgrifennu** | *to write* |
| **annwyl** | *dear* | **hir** | *long* |
| **buan** | *soon* | **rhyfedd** | *strange, funny* |
| **bobl bach!** | *good grief!* | **hyn** | *this* |

Geiriau pwysig i fi


× ..........
× ..........
× ..........
× ..........
× ..........
× ..........

# Gêm o gardiau

| | ♠ | ♦ | ♣ | ♥ |
|---|---|---|---|---|
| **A** | Ble ro'ch chi'n byw yn 2007? | Ble aethoch chi i'r ysgol? | Beth yw'ch gwaith chi? | Sut roedd y tywydd ddoe? |
| **2** | Ble aethoch chi i siopa yr wythnos diwetha? | Pryd codoch chi y bore 'ma? | Beth gest ti i frecwast heddiw? | Beth wnaethoch chi ddoe? |
| **3** | Oes beic gyda chi? | Ble aethoch chi ar wyliau ddiwetha? | Dych chi'n darllen y dudalen chwaraeon yn y papur newydd? | Oes cyfrifiadur gyda chi? |
| **4** | Oedd hi'n braf dydd Sadwrn? | Sut ro't ti'n arfer mynd i'r ysgol? | Beth dych chi'n wneud y penwythnos nesa? | Aethoch chi i'r coleg? |
| **5** | Oes anifeiliaid anwes gyda chi? | Beth dych chi'n hoffi ar y teledu? | Oes amser gyda chi i siopa heddiw? | Oes teulu gyda chi? |
| **6** | Oedd anifail anwes gyda chi pan o'ch chi'n blentyn? | Beth o'ch chi'n lico wneud pan o'ch chi'n blentyn? | Ble aethoch chi i siopa Nadolig? | Beth brynoch chi ddiwetha? |
| **7** | Beth weloch chi ar y teledu neithiwr? | Beth gest ti i ginio dydd Sul? | Faint o'r gloch est ti i'r gwely neithiwr? | Ble ro'ch chi Nos Galan ddiwethaf? |
| **8** | Oes car gwyrdd gyda chi? | Sut mae'r tywydd heddiw? | Pwy oedd yn y newyddion yr wythnos diwetha? | Beth oedd ar y teledu yr wythnos diwetha? |
| **9** | Ble ro'ch chi'n arfer gweithio? | Beth do't ti ddim yn lico wneud pan o't ti'n blentyn? | Ble ro't ti'n mynd ar wyliau pan o't ti'n blentyn? | Ble ro'ch chi dydd Nadolig? |
| **10** | Beth gawsoch chi i swper nos Sadwrn? | Beth weloch chi yn y sinema ddiwetha? | Ble gwnaethoch chi fwyta mas ddiwetha? | Ble dych chi'n byw? |
| **Jac** | O't ti'n lico nofio pan o't ti'n blentyn? | Beth o't ti'n hoffi ddarllen pan o't ti'n blentyn? | Beth do't ti ddim yn lico fwyta pan o't ti'n blentyn? | Aethoch chi am dro dros y penwythnos? |
| **Brenhines** | Wnaethoch chi smwddio neithiwr? | Gawsoch chi baned o goffi y bore 'ma? | Tua faint o'r gloch gadawaist ti'r tŷ y bore 'ma? | Est ti i'r capel/ eglwys/mosg dros y penwythnos? |
| **Brenin** | Wnest ti arddio dros y penwythnos? | Siaradaist ti Gymraeg gyda rhywun echdoe? | Ble est ti i lan y môr ddiwetha? | O ble dych chi'n dod yn wreiddiol? |

## Sgwrs 1 – Yn y swyddfa

**Chris:** Bore da. Wyt ti eisiau paned?
**Jo:** Coffi du, plîs. Dw i angen caffîn. Roedd y traffig yn ofnadwy y bore 'ma.
**Chris:** Sut aeth y cyfarfod tîm ddoe?
**Jo:** Da iawn. Trafodon ni'r cyfarfod mawr nesa gyda'r staff. 'Dyn ni'n mynd i gael y cyfarfod ym Mhontypridd.
**Chris:** Pryd?
**Jo:** Y mis nesa, gobeithio. Beth wyt ti'n wneud heddiw?
**Chris:** Dw i yn y swyddfa y bore 'ma. Dw i eisiau ateb ebost gan y bòs. Ond mae dau gyfarfod gyda fi y prynhawn 'ma.
**Jo:** Dw i wedi ateb pob ebost. Gwnes i nhw neithiwr. Dw i'n mynd i ysgrifennu papur heddiw.
**Chris:** Reit, coffi!



## Wedi

**Dw i wedi ateb pob ebost.** — *I have answered every email.*

**Dw i wedi darllen llyfr Harry Potter.** — *I have read a Harry Potter book.*
**Dw i wedi gweld ffilm James Bond.** — *I have seen a James Bond film.*
**Dw i wedi bwyta sushi.** — *I have eaten sushi.*
**Dw i wedi bod yn y gwaith.** — *I have been in work.*

**Dw i ddim wedi chwarae golff.** — *I haven't played golf.*
**Dw i ddim wedi canu carioci.** — *I haven't sung karaoke.*
**Dw i ddim wedi bod yn Las Vegas.** — *I haven't been in Las Vegas.*
**Dw i ddim wedi nofio yn y Caribî.** — *I haven't swum in the Caribbean.*

**Wyt ti wedi blino?** — *Are you tired?*
**Wyt ti wedi cael brecwast?** — *Have you had breakfast?*
**Wyt ti wedi cael swydd newydd?** — *Have you had a new job?*
**Wyt ti wedi ymddeol?** — *Have you retired?*

**Ydw.** ✔ **Nac ydw.** ✗

## Llongau rhyfel

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| yfed llaeth soia | gweld gêm hoci iâ | yfed te gwyrdd | gweld ffilm 3D | bod yn Iwerddon | gweld gêm pêl-droed America |
| dawnsio tango | bwyta cyrri madras | canu blŵs | yfed lemonêd pinc | darllen Hello! | bwyta cig cangarŵ |
| bwyta cig crocodeil | canu carioci | dawnsio llinell | byw mewn fflat | gyrru Ferrari | gweithio mewn ffatri |
| gweld The Sound of Music | bwyta sushi | gyrru tractor | gweld Hamlet | chwarae pêl-droed | bod yn Lerpwl |

## Sgwrs 2 – Yn y llyfrgell

**Llyfrgellydd:** Prynhawn da.

**Eryl:** Prynhawn da. Dw i eisiau benthyg *Teithiau Cerdded Cymru* gan Eryl Hughes. Oes copi gyda chi, os gwelwch chi'n dda? Dw i ddim yn gallu gweld dim byd ar y silff.

**Llyfrgellydd:** Roedd dau gopi gyda ni ddoe. Un funud – dw i'n gallu edrych ar y cyfrifiadur.

**Eryl:** Diolch. Roedd darn yn *Lingo* am y llyfr.

**Llyfrgellydd:** A, dyma ni. Cafodd rhywun arall y ddau gopi ddoe. Dw i'n gallu cael copi o lyfrgell arall i chi.

**Eryl:** Diolch yn fawr iawn.

**Llyfrgellydd:** Dim problem. Beth yw eich rhif llyfrgell?

**Eryl:** EBCS3987.

**Llyfrgellydd:** Beth yw'r enw?

**Eryl:** Eryl Hughes.

**Llyfrgellydd:** Mae hyn yn rhyfedd, dyna enw'r awdur.

**Eryl:** Ie, fi yw'r awdur!

**Llyfrgellydd:** Wel, un cwestiwn arall. Dych chi'n defnyddio ebost?

**Eryl:** Ydw. Eryl.hughes33@llanaber.cymru.

**Llyfrgellydd:** Iawn. Dw i'n gallu anfon ebost pan mae'r llyfr yn cyrraedd.

**Eryl:** Diolch yn fawr. Hwyl!

**Arall** - *another*

Ffeindiwch y tri **arall** yn y ddeialog ac ysgrifennwch y brawddegau *(sentences)* yma:

1. ..........

2. ..........

3. ..........

**Ymarfer:**

**Dw i wedi cael llyfr arall.** ——— *I have had another book.*

**Dw i wedi cael llythyr arall.** ——— *I have had another letter.*

**Dw i wedi cael cerdyn arall.** ——— *I have had another card.*

**Dw i wedi cael diod arall.** ——— *I have had another drink.*

Ysgrifennwch bum cwestiwn i blentyn gydag **arall**.
e.e. Wyt ti eisiau diod arall?

1. ..........

2. ..........

3. ..........

4. ..........

5. ..........

## Misoedd y flwyddyn

| | | | |
|---|---|---|---|
| mis Ionawr | mis Chwefror | mis Mawrth | mis Ebrill |
| mis Mai | mis Mehefin | mis Gorffennaf | mis Awst |
| mis Medi | mis Hydref | mis Tachwedd | mis Rhagfyr |

## Sgwrs 3

**Derbynnydd:** Bore da, gaf i helpu?
**Chris:** Bore da. Mae problem gyda fi.
**Derbynnydd:** Ydy'r ddannodd arnoch chi?
**Chris:** Nac ydy, ond anghofiais i ddod i apwyntiad ddoe.
**Derbynnydd:** Beth yw'r enw?
**Chris:** Chris Jones.
**Derbynnydd:** Gyda phwy roedd yr apwyntiad?
**Chris:** Gyda Mrs Dent.
**Derbynnydd:** Pryd roedd yr apwyntiad?
**Chris:** Bore ddoe am un ar ddeg.
**Derbynnydd:** Un funud – o ie, mae nodyn ar y cyfrifiadur. Roedd hi'n aros am chwarter awr...
**Chris:** Wel, mae'n ddrwg gyda fi... Gaf i apwyntiad arall?
**Derbynnydd:** Pryd?
**Chris:** Cyn bo hir, os gwelwch chi'n dda.

**Derbynnydd:** Mae'n ddrwg gyda fi, does dim apwyntiad arall gyda Mrs Dent tan fis Awst. Dych chi eisiau gweld deintydd arall?

**Chris:** Does dim dewis gyda fi, felly.

**Derbynnydd:** Iawn, apwyntiad gyda Mr Dent.

**Chris:** O... dim diolch, ces i boen ofnadwy ar ôl gweld Mr Dent. Gaf i apwyntiad gyda Mrs Dent ym mis Awst?


**Derbynnydd:** Ydy Awst y cyntaf am hanner awr wedi deg yn iawn?

**Chris:** Wel... ydy, iawn. Hwyl!

**Derbynnydd:** Gwela i chi ym mis Awst. Hwyl!



## Robin Radio:



**a) Atebwch:**

Ble aeth Llinos dros y penwythnos? ..............................................

Ble bwytodd hi? ..............................................

Beth wnaeth hi ar ôl bwyd? ..............................................



**b) Gwrandewch am:**

Pwy enillodd? ________ *Who won?*
Beth wnaethoch chi wedyn? ________ *What did you do then?*
mewn clwb nos ________ *in a night club*

**c) Cyfieithwch:**

*Who won?* ..............................................

*We heard a group.* ..............................................

*Did you have fun?* ..............................................

## Adolygu Atebion *(Yes and No Revision)*

| | | |
|---|---|---|
| Wnest ti'r gwaith? | **Do. / Naddo.** | **Uned 9** |
| Brynaist ti fara? | **Do. / Naddo.** | **Uned 9** |
| Aethoch chi ar wyliau llynedd? | **Do. / Naddo.** | **Uned 10** |
| Aeth Gwen i'r gwaith? | **Do. / Naddo.** | **Uned 10** |
| Gest ti frecwast heddiw? | **Do. / Naddo.** | **Uned 11** |
| Gafodd / Gaeth y teulu amser da yn Sbaen? | **Do. / Naddo.** | **Uned 11** |
| Oes anifail anwes gyda ti? | **Oes. / Nac oes.** | **Uned 12** |
| Oes car gwyrdd gyda Gareth? | **Oes. / Nac oes.** | **Uned 12** |
| Oedd hi'n braf ddoe? | **Oedd. / Nac oedd.** | **Uned 13** |
| Oedd pen tost gyda ti? | **Oedd. / Nac oedd.** | **Uned 13** |
| O't ti'n brysur ddoe? | **O'n. / Nac o'n.** | **Uned 14** |
| O'n i'n iawn? | **O't. / Nac o't.** | **Uned 14** |
| O'ch chi yma yr wythnos diwetha? | **O'n. / Nac o'n.** | **Uned 14** |
| O'n ni yn y parti? | **O'ch. / Nac o'ch.** | **Uned 14** |
| O'n nhw'n hapus? | **O'n. / Nac o'n.** | **Uned 14** |
| Wyt ti wedi adolygu? | **Ydw. / Nac ydw.** | **Uned 15** |

## Sgwrs 4

**A:** Helô, cariad; croeso adre. Gest ti ddiwrnod da yn y gwaith?
**B:** Naddo.
**A:** Trueni. O't ti'n brysur ofnadwy?
**B:** O'n.
**A:** Oedd y staff yn grac eto heddiw?
**B:** O'n.
**A:** Est ti mas amser cinio?
**B:** Naddo.
**A:** Gest ti frechdan yn y swyddfa?
**B:** Do.
**A:** Wyt ti eisiau bwyd?
**B:** Ydw.
**A:** Ydy stêc yn iawn?
**B:** Ydy.
**A:** Beth wyt ti eisiau gyda fe? Tatws neu sglodion?
**B:** Ie.
**A:** Llysiau neu salad?
**B:** Ie.
**A:** Bobl bach! Dw i'n siarad â'r wal!

## Help llaw

**1.** Yn Uned 15, *we have another past tense –* ***the perfect tense****:*

| | |
|---|---|
| **Darllenais i** | *I read* |
| **Ro'n i'n darllen** | *I was reading* |
| **Dw i wedi darllen** | *I have read* |

**2**. *The perfect tense is very similar to the present tense,* **yn** *is replaced by* **wedi***.*

| | |
|---|---|
| **Dw i'n darllen** | **Dw i wedi darllen** |
| **Rwyt ti'n darllen** | **Rwyt ti wedi darllen** |
| **Mae e/hi'n darllen** | **Mae e/hi wedi darllen** |
| **'Dyn ni'n darllen** | **'Dyn ni wedi darllen** |
| **Dych chi'n darllen** | **Dych chi wedi darllen** |
| **Maen nhw'n darllen** | **Maen nhw wedi darllen** |

# Syniad da!

**Syniad da! – Mentrau Iaith**

Mae 22 Menter Iaith (*Language Initiatives*) yng Nghymru. Edrychwch ar y map. Maen nhw yna i helpu pobl i fwynhau'r Gymraeg.

*Their aim is to enable people of all ages to use Welsh in their communities and to socialise through the medium of Welsh. They arrange various activities for fluent Welsh speakers and Welsh learners, such as concerts, trips, quizzes, drama clubs for children, art and yoga sessions. Why not search online for your local* Menter Iaith? *As well as practising your Welsh, you can meet new friends and develop new skills.*



# Uned 16 (un deg chwech) – Rhifau, Amser ac Arian

**Nod: Siarad am amser ac arian/** *Talking about time and money*
(Faint o'r gloch yw hi?, y cloc, Faint yw...?, arian)

## Geirfa

| | |
|---|---|
| **Ffrainc** | *France* |
| **mil(oedd)** | *thousand(s)* |
| **pysen (pys)** | *pea(s)* |

| | |
|---|---|
| **cwm (cymoedd)** | *valley(s)* |
| **cwmni (cwmnïau)** | *company (companies)* |
| **chwarter(i)** | *quarter(s)* |
| **menyn** | *butter* |
| **pensil(iau)** | *pencil(s)* |
| **newyddion** | *news* |
| **ugain** | *twenty* |

| | |
|---|---|
| **cymryd** | *to take* |
| **cynnwys** | *to include* |
| **ffermio** | *to farm* |
| **perfformio** | *to perform* |
| **sgorio** | *to score* |
| **trefnu** | *to organise* |
| **troi** | *to turn* |

| | |
|---|---|
| **drwg** | *bad* |

| | |
|---|---|
| **digon** | *enough* |
| **hynny** | *that* |
| **o'r gorau** | *ok, all right* |
| **rhy** | *too* |
| **tan** | *until* |
| **yn erbyn** | *against* |
| **yn ôl** | *back, ago; according to* |
| **yn unig** | *only* |

Geiriau pwysig i fi

..................................... ..................................... 
× ..................................... × .....................................
× ..................................... × .....................................

# Amser




**Faint o'r gloch yw hi?** — *What time is it?*

**Mae hi'n un o'r gloch.** — *It is one o'clock.*
**Mae hi'n ddau o'r gloch.** — *It is two o'clock.*
**Mae hi'n dri o'r gloch.** — *It is three o'clock.*
**Mae hi'n bedwar o'r gloch.** — *It is four o'clock.*



**pum munud i ddau**
**deg munud i ddau**
**chwarter i ddau**
**ugain munud i ddau**
**pum munud ar hugain i ddau**

**o'r gloch**



**hanner awr wedi dau**

**pum munud wedi dau**
**deg munud wedi dau**
**chwarter wedi dau**
**ugain munud wedi dau**
**pum munud ar hugain wedi dau**



| | |
|---|---|
| **Faint o'r gloch mae'r dosbarth yn dechrau? Saith o'r gloch.** | *What time does the class start? Seven o'clock.* |
| **Faint o'r gloch mae'r dosbarth yn gorffen? Naw o'r gloch.** | *What time does the class finish? Nine o'clock.* |
| **Faint o'r gloch mae'r gêm yn dechrau? Tri o'r gloch.** | *What time does the game start? Three o'clock.* |
| **Faint o'r gloch mae'r gêm yn gorffen? Chwarter i bump.** | *What time does the game finish? Quarter to five.* |

S4C

**Partner A**

| Dechrau | Rhaglen |
|---|---|
| 06:00 | Cyw |
| | Cegin Bryn |
| 13:00 | Newyddion amser cinio |
| | Tywydd amser cinio |
| 13:15 | Prynhawn da |
| | Ffermio |
| 16:00 | Awr Fawr |
| | Stwnsh |
| 18:00 | Newyddion amser te |
| | Tywydd amser te |
| 18:20 | O'r Eisteddfod |
| 19:00 | Heno |
| | Newyddion |
| 20:00 | Pobol y Cwm |
| | Garddio a Mwy |
| | Y Byd ar Bedwar |
| 21:30 | Sgorio |
| 22:45 | Y Clwb Rygbi |



S4/C
**Partner B**

| Dechrau | Rhaglen |
|---|---|
| | Cyw |
| 12:00 | Cegin Bryn |
| | Newyddion amser cinio |
| 13:10 | Tywydd amser cinio |
| | Prynhawn da |
| 15:00 | Ffermio |
| | Awr Fawr |
| 17:00 | Stwnsh |
| | Newyddion amser te |
| 18:15 | Tywydd amser te |
| | O'r Eisteddfod |
| | Heno |
| 19:30 | Newyddion |
| | Pobol y Cwm |
| 20:30 | Garddio a Mwy |
| 21:00 | Y Byd ar Bedwar |
| | Sgorio |
| | Y Clwb Rygbi |

**Codais i am hanner awr wedi chwech.** — *I got up at half past six.*

**Gadawais i'r tŷ am hanner awr wedi saith.** — *I left the house at half past seven.*

**Cyrhaeddais i adre am bump o'r gloch.** — *I arrived home at five o'clock.*

**Es i i'r gwely am ddeg o'r gloch.** — *I went to bed at ten o'clock.*



| | |
|---|---|
| **Faint o'r gloch codaist ti ddoe?** | *What time did you get up yesterday?* |
| **Faint o'r gloch gadawaist ti'r tŷ?** | *What time did you leave the house?* |
| **Faint o'r gloch cyrhaeddaist ti adre?** | *What time did you arrive home?* |
| **Faint o'r gloch est ti i'r gwely neithiwr?** | *What time did you go to bed last night?* |

| Enw | codi | gadael y tŷ | cyrraedd adre | mynd i'r gwely |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

## Arian

**Punt / ceiniog**
**Dwy bunt / geiniog**
**Tair punt / ceiniog**
**Pedair punt / ceiniog**
**Pum punt / ceiniog**
**Chwe phunt / cheiniog**
**Saith punt / ceiniog**
**Wyth punt / ceiniog**
**Naw punt / ceiniog**
**Deg punt / ceiniog**
**Ugain punt / ceiniog**
**Dau ddeg saith punt / ceiniog**

**Faint yw'r gacen?** — *How much is the cake?*
**Punt.** *A pound.*
**Faint yw'r gwyliau?** — *How much is the holiday?*
**Pum can punt.** *£500.*
**Faint yw'r car?** — *How much is the car?*
**Pum mil o bunnau.** *£5,000.*
**Faint yw'r garafán?** — *How much is the caravan?*
**Ugain mil (o bunnau).** *£20,000.*

**Cofiwch –**
Rhad / Drud iawn!

## Prisiau Tesburys

| Partner A | |
|---|---|
| Tatws newydd | **£1** |
| Siocled poeth | |
| Bisgedi | **90c** |
| Pensiliau lliw | **£3** |
| Llyfr lliwio | |
| Moron | |
| Pys mewn tun | **30c** |
| Menyn | |
| Afalau | **£2.99** |
| Cacen Pen-blwydd | |

| Partner B | |
|---|---|
| Tatws newydd | |
| Siocled poeth | **£1.50** |
| Bisgedi | |
| Pensiliau lliw | |
| Llyfr lliwio | **£1.50** |
| Moron | **40c** |
| Pys mewn tun | |
| Menyn | **£1.15** |
| Afalau | |
| Cacen Pen-blwydd | **£4.50** |

## Amserau a phrisiau

**Gwrandewch am yr amserau a'r prisiau.**

| **Beth?** | **Amser dechrau** Defnyddiwch rifau/*Use numbers* | **Pris** Defnyddiwch rifau/*Use numbers* |
|---|---|---|
| Cyngerdd | | |
| Parti | | |
| Cwrs Sbaeneg | | |
| Clwb Dawnsio | | |
| Cadw'n Heini | | |

## Sgwrs yn y Siop

**Ceri:** Faint yw'r llyfr yna, os gwelwch chi'n dda?
**Sam:** Pedair punt naw deg naw.
**Ceri:** Ddim yn rhy ddrwg. Gaf i brynu un, os gwelwch chi'n dda?
**Sam:** Wrth gwrs. Dyma chi. Pedair punt naw deg naw, os gwelwch chi'n dda.
**Ceri:** A faint yw'r calendr?
**Sam:** Dim ond dwy bunt pum deg!
**Ceri:** Mae hynny'n dda. Gaf i ddau, os gwelwch chi'n dda?
**Sam:** Dyma chi. Naw punt naw deg naw.
**Ceri:** O, mae'n ddrwg gyda fi, does dim digon o arian gyda fi...Dych chi'n cymryd cerdyn?
**Sam:** Ydyn, wrth gwrs.
**Ceri:** Pam wnaethoch chi ddim dweud?
**Sam:** Wnaethoch chi ddim gofyn!

## Ymarfer – Rhy

**Ydy'r bwyd yn ddrud?** **Nac ydy, ddim yn rhy ddrud.**

**Ydy'r tywydd yn ddrwg?** ........................................

**Ydy'r coffi'n boeth?** ........................................

**Ydy'r te'n oer?** ........................................

**Ydy'r gwaith yn ddiflas?** ........................................


**Ydy'r bòs yn ddiog?** ........................................

## Ynganu

Dwedwch y brawddegau yma wrth eich partner, bob yn ail.

**Dw i'n darllen llyfrau Llinos.**
**Mae chwe chwaer yn chwarae cardiau.**
**Llwyd yw lliw'r llyfrau yn y llyfrgell.**
**Dw i'n gweithio mewn gwesty gwely a brecwast.**

## Llyfrau Amdani




Dych chi nawr yn gallu darllen *Gorau Glas* gan Lois Arnold. Dych chi'n gallu prynu'r llyfr o'ch siop lyfrau leol neu ar gwales.com. Dyma'r clawr (*cover*) a'r paragraff cynta:


Shwmae! Alix dw i. Dw i'n 23 oed. Dw i'n byw yn Aberglas.

Dw i ddim yn enwog. Person bach dw i (dim ond 5' 1"!).

Ond bob dydd dw i'n gwisgo iwnifform. Yna dw i'n codi'r radio, y cyffion, y camera, y tortsh a'r ffôn.

Person newydd dw i nawr. Alix Jenkins, Heddlu Aberglas, yn mynd ar batrôl!

## Robin Radio



**a) Atebwch**

Ble mae'r cyngerdd? ..............................................................................

Pryd mae'r cyngerdd? ..........................................................................

Pam mae Anti Mair eisiau mynd? ......................................................



**b) Gwrandewch am:**

Sut gallwn ni helpu? ——— *How can we help?*
bargen go iawn ——— *a real bargain*
Diolch am eich help. ——— *Thank you for your help.*

**c) Cyfieithwch:**

*We are organising a bus.* ..........................................................................................

*We can share the bus.* ..............................................................................................

*I want to hear the choir again.* .................................................................................

## Help llaw

**1.** *It is important, as always, to remember to use the soft mutation after* **i**, *e.g.* **chwarter i bedwar.** *We also see it here after* **am**, *e.g.* **am bump o'r gloch**.

**2.** *As with the weather, we use the feminine pronoun when referring to time, e.g.* **Faint o'r gloch yw hi? Mae hi'n bump o'r gloch.**

**3.** *The number following* **yn** *takes the* **treiglad meddal:**
**Mae hi'n bump o'r gloch.**
**Mae hi'n ddeuddeg o'r gloch.**

**4.** *The older forms of the numbers 20 and 25 are used when telling the time:*
**20 = ugain**
**25 = pump ar hugain** *(literally five on twenty)*

**5.** *Also, note the placing of the words* **awr** *and* **munud** *in the middle of the number:*
**pum munud ar hugain**
**pedair awr ar hugain** *(24 hours)*
*The reason for adding the letter* **h** *will be explained later.*

**6.** *Money.*

**Punt** *and* **ceiniog** *are both feminine nouns.*
*The numbers two, three and four have feminine forms (see* Unedau 7 a 12*) =*
**dwy, tair + pedair.**
*Remember to change the numbers accordingly.*

**7. Tri a Chwe**
*The* **treiglad llaes** *(aspirate mutation) follows* **tri** *and* **chwe**:

| | |
|---|---|
| **tri theulu** | **chwe theulu** |
| **tri chant** | **chwe chant** |
| **tri phlentyn** | **chwe phlentyn** |

**8.** Yn y ddeialog, dych chi'n gweld **ddim yn rhy ddrwg. Rhy** *always comes before the adjective and causes a* **treiglad meddal (drwg > rhy ddrwg).**

**9.** Bôn anodd/*A difficult stem*:
**cymryd** **cymer-** **cymerais i**

# Uned 17 (un deg saith) – Bydd hi'n braf yfory

**Nod: Siarad am ddigwyddiadau yn y dyfodol/***Speaking about events in the future*
(bydda i, bydd e/hi)

---

## Geirfa

| | | | |
|---|---|---|---|
| **cystadleuaeth (cystadlaethau)** | *competition(s)* | **noson** | *evening* |
| **ffair** | *fair* | **ochr(au)** | *side(s)* |
| **Gwlad yr Iâ** | *Iceland* | **seren (sêr)** | *star(s)* |
| **hysbyseb(ion)** | *advert(s)* | **yr Wyddfa** | *Snowdon* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **bar(iau)** | *bar(s)* | **pensiwn** | *pension* |
| **lled** | *width* | **pensiynwr (-wyr)** | *pensioner(s)* |
| **maes (meysydd)** | *field(s)* | **trydan** | *electricity* |
| **mynediad** | *entry* | | |
| **oedolyn (oedolion)** | *adult(s)* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **cefnogi** | *to support* | **gwenu (ar)** | *to smile (at)* |
| **chwerthin** | *to laugh* | **poeni** | *to worry* |
| **digwydd** | *to happen* | **torri** | *to break, to cut* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **cynnes** | *warm* | **niwlog** | *foggy, misty* |
| **di-waith** | *unemployed* | **posib** | *possible* |
| **hawdd** | *easy, simple* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **ar werth** | *for sale* | **ledled** | *throughout* |
| **dim ond** | *only* | **unrhyw** | *any* |

Geiriau pwysig i fi

× ..................................... × .....................................

× ..................................... × .....................................


**Mae hi'n braf heddiw.** — *It's fine today.*
**Roedd hi'n braf ddoe.** — *It was fine yesterday.*
**Bydd hi'n braf heno.** — *It will be fine tonight.*
**Bydd hi'n bwrw eira yfory.** — *It will be snowing tomorrow.*


**Sut bydd y tywydd yfory?** — *How will the weather be tomorrow?*
**Fydd hi'n bwrw glaw ym Mlaenau Ffestiniog?** — *Will it be raining in Blaenau Ffestiniog?*
**Fydd hi'n bwrw eira ar yr Wyddfa?** — *Will it be snowing on Snowdon?*
**Fydd hi'n boeth yn Siberia?** — *Will it be hot in Siberia?*
**Fydd hi'n oer yn Dubai?** — *Will it be cold in Dubai?*


**Bydd.** ✔ **Na fydd.** ✗


**Fydd hi'n...?**





**Bydd Bethan yn brysur heno.** — *Bethan will be busy tonight.*
**Bydd hi'n brysur yfory.** — *She will be busy tomorrow.*
**Bydd Bryn yn brysur heno.** — *Bryn will be busy tonight.*
**Bydd e'n brysur yfory.** — *He will be busy tomorrow.*

**Fydd Bethan ddim yn brysur heno.** — *Bethan won't be busy tonight.*
**Fydd hi ddim yn brysur yfory.** — *She won't be busy tomorrow.*
**Fydd Bryn ddim yn brysur heno.** — *Bryn won't be busy tonight.*
**Fydd e ddim yn brysur yfory.** — *He won't be busy tomorrow.*

## Llongau rhyfel
**Fydd Bethan yn ... yfory?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| gweithio yn Llundain | mynd mas gyda ffrind | adolygu cyn y dosbarth Cymraeg | codi dail ar ôl y storm |
| mynd i'r ysbyty | trefnu cyfarfod i'r cwmni ym Mryste | mynd at y meddyg | cael arian o'r banc |
| cael cegin newydd yn y tŷ | gwneud crempog i frecwast | mynd i'r ysgol | mynd i'r dosbarth Cymraeg |
| mynd at y deintydd | symud tŷ | prynu cot newydd | prynu tocyn loteri |
| mynd i Ffrainc am y penwythnos | cysgu'n hwyr | bwyta brechdanau i ginio | mynd ar wyliau |

**Ble bydd pawb yn mynd?** — *Where will everyone be going?*
**Sut bydd pawb yn mynd?** — *How will everyone be going?*
**Pryd bydd pawb yn mynd?** — *When will everyone be going?*
**Pam bydd pawb yn mynd?** — *Why will everyone be going?*

## Ble bydd pawb yn mynd ar wyliau?



| Pwy? | Ble? | Bwyta? | Yfed? |
|---|---|---|---|
| A - Tom | Tokyo | sushi | sake |
| 2 - Mari | Milan | pitsa | cappuccino |
| 3 - Morfydd | Morocco | couscous | te mint |
| 4 - Marc | Madras | cyrri poeth | te chai |
| 5 - Mair | Madrid | tapas | gwin Rioja |
| 6 - Sara | Sydney | barbeciw | lager |
| 7 - Mathew | Moscow | strogonoff | fodca |
| 8 - Gareth | Glasgow | haggis | wisgi |
| 9 - Paul | Provence | croissant | siampên |
| 10 - Sam | Seattle | byrgyr | coffi |
| Jac - Jac | Acapulco | tacos | tequila |
| Brenhines - Liz | Lerpwl | lobsgows | cwrw |
| Brenin - Carlo | Caerffili | caws | paned o de |

**Bydda i yn y gwaith yfory.** — *I will be in work tomorrow.*
**Bydda i yn y tŷ yfory.** — *I will be in the house tomorrow.*
**Bydda i yn y dre yfory.** — *I will be in town tomorrow.*
**Bydda i yn y siop yfory.** — *I will be in the shop tomorrow.*

## Ynganu

**Dwedwch y brawddegau yma:**

Roedd hi'n stormus yn Rhuthun neithiwr.
Mae'r haul yn gwenu yn Hwlffordd heddiw.
Bydd hi'n wlyb ledled y wlad heno.
Bydd hi'n fendigedig o Fangor i Flaenau Ffestiniog yfory.

## Gwrando

Llenwch y bylchau./*Fill in the gaps.*

Dyma'r bwletin tywydd.

Roedd hi'n ..................... iawn ddoe, dros Gymru i gyd. Diolch byth, mae hi'n ............................ nawr, tywydd i fynd â'r ci am dro. Ond, mae'n ddrwg gyda fi ddweud, mae hi'n mynd i ................................ heno. Bydd hi'n ................................... dros nos yn y de a'r gogledd. Yfory, bydd y ............................. wedi mynd, ond bydd hi'n ..................................... Dim ................................ yfory eto! A dyna'r bwletin tywydd.

## Sgwrs

**Derbynnydd:** Bore da, gaf i helpu?
**Chris:** Gaf i siarad â'r bòs?
**Derbynnydd:** Dyw e ddim yma heddiw. Mae e ar wyliau yn y Bahamas.
**Chris:** Pryd bydd e'n ôl?
**Derbynnydd:** Fydd e ddim yn ôl tan wythnos i ddydd Mawrth.
**Chris:** Gaf i adael neges?
**Derbynnydd:** Cewch, wrth gwrs.
**Chris:** Chris Ellis dw i. Dw i'n gweithio yn swyddfa Abercastell. Ar ôl y storm ddoe, mae'r trydan wedi torri yn y swyddfa ac mae hi'n oer iawn yma.
**Derbynnydd:** O diar, mae'n ddrwg gyda fi glywed. Fydd hi'n bosib i chi ebostio'r bòs? Bydd e'n gallu darllen yr ebost yn y gwesty. Mae e'n darllen pob ebost bob dydd.
**Chris:** Fydd hi ddim yn bosib ebostio achos mae'r trydan wedi torri.
**Derbynnydd:** O, ie.
**Chris:** Diolch am eich help chi.
**Derbynnydd:** Croeso! Unrhyw bryd!

## Robin Radio

**a) Atebwch:**

Am faint o'r gloch bydd y ffair yn dechrau?

........................................................................................................................

Faint fydd rhywun 70 oed yn dalu i fynd i'r ffair?

........................................................................................................................

Sut roedd y tywydd llynedd?

........................................................................................................................

**b) Gwrandewch am:**

| | |
|---|---|
| mynediad am ddim | *free entry* |
| Bydd yr haul yn gwenu. | *The sun will be shining. (literally, smiling)* |
| Beth fydd yn digwydd? | *What will be happening?* |
| llifogydd | *floods* |

**c) Cyfieithwch:**

*in six weeks* ........................................................................................

*The doors will open.* ........................................................................................

*very noisy as usual* ........................................................................................

## Help llaw

**1.** *The future form of* **bod** *(to be) is widely used in Welsh. You will hear it in the context of organising events and talking about the weather.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bydd e/hi | *He/she/it will be* | Bydda i | *I will be* |
| Fydd e/hi? | *Will he/she/it be?* | Fydda i? | *Will I be?* |
| Fydd e/hi ddim | *He/she/it won't be* | Fydda i ddim | *I won't be* |

**2.** *The same mutation rules apply following* **yn** *as the present and imperfect tenses. Nouns and adjectives mutate following* **yn***, but not verbs:*

| | | |
|---|---|---|
| Mae hi'n gweithio. | Mae hi'n **d**iwtor. | Mae hi'n **b**rysur. |
| Roedd hi'n gweithio. | Roedd hi'n **d**iwtor. | Roedd hi'n **b**rysur. |
| Bydd hi'n gweithio. | Bydd hi'n **d**iwtor. | Bydd hi'n **b**rysur. |

# Uned 18 (un deg wyth) – Bydda i'n mynd

**Nod: Siarad am gynlluniau yn y dyfodol /**
*Talking about plans in the future*
(byddi di, byddwn ni, byddwch chi, byddan nhw)

## Geirfa

| | | | |
|---|---|---|---|
| **anrheg(ion)** | *present(s)* | **gwobr(au)** | *prize(s)* |
| **blwyddyn (blynyddoedd)** | *year(s)* | **marchnad(oedd)** | *market(s)* |
| **cadair (cadeiriau)** | *chair(s)* | **mefusen (mefus)** | *strawberry (strawberries)* |
| **fferyllfa (fferyllfeydd)** | *chemist shop(s)* | **rhan(nau)** | *part(s)* |
| | | **sioe(au)** | *show(s)* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **gobaith** | *hope* | **mis mêl** | *honeymoon* |
| **hufen** | *cream* | **siopwr (-wyr)** | *shopkeeper(s)* |
| **mêl** | *honey* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **cystadlu** | *to compete* | **nôl** | *to get, collect* |
| **dyfalu** | *to guess* | **pacio** | *to pack* |
| **eistedd** | *to sit* | **priodi** | *to marry, to get married* |
| **glanhau** | *to clean* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **cenedlaethol** | *national* | **ifanc** | *young* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **ar gyfer** | *for (the purpose of)* | **ers** | *since* |
| **ar ôl** | *after* | **ers talwm** | *a long time ago* |
| **beth bynnag** | *anyway* | **os** | *if* |
| **erbyn** | *by* (amser) | **prif** | *main, top, highest* |

Geiriau pwysig i fi

.................................... ....................................
× ×
.................................... ....................................
× ×
.................................... ....................................

**Bydda i'n teithio yr wythnos nesa.** — *I will be travelling next week.*
**Bydda i'n siopa yr wythnos nesa.** — *I will be in shopping next week.*
**Bydda i'n gweithio yr wythnos nesa.** — *I will be working next week.*
**Bydda i'n ymlacio yr wythnos nesa.** — *I will be relaxing next week.*



**Fyddi di'n smwddio yr wythnos nesa?** — *Will you be ironing next week?*
**Fyddi di'n siopa yr wythnos nesa?** — *Will you be shopping next week?*
**Fyddi di'n siarad Cymraeg yr wythnos nesa?** — *Will you be speaking Welsh next week?*
**Fyddi di'n gweithio yr wythnos nesa?** — *Will you be working next week?*

**Bydda.** ✔ **Na fydda.** ✗

## Yr wythnos nesa...


| Enw | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| smwddio | | | | | | |
| siopa | | | | | | |
| siarad Cymraeg | | | | | | |
| mynd â'r ci am dro | | | | | | |
| gweithio | | | | | | |
| ymlacio | | | | | | |
| darllen papur newydd | | | | | | |
| garddio | | | | | | |

**Beth fyddi di'n wneud heno?** — *What will you be doing tonight?*
**Beth fyddi di'n wneud yfory?** — *What will you be doing tomorrow?*
**Beth fyddi di'n wneud yn y gwaith?** — *What will you be doing at work?*
**Beth fyddi di'n wneud ar wyliau?** — *What will you be doing on holiday?*

| Enw | heno | yfory | yr wythnos nesa | y mis nesa |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

| | |
|---|---|
| **Byddwn ni'n pacio heno.** | *We will be packing tonight.* |
| **Byddwn ni'n hedfan bore yfory.** | *We will be flying tomorrow morning.* |
| **Byddwn ni'n cyrraedd prynhawn yfory.** | *We will be arriving tomorrow afternoon.* |
| **Byddwn ni'n ymlacio nos yfory.** | *We will be relaxing tomorrow evening.* |
| **Pryd byddwch chi'n pacio?** | *When will you be packing?* |
| **Pryd byddwch chi'n hedfan?** | *When will you be flying?* |
| **Pryd byddwch chi'n cyrraedd?** | *When will you be arriving?* |
| **Pryd byddwch chi'n ymlacio?** | *When will you be relaxing?* |
| **Byddan nhw'n pacio heno.** | *They will be packing tonight.* |
| **Byddan nhw'n hedfan bore yfory.** | *They will be flying tomorrow morning.* |
| **Byddan nhw'n cyrraedd prynhawn yfory.** | *They will be arriving tomorrow afternoon.* |
| **Byddan nhw'n ymlacio nos yfory.** | *They will be relaxing tomorrow evening.* |





## Ble byddwch chi'n mynd?

Edrychwch ar y grid. Ble byddwch chi'n mynd ar wyliau? Gwnewch bedair brawddeg trwy ddewis un elfen o'r colofnau gwahanol. Wedyn, siaradwch â'ch partner.
*Look at the grid. Choose four different holidays by taking one element from each column. Then speak to your partner about your holidays.*

| Ble? | Gwneud? | Bwyta? | Yfed? |
|---|---|---|---|
| India | canu carioci | caws | te gwyrdd |
| Las Vegas | gwylio pêl-droed a rygbi | mefus a hufen | sake |
| Hong Kong | prynu gwin | sushi | te du |
| Tokyo | gwylio tennis | byrgyr mawr | gwin coch |
| Bryste | siopa | cyrri | wisgi Bourbon |
| Wimbledon | gweld y Taj Mahal | dim sum | cwrw Brains |
| Bordeaux | gweld "Elvis" | pysgod a sglodion | Pimms |

## Atebion

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Fyddi di'n garddio yfory?** | *Will you be gardening tomorrow?* | **Bydda.** | ✔ |
| **Fyddi di'n gwrando ar gerddoriaeth?** | *Will you be listening to music?* | **Bydda.** | ✔ |
| **Fyddi di'n chwarae ar y cyfrifiadur?** | *Will you be playing on the computer?* | **Na fydda.** | ✘ |
| **Fyddwch chi'n mynd i fowlio deg?** | *Will you be going ten pin bowling?* | **Byddwn.** | ✔ |
| **Fyddwch chi'n mynd â'r ci am dro?** | *Will you be taking the dog for a walk?* | **Na fyddwn.** | ✘ |
| **Fydd e/hi'n glanhau'r tŷ?** | *Will he/she be cleaning the house?* | **Bydd.** | ✔ |
| **Fydd e/hi'n cystadlu?** | *Will he/she be competing?* | **Na fydd.** | ✘ |
| **Fyddan nhw'n mynd i'r farchnad?** | *Will they be going to the market?* | **Byddan.** | ✔ |
| **Fyddan nhw'n mynd ar fis mêl?** | *Will they be going on honeymoon?* | **Na fyddan.** | ✘ |

## Faint o bobl yn y dosbarth...?

| | Dyfalu | Ateb |
|---|---|---|
| **Fyddi di yn y gwely cyn hanner awr wedi deg heno?** | | |
| **Fyddi di'n glanhau'r tŷ dros y penwythnos?** | | |
| **Fyddi di'n rhydd nos Sul?** | | |
| **Fyddi di'n brysur yr wythnos nesa?** | | |
| **Fyddi di yn Lloegr y mis nesa?** | | |

## Mae'n ddrwg gyda fi ond ...

**Fydda i ddim ar gael.** — *I won't be available.*
**Fydda i ddim yn y cyfarfod.** — *I won't be in the meeting.*
**Fydda i ddim yn y dosbarth.** — *I won't be in class.*
**Fydda i ddim yn gweithio.** — *I won't be working.*

Gyda'ch partner, ysgrifennwch pryd bydd pawb yn gwneud y pethau yma.

Fydda i ddim yn mynd i'r capel dydd Llun.

..........................................................................................

Fyddi di ddim yn nofio yn y môr dydd Mawrth.

..........................................................................................

Fydd Gareth ddim yn chwarae pêl-droed dydd Mercher.

..........................................................................................

Fyddwn ni ddim yn mynd i'r mosg dydd Iau.

..........................................................................................

Fyddwch chi ddim yn mynd i'r bingo dydd Gwener.

..........................................................................................

Fyddan nhw ddim yn gweithio dydd Sadwrn.

..........................................................................................

Fydd y plant ddim yn yr ysgol dydd Sul.

..........................................................................................

## Os

Cysylltwch y ddau hanner.

| | |
|---|---|
| Os bydd hi'n braf yfory, | bydda i'n gweithio'n hwyr. |
| Os bydd pwll yn y gwesty, | bydda i'n mynd i'r fferyllfa. |
| Os bydd y bws yn hwyr, | bydda i'n mynd am dro yn y parc. |
| Os bydd pobl yn dod i aros, | bydda i'n aros yn y gwely. |
| Os bydda i eisiau paned o goffi, | bydda i'n colli dechrau'r gêm. |
| Os bydda i eisiau tabledi, | bydda i'n mynd i nofio. |
| Os bydda i'n brysur, | bydda i'n glanhau'r tŷ. |
| Os bydda i'n dost, | bydda i'n mynd i'r caffi. |

## Gwrando

Gwrandewch ar y ddeialog ac atebwch y cwestiynau.

**1.** Beth mae Siwan eisiau?

Beth yw'r broblem?

**2.** Beth mae Dafydd eisiau?

Beth yw'r broblem?


## Ynganu


**A:** Gaf i siarad â Ceri Prys, os gwelwch chi'n dda?
**B: Mae'r lein yn brysur. Dych chi'n gallu ffonio'n ôl mewn chwarter awr?**
**A:** Nac ydw... Ydy Dafydd Elis i mewn?
**B: Mae e mewn cyfarfod. Bydd e yn y swyddfa ar ôl tri o'r gloch.**
**A:** Beth am Ann Davies, 'te?
**B: Dyw hi ddim yn y gwaith, mae'n ddrwg gyda fi. Mae hi ar wyliau tan ddydd Iau nesa.**
**A:** Reit, dw i eisiau siarad â'r Pennaeth.
**B: Fi yw'r Pennaeth. Dw i'n rhy brysur i siarad nawr. Hwyl fawr.**

## Sgwrs

Ym mha drefn mae'r lleoedd yma'n codi yn y Sgwrs? *In which order do these locations arise in the* Sgwrs?

..........................................................................................................................



## Gwrandewch ar y ddeialog a llenwch y grid:

| | **Beth fydd Chris yn wneud yn y lleoedd yma?** |
|---|---|
| **y farchnad** | |
| **siop Mr Clark** | |
| **y swyddfa bost** | |
| **y fferyllfa** | |

**Jo:** Fyddi di'n mynd i'r dre heddiw?
**Chris:** Bydda.
**Jo:** Fyddi di'n gallu prynu un neu ddau o bethau i fi?
**Chris:** Bydda, wrth gwrs. Beth wyt ti eisiau?
**Jo:** Fyddi di'n gallu prynu ffrwythau o'r farchnad?
**Chris:** Iawn, wrth gwrs.
**Jo:** Dw i angen trwsio'r esgidiau 'ma. Fyddi di'n gallu mynd â nhw i siop Mr Clark?
**Chris:** Wel, o'r gorau…
**Jo:** Fyddi di'n gallu mynd i'r swyddfa bost? Dw i angen stampiau i bostio anrheg.
**Chris:** Wel… bydd y swyddfa bost yn brysur iawn…
**Jo:** Oes ots gyda ti fynd i nôl y presgripsiwn yma o'r fferyllfa? Does dim tabledi pen tost ar ôl…
**Chris:** Bobl bach, dw i'n dechrau cael pen tost! Bydda i drwy'r dydd! Wyt ti eisiau rhywbeth arall?
**Jo:** Nac ydw, dw i'n iawn. Bydda i'n mynd i'r dre yfory beth bynnag. Dw i eisiau dillad newydd ar gyfer parti Siân nos Wener.

**Ar gyfer**

Yn y ddeialog, dych chi'n gweld:


Dw i eisiau dillad newydd **ar gyfer** parti Siân.

Edrychwch ar y brawddegau yma:
Dw i eisiau dillad **ar gyfer** y parti.
Dw i eisiau tocyn **ar gyfer** y gêm.
Dw i eisiau ystafell **ar gyfer** y cyfarfod.

Gyda'ch partner, edrychwch ar y lluniau a chysylltwch (*connect*) ddau lun i wneud brawddeg.








## Darllen

Tair eisteddfod a sioe

Mae'r gair eisteddfod yn dod o ddau air Cymraeg – **eistedd** a **bod.** Mae bardd *(poet)* yn ennill cadair mewn seremoni.

Roedd eisteddfodau ers llawer dydd yng Nghymru ond roedd yr Eisteddfod Genedlaethol "fodern" gyntaf yn 1861 yn Aberdâr. Erbyn heddiw mae dros 150,000 o bobl yn mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn. Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Corwen 1929 oedd y gyntaf i bobl ifanc. Erbyn hyn mae dros 90,000 yn dod i Eisteddfod yr Urdd.

Fel arfer, pan mae Eisteddfod yr Urdd yn y Gogledd mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn y De. Y flwyddyn wedyn mae'r ddwy Eisteddfod yn symud i ben arall Cymru.

Roedd Eisteddfod yn Llangollen am y tro cyntaf yn 1947. Mae pobl o bob rhan o'r byd yn dod i gystadlu. Mae dros 50,000 yn dod i Langollen i'r Eisteddfod bob blwyddyn.

Ond yn Sioe Fawr Llanelwedd mae dros 200,000 o bobl – a llawer iawn o anifeiliaid!

**Ffeindiwch dair ffaith** *(find 3 facts)* **o'r darn yma ac ysgrifennwch nhw yn Gymraeg.**

**1.** ............................................................................................................

**2.** ............................................................................................................

**3.** ............................................................................................................

# Robin Radio

**a) Atebwch:**

Ble bydd Mari ym mis Mehefin?

........................................................................................................

Ble bydd Mari ym mis Gorffennaf?

........................................................................................................

Ble bydd Mari ym mis Awst?

........................................................................................................

**b) Gwrandewch am:**

Dw i eisiau trefnu mis mêl. — *I want to organise a honeymoon.*
Pryd dych chi'n priodi? — *When are you getting married?*
dim gobaith — *no chance, no hope*

**c) Cyfieithwch:**

*I have had an idea.* ........................................................................

*Will you be working?* ........................................................................

*Have you got a caravan?* ........................................................................

## Help llaw

**1.** *You know now all of the verb* **bod** *in the future tense – I will be etc.*

| **Cadarnhaol/** ***Affirmative*** | **Cwestiwn/** ***Question*** | **Negyddol/** ***Negative*** |
|---|---|---|
| Bydda i | Fydda i? | Fydda i ddim |
| Byddi di | Fyddi di? | Fyddi di ddim |
| Bydd e | Fydd e? | Fydd e ddim |
| Bydd hi | Fydd hi? | Fydd hi ddim |
| Byddwn ni | Fyddwn ni? | Fyddwn ni ddim |
| Byddwch chi | Fyddwch chi? | Fyddwch chi ddim |
| Byddan nhw | Fyddan nhw? | Fyddan nhw ddim |

*The rules are exactly the same as the other forms of the verb* **bod** – Ro'n i, Dw i *etc. You can add on verbs in the infinitive form to create a sentence, remembering to use* **yn/'n***:*

| | | |
|---|---|---|
| Dw i'n darllen. | Ro'n i'**n** darllen. | Bydda i'**n** darllen. |
| Mae Sam **yn** darllen. | Roedd Sam **yn** darllen. | Bydd Sam **yn** darllen. |

**2.** *As with other tenses, the answers respond to the verb used in the question:*

| | | |
|---|---|---|
| Fydda i? | Byddi. | Na fyddi. |
| Fyddi di? | Bydda. | Na fydda. |
| Fydd e/hi? | Bydd. | Na fydd. |
| Fyddwn ni? | Byddwn/byddwch. | Na fyddwn/na fyddwch. |
| Fyddwch chi? | Bydda/byddwn. | Na fydda/na fyddwn. |
| Fyddan nhw? | Byddan. | Na fyddan. |
| Fydd y plant? | Byddan. | Na fyddan. |


**3.** Bôn anodd/*A difficult stem*:

| | | |
|---|---|---|
| glanhau | glanheu- | glanheuais i |

## Llyfrau Amdani

Dych chi nawr yn gallu darllen *Wynne Evans – o Gaerfyrddin i Go Compare*. Dych chi'n gallu prynu'r llyfr yn eich siop Gymraeg leol chi neu ar www.gwales.com.

Dyma'r clawr *(cover)* ac un paragraff:




**Enw:** Wynne Evans
**Dod yn wreiddiol:** o Gaerfyrddin
**Blwyddyn geni:** 1972
**Byw nawr:** yng Nghaerdydd
**Gwaith:** Tenor, cyflwynydd ar Radio Wales, Radio 3 a Classic FM
**Enwog iawn am fod yn:** Gio Compario ar hysbysebion Go Compare

**Beth yw hanes y teulu?**

Roedd teulu Dad yn dod o Langynog, ar bwys Caerfyrddin. Ffermwyr o'n nhw. Roedd teulu fy nhad yn siarad Cymraeg. Cymraeg oedd iaith gyntaf fy nhad.

**blwyddyn geni** —— *year of birth*
**hysbysebion** —— *advertisements*
**fy nhad** —— *my father*
**cyflwynydd** —— *presenter*
**hanes** —— *history*
**iaith gyntaf** —— *first language*

# Uned 19 (un deg naw) – Fy

**Nod: Siarad am eich eiddo chi a'ch perthnasau chi/**
*Talking about your possessions and relatives*
(fy nghar i)

## Geirfa

| | |
|---|---|
| **allwedd(i)** | *key(s)* |
| **ffeil(iau)** | *file(s)* |
| **ffenest(ri)** | *window(s)* |
| **llen(ni)** | *curtain(s)* |
| **sbectol haul** | *sunglasses* |
| **silff(oedd)** | *shelf (shelves)* |
| **silff ben tân** | *mantle piece* |
| **(y)stafell(oedd)** | *room(s)* |
| **wal(iau)** | *wall(s)* |
| **y we** | *the web* |
| **ynys(oedd)** | *island(s)* |

| | |
|---|---|
| **beiro(s)** | *biro(s)* |
| **brws(ys)** | *brush(es)* |
| **brws(ys) dannedd** | *toothbrush(es)* |
| **cwpwrdd (cypyrddau)** | *cupboard(s)* |
| **llun(iau)** | *picture(s)* |
| **llygad (llygaid)** | *eye(s)* |
| **mêc** | *a make* |
| **pasport(iau)** | *passport(s)* |
| **peth(au)** | *thing(s)* |
| **tân (tanau)** | *fire(s)* |

| | |
|---|---|
| **anghywir** | *wrong* |
| **diddorol** | *interesting* |

| | |
|---|---|
| **bron** | *nearly* |
| **dan** | *under* |
| **wrth** | *by* |

*Geiriau pwysig i fi*

× ..............................
× ..............................
× ..............................
× ..............................

# Fy



fy sbectol i



fy anrheg i



fy moddion i

| | | | |
|---|---|---|---|
| **fy nhad i** | *my father* | **fy nrws i** | *my door* |
| **fy nghar i** | *my car* | **fy ngwin i** | *my wine* |
| **fy mhen i** | *my head* | **fy mrawd i** | *my brother* |

**Dyma fy ffeil i.** — *Here is my file.*
**Dyma fy nhocyn i.** — *Here is my ticket.*
**Dyma fy ngherdyn i.** — *Here is my card.*
**Dyma fy mhwrs i.** — *Here is my purse.*

**Dych chi wedi colli'r pethau yma:**


**1. pwrs/waled, 2. ffôn, 3. papur, 4. bag, 5. diod, 6. cerdyn banc, 7. tocyn trên, 8. cot, 9. beiro, 10. sbectol haul, 11. allweddi.**

**Mae eich partner wedi ysgrifennu'r rhifau ar y llun.** *(Your partner will have written the numbers in on her/his copy of the picture.)* **Gofynnwch iddi hi/iddo fe am help i ffeindio'r pethau, e.e.**

**Ble mae fy ffôn i?**

**Mae e ar y gadair.**
**Mae e dan y soffa.**
**Mae e wrth y ffenest.**

Cofiwch: **ar, dan, wrth.**



**Mae fy nhad-cu i yn Nhregaron.**
**Mae fy nghariad i yng Nghaerdydd.**
**Mae fy mhlant i ym Mhorthcawl.**

**Mae fy neintydd i yn Ninas Powys.**
**Mae fy ngwaith i yng Ngwynedd.**
**Mae fy mrawd i ym Medwas.**

**Pat yw enw fy nhad i.** — *Pat is my father's name.*
**Pat yw enw fy mam i.** — *Pat is my mother's name.*
**Pat yw enw fy mab i.** — *Pat is my son's name.*
**Pat yw enw fy merch i.** — *Pat is my daughter's name.*

## Dyma fi

**Dewiswch bum peth i ddweud wrth y dosbarth:**
**Dilynwch y patrwm: Pat yw/oedd enw fy nhad i.**

| | | |
|---|---|---|
| | enw | mam/tad |
| | enw | mab |
| | enw | merch |
| | enw | (anifail) |
| | lliw | (anifail) |
| | mêc | car |
| | lliw | car |
| | enw | bòs |
| | enw | tŷ |
| | rhif | tŷ |
| | enw | partner/gŵr/gwraig/cariad |
| | enw | brawd/chwaer |
| | enw | ysgol |
| | mêc | ffôn |
| | enw | tiwtor/athro/athrawes |
| | lliw | gwallt |
| | lliw | llygaid |

## Ymarfer ac ynganu

**Gyda'ch partner, llenwch y bylchau ac wedyn darllenwch y paragraff yn uchel:**

Ceri dw i. Dw i'n byw yng ........................................ (Caerfyrddin) ond dw i'n gweithio yng ................................................ (Caerdydd). Mae fy ..................... (teulu) i gyd yn byw yng ......................................................... (Gwynedd). Roedd fy ........... (tad) i'n byw gyda mam yn ........................... (Trefriw) ond yn gweithio ar y trên bach yn ........................................ (Tal-y-llyn). Mae fy chwaer i'n byw yn ..................................... (Dinas Mawddwy) ond yn gweithio yn ........................... (Dolgellau). Mae fy ................................. (brawd) i'n byw ym ............................ (Bethesda) ond yn gweithio ym ........................... (Bangor). Mae fy ........................ (partner) i, Pat, yn gweithio ym .............................. (Pontypridd) ond yn byw ym ............................... (Pontypŵl) . Mae fy.............................. (car) i'n hen. Dw i'n gyrru gormod yng......................................... (Cymru)!

## Sgwrs

**Gwrandewch ar y sgwrs a llenwch y grid:**

| Beth? | Ble? |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

**Mam:** Wyt ti wedi gorffen pacio?
**Sam:** Ydw… bron iawn…
**Mam:** Da iawn. 'Dyn ni'n mynd mewn hanner awr. 'Dyn ni'n hedfan am un ar ddeg o'r gloch heno.
**Sam:** Mam!
**Mam:** Ie?
**Sam:** Ble mae fy nghês i?
**Mam:** Ar y gwely wrth gwrs!
**Sam:** Ble mae fy fflip-fflops i?
**Mam:** Dan y gwely, siŵr o fod.
**Sam:** Ble mae fy mrws dannedd i?
**Mam:** Yn y stafell ymolchi, wrth gwrs.
**Sam:** Ble mae fy nghamera i?
**Mam:** Dan y gadair yn y stafell fyw, dw i'n meddwl.
**Sam:** Ble mae fy mhasport i?
**Mam:** Yn fy mag i, wrth gwrs.
**Sam:** O na! Dw i ddim yn gallu ffeindio fy ffôn i. Ble mae e?
**Mam:** Dim problem, fyddi di ddim angen ffôn.
**Sam:** Pam lai?
**Mam:** Dwyt ti ddim yn gallu chwarae gemau ar yr awyren, ac anghofiais i ddweud…
**Sam:** Dweud beth?
**Mam:** Dyw'r we ddim yn gweithio ar yr ynys!
**Sam:** Beth? Dw i ddim eisiau mynd, 'te...


## Llenwi bylchau

Yn y Gwaith cartre, mae cwestiwn Llenwi bylchau. Llenwch y bylchau yma gyda'ch partner chi.

Dw i'n byw yn ______________________ (Tan-y-groes).

Dw i'n mynd adre ______________ bump o'r gloch.

_______________ hi ddim yn bwrw glaw nawr.



Mae Gwyn yn edrych ar y ____________________ .


Wyt ti'n gweithio yn y banc? ________________ ( ✔ )

_______________ (gwneud) ti swper i'r teulu neithiwr?

Diolch yn ________________ i chi am helpu.

____________ mae Sam yn mynd heno? I'r dafarn.

## Robin Radio



**a) Atebwch:**

Ydy Rhian yn hoffi rygbi?



Beth mae Rhian a Bethan yn hoffi wneud yn Abertawe?

Beth fydd Rhian yn brynu i Bethan?

**b) Gwrandewch am:**

Dw i wrth fy modd gyda chwaraeon. — *I love sport.*
Does dim diddordeb gyda fi. — *I have no interest.*
fy hoff siop — *my favourite shop.*


**c) Cyfieithwch:**

*Thank you for phoning.*

*She will be sixty.*

*I forgot to say.*

## Help llaw



**1.** *This is the first possessive pronoun that you have come across.*
*The pronoun* **fy** *(my) is followed by the* **Treiglad Trwynol**/*Nasal Mutation:*

**T > Nh** **D > N**
**C > Ngh** **G > Ng**
**P > Mh** **B > M**

**2.** *Often this* **fy** *is changed in speech to* **y** *before the above letters, and* **yn** *before other letters.*

**3.** *You will hear both* **fy nghar** *and* **fy nghar i.**

**4.** *You have now been introduced to the two main occasions when we use the* **Treiglad Trwynol:**

*Following the preposition* **yn,** *meaning 'in'.*
*Following the possessive pronoun* **fy.**

# Uned 20 (dau ddeg/ugain) – Dy, Eich

**Nod: Gofyn cwestiynau am eiddo a pherthnasau pobl eraill/**
*Asking questions about other people's possessions and relatives*
(dy lyfr di, eich llyfr chi)

---

## Geirfa

| | | | |
|---|---|---|---|
| **gardd (gerddi)** | *garden(s)* | **maneg (menig)** | *glove(s)* |
| **llysferch** | *stepdaughter* | **modryb(edd)** | *aunt(s)* |
| **mam faeth** | *foster mother* | **ras(ys)** | *race(s)* |
| **mam-yng-nghyfraith** | *mother-in-law* | **rhestr(i)** | *list(s)* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **amser sbâr** | *spare time* | **llysfab** | *stepson* |
| **cyfeiriad(au)** | *address(es)* | **llystad** | *stepfather* |
| **diddordeb(au)** | *interest(s)* | **tad maeth** | *foster father* |
| **ewythr(od)** | *uncle(s)* | **tei(s)** | *tie(s)* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **dringo** | *to climb* | **teithio** | *to travel* |
| **dwyn** | *to steal* | **tyfu** | *to grow* |
| **sillafu** | *to spell* | **ymarfer** | *to practise* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **rhan-amser** | *part-time* | **teuluol** | *family* |

| | |
|---|---|
| **pa?** | *which?* |

Geiriau pwysig i fi

× ........................ × ........................
× ........................ × ........................

Dyma eich ffeil chi.
Dyma eich desg chi.
Dyma eich ffôn chi.
Dyma eich allwedd chi.
Dyma eich sbectol chi.
Dyma eich beiro chi.
Dyma eich tocyn chi.
Dyma eich llyfr chi.
Dyma eich cot chi.
Dyma eich rhestr siopa chi.
Dyma eich paned chi.
Dyma eich menig chi.

**Beth yw'ch enw chi?** — *What is your name?*
**Beth yw'ch cyfeiriad chi?** — *What is your address?*
**Beth yw'ch cod post chi?** — *What is your post code?*
**Beth yw'ch gwaith chi?** — *What is your job?*

## Syrjeri Aberheli

| Enw | Cyfeiriad | Rhif ffôn | Dyddiad geni |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Dyma dy ffeil di.
Dyma dy ffôn di.
Dyma dy sbectol di.
Dyma dy docyn di.
Dyma dy got di.
Dyma dy baned di
Dyma dy ddesg di.
Dyma dy win di.
Dyma dy frawd di.

Dyma dy fenig di.
Dyma dy lyfr di.
Dyma dy restr siopa di.

**Beth yw dy enw di?** — *What is your name?*
**Beth yw dy ebost di?** — *What is your email?*
**Beth yw dy rif ffôn di?** — *What is your phone number?*
**Beth yw dy broblem di?** — *What is your problem?*

**Ble mae dy ddosbarth di?** — *Where is your class?*
**Pryd mae dy ddosbarth di'n dechrau?** – *When does your class start?*
**Pryd mae dy ddosbarth di'n gorffen?** – *When does your class finish?*
**Pwy yw dy diwtor di?** — *Who is your tutor?*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Aberystwyth<br>9.30 – 12.30<br>Wenna Williams** | **Tregaron<br>14.00 – 16.00<br>Delyth Davies** | **Crymych<br>18.00 – 21.00<br>Bethan Barker** | **Hwlffordd<br>1.30 – 3.30<br>Alun ap Aled** |
| **Caerfyrddin<br>19.00 – 21.00<br>Rhys Rhisiart** | **Llanelli<br>9.00 – 13.00<br>Pedr Parri** | **Abertawe<br>14.15 – 17.00<br>Wil Williams** | **Port Talbot<br>9.00 – 12.00<br>Teleri Tomos** |
| **Caerdydd<br>10.00 – 14.30<br>Llinos Lloyd** | **Merthyr Tudful<br>18.30 – 21.00<br>Catrin Carter** | **Casnewydd<br>9.15 –12.45<br>Llion Llwyd** | **Y Barri<br>9.45 – 13.15<br>Dewi Dafydd** |

## Diddordebau

**Beth dych chi'n hoffi wneud yn eich amser sbâr? /**
**Beth wyt ti'n hoffi wneud yn dy amser sbâr?**

| Enw | diddordeb |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

## Ynganu – Y Treiglad meddal


**Ydy dy deulu di'n mynd i deithio i Dreorci?**
**Ydy dy gariad di'n mynd i Gaerdydd i ganu?**
**Ydy dy blant di'n mynd i Bontypridd i brynu'r bêl binc?**
**Ydy dy fòs di'n mynd i fyw i Fedwas?**
**Ydy dy ddeintydd di'n mynd i Ddinas Powys i ddysgu Cymraeg?**
**Ydy dy ŵr/wraig di'n mynd i Wynedd i weld yr ardd?**
**Ydy dy fam di'n mynd i Fachynlleth i feddwl?**
**Ydy dy lysferch di'n mynd i lenwi tanc y Lamborghini?**
**Ydy dy rieni di'n mynd i Riwbeina i redeg ras?**

## Sgwrs – Chi a Ti

**A:** Ble mae eich tei chi?
**B:** Pa dei?
**A:** Eich tei du chi.
**B:** Dw i ddim yn cofio.
**A:** Ydy e yn eich tŷ chi?
**B:** Fallai, ond fallai ddim.
**A:** Neu ydy e gyda eich tad chi?
**B:** Dw i ddim yn siŵr.
**A:** Bobl bach! Ydy eich tei du chi yn eich tŷ chi neu gyda eich tad chi?
**B:** Does dim syniad gyda fi.

Nawr gyda'ch partner, newidiwch (*change*) y ddeialog o **chi** i **ti**.

## Llyfrau Amdani




Dych chi nawr yn gallu darllen *Gangsters yn y Glaw* gan Pegi Talfryn. Dych chi'n gallu prynu'r llyfr yn eich siop Gymraeg leol chi neu ar www.gwales.com.

Dyma'r clawr *(cover)* ac un paragraff:

Elsa Bowen dw i. Ditectif preifat dw i. Dw i'n byw yng Nghaernarfon. Dw i'n dŵad o Gaernarfon yn wreiddiol. Dw i'n gweithio yng Nghaernarfon. **Cofidre** dw i. Dw i ddim yn hoffi Caernarfon ond mae Caernarfon yn fy **ngwaed** i.

**Cofidre** – *a native of Caernarfon;*
**gwaed** – *blood*

## Robin Radio

**a) Atebwch:**

Ble roedd Twm yn byw?

........................................................................................................................

Faint o blant sy gyda Twm?

........................................................................................................................

Beth yw gwaith newydd Twm?

........................................................................................................................

**b) Gwrandewch am:**

Ydw i'n eich nabod chi? — *Do I know you?*
Dw i newydd symud yn ôl. — *I have just moved back.*
ers llawer dydd — *since ages / a long time ago*

**c) Cyfieithwch:**

*Where is your house?* ........................................................................

*How old are your children?* ...................................................................

*What is your new job?* ........................................................................

## Help llaw

**1.** *The possessive pronoun* **dy** *(your, informal) is always followed by the soft mutation.*

| | | |
|---|---|---|
| **dy dŷ di** | **dy ddrws di** | **dy fam di** |
| **dy gar di** | **dy ardd di** | **dy lyfr di** |
| **dy bapur wal di** | **dy feic di** | **dy rieni di** |

**2.** *No mutation follows* **eich** *(your, formal & plural).*

**3.** *You will hear both of the following:*

| | |
|---|---|
| **dy gar di** | **dy gar** |
| **eich car chi** | **eich car** |

**4.** Bôn anodd/*A difficult stem*:

| | | |
|---|---|---|
| **dwyn** | **dyg-** | **dygais i** |

# Uned 21 (dau ddeg un) Dewch yma!

**Nod: Cyfarwyddo/***Giving instructions*
(Codwch / Coda; Ewch / Cer; Dewch / Dere; Gwnewch / Gwna)

## Geirfa

**braich (breichiau)** – *arm(s)*
**ceg(au)** – *mouth(s)*
**coes(au)** – *leg(s)*
**damwain (damweiniau)** – *accident(s)*
**lôn (lonydd)** – *lane(s)*
**llaw (dwylo)** – *hand(s)*

**bys(edd)** – *finger(s)*
**ces(ys)** – *case(s)*
**golau (goleuadau)** – *light(s)*
**lifft(iau)** – *lift(s)*
**prawf (profion)** – *test(s)*
**tedi(s)** – *teddy bear(s)*
**trwyn(au)** – *nose(s)*
**(y)sbwriel** – *rubbish*

**brwsio** – *to brush*
**brysio** – *to hurry*
**cyfieithu** – *to translate*
**esgusodi** – *to excuse*
**gwisgo** – *to dress, to wear*
**peidio** – *to stop, to cease, to refrain*
**rhoi** – *to give; to put*
**taro** – *to hit*
**tynnu llun** – *to take a photo*

**chwith** – *left*
**de** – *right*
**gofalus** – *careful*
**gorau** – *best*
**gyferbyn** – *opposite*

Geiriau pwysig i fi

..........
×
..........
×
..........

..........
×
..........
×
..........

## Dych chi'n cofio?

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cymraeg Dosbarth:** | Codwch | Eisteddwch | Esgusodwch fi |
| **Ynganu:** | Dwedwch | | |
| **Robin Radio:** | Atebwch | Gwrandewch | Cyfieithwch |
| | Peidiwch | | |
| **Gwaith cartref:** | Ysgrifennwch | Anfonwch | Atebwch |
| | Darllenwch | Ffeindiwch | Llenwch |
| | Newidiwch | Gofynnwch | |

**Dyma sut 'dyn ni'n dweud wrth bobl am wneud rhywbeth!**

## Chi

**Codwch!** — *Get up!*
**Eisteddwch!** — *Sit down!*
**Symudwch!** — *Move!*
**Stopiwch!** — *Stop!*

**Yn y swyddfa:** (chi)
**Eisteddwch wrth y ddesg.** — *Sit by the desk.*
**Agorwch y post.** — *Open the post.*
**Edrychwch ar y papurau.** — *Look at the papers.*
**Darllenwch yr ebyst.** — *Read the emails.*
**Anfonwch yr ebyst.** — *Send the emails.*
**Siaradwch â'r bòs.** — *Talk to the boss.*
**Atebwch y ffôn.** — *Answer the phone.*

**Cyn mynd ar wyliau...**

| | |
|---|---|
| **Paciwch eich cês.** | *Pack your case.* |
| **Codwch am bedwar o'r gloch.** | *Get up at four o'clock.* |
| **Cofiwch eich pasport.** | *Remember your passport.* |
| **Gyrrwch i'r maes awyr.** | *Drive to the airport.* |
| **Parciwch yn y maes parcio.** | *Park in the car park.* |
| **Ymlaciwch!** | *Relax!* |



**Gyda'ch partner, newidiwch y geiriau wedi eu tanlinellu (bob yn ail).**
*Change the underlined words (in turn).*

Golchwch eich **gwallt**.
Bwytwch eich **swper**.
Ffoniwch eich **bòs**.
Smwddiwch eich **crys**.
Cofiwch eich **ffôn**.



**OND...**

| | | |
|---|---|---|
| **Rhedeg** | **Rhedwch yn gyflym.** | *Run quickly.* |
| **Cerdded** | **Cerddwch yn araf.** | *Walk slowly.* |
| **Yfed** | **Yfwch eich dŵr.** | *Drink your water.* |
| **Cymryd** | **Cymerwch eich cerdyn.** | *Take your card.* |
| **Aros** | **Arhoswch yma.** | *Wait here.* |
| **Cau** | **Caewch y drws.** | *Close the door.* |
| **Rhoi** | **Rhowch y sbwriel mas.** | *Put the rubbish out.* |
| **Gadael** | **Gadewch neges.** | *Leave a message.* |
| **Gwrando** | **Gwrandewch ar y neges.** | *Listen to the message.* |


## Gwrando

**Gwrandewch ar y gorchmynion** *(commands)*
ac ysgrifennwch rif y gorchymyn wrth y llun.







| | |
|---|---|
| **Byddwch yn ofalus.** | *Be careful.* |
| **Byddwch yn dawel.** | *Be quiet.* |
| **Byddwch yn barod.** | *Be ready.* |
| **Byddwch yn dda.** | *Be good.* |

| | | |
|---|---|---|
| **Mynd** | **Ewch i'r dde.** | *Go right.* |
| | **Ewch i'r chwith.** | *Go left.* |
| **Dod** | **Dewch yma.** | *Come here.* |
| | **Dewch i mewn.** | *Come in.* |
| **Gwneud** | **Gwnewch eich gwaith cartre.** | *Do your homework.* |
| | **Gwnewch eich gorau.** | *Do your best.* |

## Ti

| | |
|---|---|
| **Coda!** | *Get up!* |
| **Eistedda!** | *Sit down!* |
| **Cerdda!** | *Walk!* |
| **Stopia!** | *Stop!* |

**Yn y tŷ:** (ti)

| | |
|---|---|
| **Eistedda ar y soffa.** | *Sit on the sofa.* |
| **Edrycha ar y teledu.** | *Watch television.* |
| **Darllena'r papur.** | *Read the paper.* |
| **Ateba'r ffôn.** | *Answer the phone.* |
| **Siarada â Mam-gu.** | *Talk to Granny.* |

**Cyn mynd i'r ysgol...**

| | |
|---|---|
| **Coda o dy wely.** | *Get out of your bed.* |
| **Rho dy dedi ar y gwely.** | *Put your teddy on the bed.* |
| **Bwyta dy dost.** | *Eat your toast.* |
| **Gwisga dy wisg ysgol.** | *Put on your school uniform.* |
| **Golcha dy wyneb.** | *Wash your face.* |
| **Brwsia dy ddannedd.** | *Brush your teeth.* |
| **Pacia dy fag.** | *Pack your bag.* |
| **Cofia dy waith cartre.** | *Remember your homework.* |
| **Brysia!** | *Hurry up!* |

| | | |
|---|---|---|
| **Bod** | **Bydd yn ofalus.** | *Be careful.* |
| | **Bydd yn dawel.** | *Be quiet.* |
| **Mynd** | **Cer i'r dde.** | *Go right.* |
| | **Cer i'r chwith.** | *Go left.* |
| **Dod** | **Dere 'ma.** | *Come here.* |
| | **Dere i mewn.** | *Come in.* |
| **Gwneud** | **Gwna dy waith.** | *Do your work.* |
| | **Gwna dy orau.** | *Do your best.* |

**Deialogau gyda phlant**

Gweithiwch gyda'ch partner chi i newid y brawddegau *(change the sentences)*.

**Mam/Dad:** Bydd yn ofalus ar y ffordd i'r ysgol.
**Plentyn:** Pam?
**Mam/Dad:** Dyna pam!

**Mam/Dad:** Cer i'r gwely nawr.
**Plentyn:** Pam?
**Mam/Dad:** Dyna pam!

**Mam/Dad:** Dere i helpu yn y gegin.
**Plentyn:** Pam?
**Mam/Dad:** Dyna pam!


**Mam/Dad:** Gwna dy wely di.
**Plentyn:** Pam?
**Mam/Dad:** Dyna pam!

## Symudwch eich corff! / Symuda dy gorff!


**Codwch!**
**Codwch eich braich dde.**
**Codwch eich braich chwith.**
**Codwch eich coes dde.**
**Rhowch eich coes dde i lawr.**
**Symudwch eich coes chwith.**
**Symudwch eich troed dde.**
**Rhowch eich bys ar eich trwyn.**
**Rhowch eich bys ar eich ceg.**
**Rhowch eich llaw dde ar eich pen.**
**Trowch o gwmpas.**
**Eisteddwch!**

**Coda!**
**Coda dy fraich dde.**
**Coda dy fraich chwith.**
**Coda dy goes dde.**
**Rho dy goes dde i lawr.**
**Symuda dy goes chwith.**
**Symuda dy droed dde.**
**Rho dy fys ar dy drwyn.**
**Rho dy fys ar dy geg.**
**Rho dy law dde ar dy ben.**
**Tro o gwmpas.**
**Eistedda!**


**braich**


**coes**


**troed**


**bys**


**trwyn**


**ceg**


**pen**


**llaw**



## Penwythnos i ffwrdd yng Nghymru

Dilynwch y patrwm:
Ble 'dyn ni'n gallu mynd? Ewch i Landudno. Ble dw i'n gallu mynd? Cer i Sir Benfro.

| | chi | ti |
|---|---|---|
| **Ble > mynd?** | | |
| **Pryd > mynd?** | | |
| **Sut > mynd?** | | |
| **Ble > aros?** | | |
| **Beth > bwyta?** | | |
| **Beth > yfed?** | | |
| **Ble > cerdded?** | | |
| **Sut > dod adre?** | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Peidiwch!** | *Don't!* | **Paid!** |
| **Peidiwch â gyrru'n gyflym.** | *Don't drive quickly.* | **Paid â gyrru'n gyflym.** |
| **Peidiwch â thalu.** | *Don't pay.* | **Paid â thalu.** |
| **Peidiwch â chodi.** | *Don't get up.* | **Paid â chodi.** |
| **Peidiwch â pharcio.** | *Don't park.* | **Paid â pharcio.** |
| **Peidiwch ag agor y drws.** | *Don't open the door.* | **Paid ag agor y drws.** |

**Mewn parau, edrychwch ar y lluniau a dewiswch orchmynion:**
**i) Peidiwch ii) Paid.**




## Ynganu – Darllenwch y ddeialog yma:

**A:** Prynhawn da, Theatr De Cymru.
**B: Prynhawn da. Ydy hi'n bosib prynu dau docyn i'r ddrama nos yfory, os gwelwch chi'n dda?**
**A:** Ydy, wrth gwrs. Ble dych chi eisiau eistedd?
**B: Dw i ddim yn siŵr. Mae fy nhad i'n hen, a dyw e ddim yn gallu cerdded yn dda.**
**A:** Eisteddwch wrth y drws, mae digon o docynnau ar gael.
**B: Hyfryd. 'Dyn ni'n mynd i gyrraedd tua chwarter wedi saith.**
**A:** Dewch i'r ddesg a bydd rhywun yma i'ch helpu chi.
**B: Diolch yn fawr i chi. Mae'r staff bob amser yn hyfryd iawn.**
**A:** Mwynhewch y ddrama a diolch am ffonio.

## Sgwrs

**Arholwr:**
Reit, trowch i'r dde yma.
Ewch mas o'r maes parcio.
Ewch yn araf.
Gyrrwch yn ofalus!
Arafwch...
Peidiwch ag edrych ar eich ffôn chi!
Edrychwch ar y ffordd!
Arafwch...
Arhoswch wrth y...
Brêciwch nawr!
Stopiwch!
Parciwch yma – nawr!

**Mr Evans:** Ydw i wedi pasio?
**Arholwr:** Pasio? Nac ydych wir!
**Mr Evans:** Pam?
**Arholwr:** Pam? Dych chi wedi taro wal a stopioch chi ddim wrth y golau coch. Dw i'n teimlo'n dost!
**Mr Evans:** Ond chaethon ni ddim damwain.
**Arholwr:** Ewch adre wir, Mr Evans, ar y bws.
**Mr Evans:** O wel, diolch yn fawr. Gwela i chi y tro nesa.
**Arholwr:** Dim diolch – byth eto!

## Gwylio – Dewch i Ruthun

Gwyliwch y fideo.

Y tro cynta, faint o weithiau dych chi'n clywed **ewch**?

..........................................................................................

Gwyliwch eto a nodwch y gorchmynion:

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

# Robin Radio

**a) Atebwch:**

Beth fydd yn digwydd ym mis Awst?

..............................................................

Beth oedd Anti Mair yn wisgo yn y lluniau?

..............................................................

Ble mae Stiwdio Radio Rocio?

..............................................................

**b) Gwrandewch am:**

Ro'ch chi'n sôn... —— *You were saying...*
ers y dechrau —— *from the start*
gyferbyn â'r llyfrgell —— *opposite the library*

**c) Cyfieithwch:**

*I have a present for Anti Mair.* ..............................................................

*Where is the studio?* ..............................................................

*I will be in the studio tomorrow morning.* ..............................................................

# Help llaw

**1.** *To give a command or instructions, you need to find the stem of the verb, as you do with short form past tense sentences.*

*On the whole, if the verb finishes with a* ***consonant****, add the ending* **-wch (chi)** *or* **-a (ti)** *to the whole word:*

**Edrychwch/a, Darllenwch/a, Eisteddwch/a**

*If it finishes with a* **vowel***, drop the last vowel before adding* **-wch** *or* **-a**

**Codi > Codwch/Coda**
**Ffonio>Ffoniwch/Ffonia**
**Bwyta>Bwytwch/Bwyta**
**Ymlacio>Ymlaciwch/Ymlacia**

*However, there are some irregular stems which you need to learn.*
*If a verb ends in –***ed** *or –***eg***, this ending will be dropped. 'Eds will roll and eggs will smash'!*

**Cerdded>Cerddwch/Cerdda**
**Rhedeg>Rhedwch/Rheda**

*Some verbs have slightly different informal commands:*
**Troi > Trowch/Tro**
**Rhoi > Rhowch/Rho**

2. *As usual, the verbs* **mynd, dod** *and* **gwneud** *are irregular:*

| | |
|---|---|
| **Mynd > Ewch (***sometimes* **Cerwch)** | **Cer** |
| **Dod > Dewch** | **Dere** |
| **Gwneud > Gwnewch** | **Gwna** |

3. **Peidio â** – *(not to) is followed by the infinitive of the verb and an Aspirate Mutation (an added* **H***) following the letters* **T, C** *and* **P***.*

**Peidiwch â mynd.**
**Peidiwch â thalu.**
**Paid â chodi.**
**Paid â phoeni.**

4. **Â** *becomes* **ag** *before a vowel:*
**Paid ag agor y drws.**

## Syniad da!

**Gwrando ar Radio Cymru**

Pan dych chi yn y car, neu pan dych chi yn y gegin yn coginio – gwrandewch ar Radio Cymru!

Mae Radio Cymru ar gael o 5.30am tan 12.00am (hanner nos) bob dydd ar FM, DAB, teledu digidol ac ar-lein. Dych chi'n gallu "gwrando eto" (ac eto!!) ar App BBC Sounds. Mae rhywbeth i bawb - cerddoriaeth, sgwrs, newyddion, chwaraeon, comedi... Mae Radio Cymru 2 yn chwarae adloniant ysgafn (*light entertainment*) bob bore gyda cherddoriaeth yn Gymraeg a Saesneg. Fyddwch chi ddim yn deall popeth, ond mae gwrando ar Radio Cymru yn eich helpu chi i ddatblygu eich sgiliau Cymraeg (*develop your Welsh language skills*). *Let the* Cymraeg *wash over you and the more you listen, the more you'll understand.*

# Uned 22 (dau ddeg dau) – Yn y gwaith

**Nod: Siarad yn y gwaith ac adolygu unedau 16-21/**
*Speaking at work and revision of units 16-21*
(Pwy sy...? Beth sy..? Faint sy...?)

## Geirfa

| | | | |
|---|---|---|---|
| **afon(ydd)** | *river(s)* | **pont(ydd)** | *bridge(s)* |
| **menyw(od)** | *woman (women)* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **cwpwrdd (cypyrddau)** | *cupboard(s)* | **gwerth** | *worth* |
| | | **parti (partïon)** | *party (parties)* |
| **cwrs (cyrsiau)** | *course(s)* | **pentref(i)** | *village(s)* |
| **ffigwr (ffigyrau)** | *figure(s)* | **sesiwn (sesiynau)** | *session(s)* |
| **ffôn (ffonau) symudol** | *mobile phone(s)* | **siaradwr (-wyr)** | *speaker(s)* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **dangos** | *to show* | **rheoli** | *to manage* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **ail** | *second* | **llawn** | *full* |
| **arbennig** | *special* | **trydydd** | *third* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **dim byd** | *nothing* | **o gwbl** | *at all* |
| **erioed** | *never* | **rhwng** | *between* |
| **heb** | *without* | **rhyw (rhai)** | *some* |
| **neb** | *nobody* | | |

Geiriau pwysig i fi

× ..................................... × .....................................

× ..................................... × .....................................

# Gêm o gardiau

| | ♠ | ♦ | ♣ | ♥ |
|---|---|---|---|---|
| **A** | Sut bydd y tywydd yfory? | Faint o'r gloch wyt ti'n bwyta dy ginio fel arfer? | Beth o'ch chi'n hoffi wneud pan o'ch chi'n blentyn? | Beth yw enw'r dyn drws nesa? |
| **2** | Beth wnaethoch chi ddoe? | Ble byddi di'n mynd yfory? | Oes anifeiliaid anwes gyda chi? | Beth yw enw dy ffrind gorau di? |
| **3** | Beth yw/oedd enw dy fòs di? | Sut mae'r tywydd heddiw/heno? | Ble bydd y plant dydd Llun nesa? | Faint o'r gloch dych chi'n codi fel arfer? |
| **4** | O ble dych chi'n dod yn wreiddiol? | Dwedwch rywbeth am eich gwaith chi. | Sut roedd y tywydd ddoe? | Beth yw lliw dy gar di? |
| **5** | Dwedwch rywbeth am ffrind. | Beth wnaethoch chi neithiwr? | Am faint o'r gloch wyt ti'n bwyta dy frecwast fel arfer? | Beth fyddwch chi'n wneud nos Sul? |
| **6** | Am faint o'r gloch mae eich cloc larwm chi'n canu? | Beth yw dy enw di? (enw 1af) | Ble byddwch chi dydd Nadolig? | Beth yw/oedd eich gwaith chi? |
| **7** | O'ch chi'n hoffi dringo coed pan o'ch chi'n blentyn? | Faint o'r gloch codoch chi dydd Sadwrn? | Beth yw enw'r fenyw drws nesa? | Beth dych chi'n hoffi ar y teledu? |
| **8** | Am faint o'r gloch dych chi'n mynd i gysgu fel arfer? | Ble aethoch chi i'r ysgol? | Beth fyddi di'n wneud y penwythnos nesa? | Faint yw pris peint o gwrw mewn tafarn? |
| **9** | Oes teulu gyda chi? | Ble dych chi'n byw? | Beth wnaethoch chi y penwythnos diwetha? | Beth yw lliw dy esgidiau di? |
| **10** | Gyda phwy dych chi'n siarad Cymraeg? | Beth yw lliw dy lygaid di? | O ble mae dy deulu di'n dod? | Ble dych chi'n hoffi mynd am dro? |
| **Jac** | Ble byddwch chi'n mynd ar wyliau nesa? | Beth yw lliw gwallt y tiwtor? | Sut bydd y tywydd yn Siberia heno? | Pryd dych chi'n siarad Cymraeg? |
| **Brenhines** | Beth yw eich enw chi? (enw llawn) | Beth fyddwch chi'n wneud y mis nesa? | Beth wnaethoch chi neithiwr? | Ble dych chi'n siarad Cymraeg? |
| **Brenin** | Faint yw pris paned o goffi mewn caffi? | Sut bydd y tywydd yn y Sahara yfory? | Ble aethoch chi ar eich gwyliau diwetha chi? | Beth dych chi'n hoffi wneud yn eich amser sbâr chi? |

## Sgwrs 1

Gwrandewch ar y sgwrs a llenwch y grid.

| Ar goll | Ble? |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |

**Ceri:** Bore da, Ms Davies-Hughes. Sut roedd y daith yma heddiw?

**Ms. D-H:** Roedd y traffig yn ofnadwy unwaith eto. Mae'n gas gyda fi yrru ar y ffordd fawr ar fore Llun. A dweud y gwir, mae'n gas gyda fi bob bore Llun.

**Ceri:** Dych chi eisiau paned?

**Ms. D-H:** Mewn munud. Ble mae fy mhost i?

**Ceri:** Ar y ddesg, yn eich swyddfa chi.

**Ms. D-H:** Ble mae fy mhapurau i?

**Ceri:** Mae rhai ar y silff wrth y ffenest, ac mae rhai ar y ddesg.

**Ms. D-H:** Ble mae fy ffeiliau i?

**Ceri:** Yn y cwpwrdd ffeiliau.

**Ms. D-H:** Dw i wedi colli fy ffôn symudol i. Wyt ti'n gwybod ble mae e?

**Ceri:** Ar y bwrdd, dan eich post chi.

**Ms. D-H:** A ble mae fy nghyfarfod cynta i y bore 'ma?

**Ceri:** Bydd eich cyfarfod Skype chi yn y swyddfa yma! Ond mae'r ail gyfarfod yn y brif swyddfa.

**Ms. D-H:** Bendigedig! Oes cyfarfod arall heddiw?

**Ceri:** Oes. Bydd y trydydd cyfarfod ar Zoom y prynhawn yma. A bydd eich paned chi ar eich desg chi mewn munud.

**Ms. D-H:** Diolch yn fawr Ceri, rwyt ti'n werth y byd!

Gwerth y byd – *"worth the world"* – idiom fel "*worth your weight in gold"*.



# Dych chi'n cofio?

| | |
|---|---|
| **- Pwy sy'n siarad?** | **(RR Uned 2)** |
| **- Beth sy'n bod?** | **(RR Uned 11)** |
| **- Beth sy'n digwydd?** | **(Cymraeg dosbarth Uned 12)** |
| **- Pwy sy'n gwneud y rhaglen?** | **(RR Uned 12)** |

**Pwy sy'n gweithio heddiw?** — *Who is working today?*
**Gareth.**

**Pwy sy'n dod i'r briodas?** — *Who's coming to the wedding?*
**Pawb.**

**Pwy sy'n chwarae heno?** — *Who is playing tonight?*
**Wrecsam.**

**Pwy sy'n dysgu'r dosbarth?** — *Who is teaching the class?*
**Eleri Elis.**

**Pwy sy'n actio yn y ffilm?** — *Who is acting in the film?*
**Ioan Ifans.**

**Pwy sy'n agor y bowlio?** — *Who is opening the bowling?*
**Bob Mills.**

**Beth sy'n bod?** — *What is the matter?*
**Dim byd.**


**Beth sy'n digwydd?** — *What is happening?*
**Dim byd.**

**Faint sy'n mynd?** — *How many are going?*
**Neb.**

**Faint sy'n aros?** — *How many are staying?*
**Neb.**

**Pa gwestiwn sy'n mynd gyda pha lun?**

**Pwy sy'n protestio?**
**Pwy sy'n gwneud y baned?**
**Beth sy'n bod?**
**Pwy sy'n canu yn y cyngerdd?**
**Pwy sy'n rhedeg y marathon?**
**Pwy sy'n cael parti?**
**Pwy sy'n siarad?**
**Pwy sy'n chwarae'r gêm?**

1


2


3



4


5


6


7



8


**Pwy sy 'na?** — *Who is there?*
**Pwy sy ar y ffôn?** — *Who is on the phone?*
**Beth sy ar y teledu heno?** — *What is on television tonight?*
**Faint sy yn y dosbarth?** — *How many are in class?*

## Sgwrs 2

**A:** Fyddi di'n mynd i'r cyfarfod mawr yr wythnos nesa?
**B:** Dw i ddim yn siŵr. Pwy sy'n mynd?
**A:** Dw i'n mynd.
**B:** Pryd mae e?
**A:** Chwech o'r gloch.
**B:** Ble mae e?
**A:** Yn y gwesty mawr drws nesa i'r orsaf yn y dre.
**B:** Beth sy'n digwydd ar ôl y cyfarfod?
**A:** Mae swper gyda siaradwr.
**B:** Gaf i lifft?
**A:** Cei, wrth gwrs.
**B:** Grêt. Bydda i'n cofrestru. Gobeithio bydda i'n deall y siaradwr.

## Gwrando – Amserau a Phrisiau

**Llenwch y grid:**

| Beth | Amser dechrau<br>* Defnyddiwch rifau<br>* *Use numbers* | Pris |
|---|---|---|
| **Barbeciw** | | |
| **Ras Rafftiau** | | |
| **Sioe Ffasiynau** | | |
| **Sioe Flodau** | | |
| **Noson Karaoke** | | |

**Siaradwch gyda'ch partner – Ble dych chi eisiau mynd?**
**Wedyn ysgrifennwch ddeialog fach ar batrwm Sgwrs 2 am y digwyddiad yna.**
*Choose one event you would like to go to. Write a dialogue on the pattern of* Sgwrs 2 *about that event.*

## Sgwrs 3:

**Pennaeth:** Bore da bawb. Croeso i'r cyfarfod. Croeso arbennig i Twm Tomos o swyddfa Abercastell.
**Twm Tomos:** Diolch.
**Pennaeth:** Dych chi wedi bod yn Swyddfa Caerheli o'r blaen Twm?
**Twm Tomos:** Nac ydw.
**Pennaeth:** Twm, dyma Rhian, Ryan, Rhys, Rhodri a Rhiannon.
**Twm Tomos:** Siaradwch yn araf os gwelwch chi'n dda.
**Pennaeth:** Peidiwch â phoeni. Reit, mae problem fawr gyda ni. Dw i eisiau dechrau gyda'r ffigyrau yma. Edrychwch ar y graff.
**Twm Tomos:** O diar, dw i ddim yn deall graffiau yn dda iawn.
**Pennaeth:** Mae'n hawdd – mae'r ffigyrau gwerthu yn mynd lawr bob mis, yn arbennig ym mis Awst yn Abercastell. Beth sy'n bod, Twm?
**Twm Tomos:** Wel, dw i wedi bod ar fy mhen fy hun yn y swyddfa am ddau fis. Mae Gwyn wedi bod yn gweithio i ffwrdd.
**Pennaeth:** Ble mae Gwyn wedi bod yn gweithio?
**Twm Tomos:** Yma!
**Pennaeth:** Pam?
**Twm Tomos:** Achos dych chi wedi bod ar y cwrs "Ymlacio gyda Yoga" yn Madeira am fis.
**Pennaeth:** Dw i'n gweld. Reit, amser paned, dw i'n meddwl. Wedyn 'dyn ni'n mynd i drafod y Parti Nadolig. Pwy sy'n trefnu'r bws?

## Beth yw'r ateb?

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **Fyddi di'n cael picnic ym mis Awst?** | **Byddwn.** |
| **2.** | **Fydd hi'n wyntog yfory?** | **Byddan.** |
| **3.** | **Fyddan nhw'n cael gwaith cartre dros y Sul?** | **Bydd.** |
| **4.** | **Fyddwch chi yma yr wythnos nesa?** | **Byddan.** |
| **5.** | **Fydd y dosbarth yn edrych ar S4C dydd Sul?** | **Bydda.** |

## Gwylio

**Gwrandewch ar Gwilym Bowen Rhys yn canu 'Tŷ Bach Twt' a llenwch y bylchau.**

Mae .......................... .......................... dipyn o ............ bach twt,
O ................................ bach twt, o ..................... bach twt.
Mae .......................... .......................... dipyn o ............ bach twt,
A'r gwynt i'r ........................................... bob ....................
Hei di ho, di hei di hei di ho,
A'r gwynt i'r ......................................... bob ....................

A........................... dipyn o gil y .........................................
O gil y .......................... , o gil y .........................................
A........................... dipyn o gil y ......................................... ,
Gael gweld y .......................... a'r tonnau.
Hei di ho, di hei di hei di ho,
Gael gweld y .......................... a'r tonnau.

Ac yna byddaf yn llon ............. myd,
Yn llon ............... myd, yn llon .............. myd.
Ac yna byddaf yn llon ............. myd
A'r .......................... i'r .......................... bob ........................
Hei di ho, di hei di hei di ho,
A'r .......................... i'r .......................... bob ........................
Hei di ho, di hei di hei di ho,
A'r .......................... i'r .......................... bob ........................


## Llyfrau Amdani

Dych chi nawr yn gallu darllen *Ceffylau* gan Fiona Collins. Dych chi'n gallu prynu'r llyfr mewn siop Gymraeg neu ar gwales.com.
Dyma'r clawr a'r paragraff cynta.

**March Arthur**

Amser maith yn ôl...

Dyma'r brenin Arthur.
Dyma geffyl y brenin Arthur. Llamrei ydy enw'r ceffyl.
Mae o'n geffyl da. Mae o'n fawr. March ydy o - ceffyl cryf.




## Robin Radio

**a) Atebwch:**

Pwy yw Mr Richards?

............................................................

Faint fydd oed Anti Mair y mis nesa?

............................................................

Beth mae Mr Richards eisiau drefnu?

............................................................

**b) Gwrandewch am:**

Mae hi wrth ei bodd. —— *She is delighted.*
Dyw hi byth yn hwyr. —— *She is never late.*
yma o hyd —— *still here*

**c) Cyfieithwch:**

*She isn't here yet.* ............................................................

*She will be very sad.* ............................................................

*Here he is now.* ............................................................

## Help llaw

1. *The use of* **sy** *will be fully explained at the next level (*Sylfaen*), but for the time being, learn that it follows* **Pwy, Beth** *and* **Faint** *with verbs and prepositions:*

   **Pwy sy'n siarad?** **Pwy sy wrth y drws?**
   **Beth sy'n digwydd?** **Beth sy ar y teledu?**
   **Faint sy'n mynd?** **Faint sy yn y dosbarth?**

2. **cynta, ail, trydydd**

   **Cynta** *always comes after the noun and mutates after singular feminine nouns:*
   y mab cynta y ferch **g**ynta

   **Ail** *and* **trydydd** *always come before the noun.* **Ail** (*like* dau *and* dwy) *causes a* treiglad meddal.
   ail **g**ar
   trydydd car

# Uned 23 (dau ddeg tri) – Rhaid i fi

**Nod: Siarad am orfod gwneud rhywbeth /**
*Talking about having to do something*
(Rhaid i fi, Oes rhaid i fi?, Does dim rhaid i fi)

## Geirfa

**sigarét(s)** — *cigarette(s)*

**angor** — *anchor*
**cloc larwm** — *alarm clock*
**eryr(od)** — *eagle(s)*
**fideo(s)** — *video(s)*
**iechyd** — *health*
**lliw haul** — *suntan*
**nwy** — *gas*

**caru** — *to love*
**cychwyn** — *to start*
**cytuno** — *to agree*
**dathlu** — *to celebrate*
**dewis** — *to choose*

**byr** — *short*

**ar lan...** — *on the bank of...*
**ar unwaith!** — *at once!*
**mewn pryd** — *in time*
**tu fas (i)** — *outside*
**unwaith** — *once*

Geiriau pwysig i fi

........................................ ........................................
× ×
........................................ ........................................
× ×
........................................ ........................................

# Rhaid

Yn Uned 6, dysgoch chi:

Dw i'n **gorfod siopa** yfory.
Dyma ffordd arall o ddweud *I must*:

**Rhaid i fi siopa yfory.** — *I must shop tomorrow.*
**Rhaid i fi smwddio yfory.** — *I must iron tomorrow.*
**Rhaid i fi weithio yfory.** — *I must work tomorrow.*
**Rhaid i fi goginio yfory.** — *I must cook tomorrow.*

**Rhaid i fi <u>chwarae rygbi</u> dydd Sadwrn.**
**Rhaid i fi <u>ymlacio</u> nos Sul.**
**Rhaid i fi <u>bostio llythyr</u> yr wythnos nesa.**
**Rhaid i fi <u>brynu car newydd</u> y flwyddyn nesa.**
**Rhaid i fi gael <u>halen a finegr</u> ar fy mwyd i.**

**Oes rhaid i ti fynd i gyfarfod heddiw?** — *Do you have to go to a meeting today?*
**Oes rhaid i ti lenwi'r tanc petrol heno?** — *Do you have to fill the petrol tank tonight?*
**Oes rhaid i ti weithio yr wythnos nesa?** — *Do you have to work next week?*
**Oes rhaid i ti dalu'r bil treth y mis nesa?** — *Do you have to pay the tax bill next month?*

**Oes.** ✔ **Nac oes.** ✘

**Does dim rhaid i ni dalu bil heddiw.** — *We don't have to pay a bill today.*
**Does dim rhaid i ni brynu petrol heddiw.** – *We don't have to buy petrol today.*
**Does dim rhaid i chi fynd i'r cyfarfod.** — *You don't have to go to the meeting.*
**Does dim rhaid i chi weld y deintydd.** — *You don't have to see the dentist.*

**Holiadur**

Gofynnwch gwestiynau i'ch partner chi am yr wythnos nesa.




| **Yr wythnos nesa** | ✓ | X |
|---|---|---|
| gyrru llawer | | |
| cadw'n heini | | |
| glanhau'r tŷ | | |
| trefnu rhywbeth | | |
| archebu rhywbeth | | |
| ysgrifennu ebost | | |
| ffonio rhywun | | |
| ysgrifennu siec | | |
| teithio ar drên | | |
| garddio | | |

# Taith Dosbarth

Siaradwch! Ble dych chi'n gallu mynd fel dosbarth i ymarfer Cymraeg cyn diwedd y flwyddyn? Rhaid i chi feddwl am ddau opsiwn: Defnyddiwch **Rhaid i ni**.
Wedyn byddwch chi'n dewis!


| | |
|---|---|
| **Rhaid i Marc weithio dydd Sadwrn.** | *Marc must work on Saturday.* |
| **Rhaid i Mari weithio dydd Sul.** | *Mari must work on Sunday.* |
| **Rhaid iddo fe ffonio ffrind.** | *He must phone a friend.* |
| **Rhaid iddo fe dalu bil.** | *He must pay a bill.* |
| **Rhaid iddi hi brynu car newydd.** | *She must buy a new car.* |
| **Rhaid iddi hi fynd at y deintydd.** | *She must go to the dentist.* |
| **Rhaid i'r plant fynd i'r ysgol.** | *The children must go to school.* |
| **Rhaid iddyn nhw ddarllen.** | *They must read.* |
| **Rhaid iddyn nhw chwarae yn yr iard.** | *They must play in the yard.* |

Gyda'ch partner, dewiswch un peth o bob colofn (*column*) i wneud brawddeg yn dechrau gyda **Rhaid**.

| | | |
|---|---|---|
| **nhw**  |  | **dydd Sadwrn** |
| **Carwyn**  |  | **nawr** |
| **y ffans**  |  | **yfory** |
| **fe**  |  | **nawr** |


| | | |
|---|---|---|
| y babi  |  | bore Llun |
| y plant  |  | dydd Gwener |
| hi  |  | nawr |
| fe  |  | heno |

## Ymarfer



Taflwch y dis a dwedwch frawddeg yn dechrau gyda **Rhaid**.
Gweithiwch lawr y grid.

| |
|---|
| smwddio |
| torri'r lawnt |
| garddio |
| siopa |
| peintio'r tŷ |
| golchi'r car |
| mynd â'r plant i barti |
| golchi dillad |
| llenwi'r tanc petrol |
| coginio cinio dydd Sul |
| dysgu |



**1 – fi** **3 – fe** **5 – chi**
**2 – ti** **4 – hi** **6 - nhw**

Gyda'ch partner, cysylltwch y ddau hanner. *Find the correct solution.*

| | | |
|---|---|---|
| **Mae'r gath yn dost.** | | **Rhaid iddo fe fynd at y barbwr.** |
| **Dyw'r car ddim yn cychwyn.** | | **Rhaid iddo fe brynu chili coch.** |
| **Dw i eisiau gwneud Tae Kwando.** | | **Rhaid i ti ffonio'r garej nawr.** |
| **Collodd y plant y bws eto y bore 'ma.** | | **Rhaid i ti wisgo dillad haf.** |
| **Dw i eisiau bwyta tapas.** | | **Rhaid i ni ymarfer siarad bob dydd.** |
| **'Dyn ni ar gwrs Cymraeg.** | | **Rhaid iddi hi fynd at y fet.** |
| **Dw i'n teimlo'n dwym.** | | **Rhaid i ti symud i Sbaen.** |
| **'Dyn ni eisiau mynd ar saffari.** | | **Rhaid i ti wisgo helmed.** |
| **Mae Carl eisiau coginio cyrri.** | | **Rhaid iddyn nhw gael cloc larwm.** |
| **Mae Bob eisiau gwallt byr.** | | **Rhaid i chi fynd i Affrica.** |

**Rhaid i fi beidio â smocio.** ——— *I mustn't smoke.*
**Rhaid i fi beidio â siarad Saesneg.** ——— *I mustn't speak English.*
**Rhaid i fi beidio â bwyta gormod.** ——— *I mustn't eat too much.*
**Rhaid i fi beidio â bod yn hwyr.** ——— *I mustn't be late.*

## Sgwrs

**Eryl:** Dw i'n caru Tad-cu, ond mae e'n grac iawn heddiw.

**Jo:** Ydy, mae e wedi bod at y doctor. Mae tipyn bach o beswch arno fe.

**Eryl:** Beth ddwedodd y doctor?

**Jo:** Rhaid iddo fe stopio smocio.

**Eryl:** Dw i'n cytuno, mae sigaréts yn ddrud, ac mae peswch arno fe ers wythnosau.

**Jo:** Canu gormod yn y clwb ar ôl y gêm rygbi, yn ôl Tad-cu.

**Eryl:** Rhaid iddo fe stopio mynd i'r clwb i edrych ar y rygbi.

**Jo:** Dyw e ddim yn edrych ar y gêm, mae e'n chwarae i'r tîm dros wyth deg oed!

**Eryl:** Chwarae? Ond mae e'n naw deg saith! Rhaid iddo fe stopio chwarae rygbi ar unwaith!

**Jo:** Roedd y doctor yn cytuno...

**Eryl:** Wel, iechyd da i Tad-cu, beth bynnag!

**Iechyd da – idiom:** *Literally "Good health" but idiomatically "Cheers!"*

## Ynganu

**A:** **Prynhawn da, dych chi'n iawn?**

**B:** Mae tipyn o broblem gyda fi a dweud y gwir. Dw i ddim yn gwybod ble mae fy nghar i.

**A:** **Ydy e yn y maes parcio mawr?**

**B:** Nac ydy. Parciais i ar y stryd, tu fas i siop bapurau.

**A:** **Pa siop bapurau? Mae pedair siop yn yr ardal.**

**B:** Maen nhw'n adeiladu tai newydd dros y ffordd, os dw i'n cofio'n iawn.

**A:** **A, Siop Ifan. Mae hi rownd y gornel yma. Ond brysiwch. Dim ond am hanner awr mae'n bosib parcio ar y stryd yna.**

**B:** Hanner awr? O na! Dw i wedi parcio'r car ers chwarter i naw. Rhaid i fi fynd.

## Gwylio – "Os dych chi'n dod i Gaernarfon…"


**Edrychwch ar y fideo. Rhowch y brawddegau mewn trefn:**

Siarad Cymraeg â phobl newydd
Gweld Lloyd George
Mynd i weld y castell
Gweld yr angor
Cerdded ar lan Afon Menai
Edrych ar yr eryr
Mynd i'r siop lyfrau
Prynu paned neu beint yn Gymraeg

**Heb edrych ar y llyfr, gyda'ch partner, trïwch gofio beth mae'n rhaid i chi wneud yng Nghaernarfon.**

# Robin Radio

**a) Atebwch:**



Pam mae Anti Mair yn hwyr?

..........................................................................................................



Pam mae Llinos yn yr ysbyty?

..........................................................................................................

Beth mae Llinos yn wneud heno?

..........................................................................................................

**b) Gwrandewch am:**

Dych chi i fod yma. —— *You are supposed to be here.*
Mae'n ddrwg gyda fi mod i'n hwyr. —— *I'm sorry I'm late.*
Roedd rhaid i fi fynd. —— *I had to go.*

**c) Cyfieithwch:**

*Llinos must work.* ..........................................................................

*I don't have to!* ..........................................................................

*You must make a cuppa.* ..........................................................................

## Help llaw

**1.** *Here is the pattern for* **Rhaid** *in full:.*

| **Cadarnhaol/** ***Affirmative*** | **Cwestiwn/** ***Question*** | **Negyddol/** ***Negative*** |
|---|---|---|
| **Rhaid i fi** | **Oes rhaid i fi?** | **Does dim rhaid i fi** |
| **Rhaid i ti** | **Oes rhaid i ti?** | **Does dim rhaid i ti** |
| **Rhaid iddo fe** | **Oes rhaid iddo fe?** | **Does dim rhaid iddo fe** |
| **Rhaid iddi hi** | **Oes rhaid iddi hi?** | **Does dim rhaid iddi hi** |
| **Rhaid i ni** | **Oes rhaid i ni?** | **Does dim rhaid i ni** |
| **Rhaid i chi** | **Oes rhaid i chi?** | **Does dim rhaid i chi** |
| **Rhaid iddyn nhw** | **Oes rhaid iddyn nhw?** | **Does dim rhaid iddyn nhw** |

**2.** *The* **treiglad meddal** *following the pattern* **Rhaid i fi** *is caused by the* **i***:* **Rhaid i fi fynd.**

**3.** *There is no* **yn** *in this pattern.*

**4.** **MAE rhaid i fi/ i ti /iddo fe** *etc is the full pattern but the word* **MAE** *is mainly dropped in speech. However* **ROEDD rhaid i fi** *(as heard in* **Robin Radio***) is essential to show that you are talking about the past. We will practise this pattern in the next revision unit.*

**5.** **Mynd at y doctor/ mynd i'r ysbyty –** *In Welsh there are two forms of "going to":*

| | |
|---|---|
| **Mynd i'r gwaith/i'r swyddfa** | **mynd + i + lle** |
| **Mynd at y doctor** | **mynd + at + person** |

**6.** *Look at the difference between*

**Rhaid i fi beidio.** —— *I must not.*
**Does dim rhaid i fi.** —— *I don't have to.*

**7.** Bôn/Stem:

| | | |
|---|---|---|
| **cychwyn** | **cychwynn-** | **cychwynnais i** |

# Uned 24 (dau ddeg pedwar) – Cyn ac ar ôl

**Nod: Siarad am gyfres o ddigwyddiadau yn eu trefn**
*Talking about a series of events in sequence*
(Cyn i fi, Ar ôl i fi)

## Geirfa

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cymraes** | menyw o Gymru | **Saesnes** | menyw o Loegr |
| **losin** | *sweets* | **sêl cist car** | *car boot sale* |
| **oriawr** | *watch* | **stondin(au)** | *stall(s)* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **ambiwlans** | *ambulance* | **syched** | *thirst* |
| **Cymro (Cymry)** | dyn o Gymru (pobl o Gymru) | **tegan(au)** | *toy(s)* |
| **gyrrwr (gyrwyr)** | *driver(s)* | **tegell** | *kettle* |
| **paent** | *paint* | **tŷ bach** | *toilet* |
| **Sais (Saeson)** | dyn o Loegr (pobl o Loegr) | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **gweddol** | *so-so* | **parod** | *ready* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **berwi** | *to boil* | **deffro/dihuno** | *to wake up* |
| **bwydo** | *to feed* | **meindio** | *to mind* |
| **cuddio** | *to hide* | **methu** | *to fail* |

Geiriau pwysig i fi

× ........................ × ........................

× ........................ × ........................

# Ar ôl

**Pryd dechreuoch chi ddysgu Cymraeg?** ______ *When did you start learning Welsh?*
**Ar ôl i fi ddechrau'r ysgol.** ______ *After I started school.*
**Ar ôl i fi gael swydd newydd.** ______ *After I got a new job.*
**Ar ôl i fi symud i Gymru.** ______ *After I moved to Wales.*
**Ar ôl i fi gwrdd â fy mhartner.** ______ *After I met my partner.*
**Ar ôl i fi gael plant.** ______ *After I had children.*
**Ar ôl i fi ymddeol.** ______ *After I retired.*

# Ar ôl i fi...

| | y tiwtor | fi | | |
|---|---|---|---|---|
| codi | | | | |
| mynd i'r tŷ bach | | | | |
| cael cawod | | | | |
| bwyta brecwast | | | | |
| edrych ar y we/ffôn/cyfrifiadur | | | | |
| brwsio dannedd | | | | |
| edrych ar y teledu | | | | |
| darllen papur | | | | |
| bwydo'r ci/y gath/y plant | | | | |
| gwisgo | | | | |
| codi'r plant | | | | |
| golchi gwallt | | | | |
| mynd â'r ci am dro | | | | |
| yfed paned | | | | |
| mynd â'r plant i'r ysgol | | | | |
| mynd i'r dre | | | | |
| mynd i'r gwaith | | | | |


# Cyn

| | |
|---|---|
| **Cyn i fi agor y drws, rhaid i fi ffeindio'r allwedd.** | *Before I open the door, I must find the key.* |
| **Cyn i fi fynd adre, rhaid i fi orffen y gwaith.** | *Before I go home, I must finish the work.* |
| **Cyn i fi fynd i'r parti, rhaid i fi brynu anrheg.** | *Before I go to the party, I must buy a gift.* |
| **Cyn i fi yrru car, rhaid i fi basio fy mhrawf i.** | *Before I drive a car, I must pass my test.* |


## Cysylltwch y lluniau a dwedwch frawddegau:




**marathon**




**stamp**





**swper**




**tegell**




**llythyr**




**llestri**





**paned**




**ymarfer**




**parcio**




**tocyn**

| | |
|---|---|
| **Rhaid i Rhys fynd adre.** | *Rhys must go home.* |
| **Ar ôl iddo fe gyrraedd adre, rhaid iddo fe smwddio.** | *After he arrives home, he must do the ironing.* |
| **Rhaid i Rhian fynd adre.** | *Rhian must go home.* |
| **Ar ôl iddi hi gyrraedd adre, rhaid iddi hi ffonio Mam-gu.** | *After she arrives home, she must phone Granny.* |
| **Rhaid i Rhian a Rhys fynd adre.** | *Rhian and Rhys must go home.* |
| **Ar ôl iddyn nhw gyrraedd adre, rhaid iddyn nhw ymlacio.** | *After they arrive home, they must relax.* |

## Noson Nefyl






**Neithiwr gadawodd Nefyl y tŷ am saith o'r gloch.**

.............................................. **adael y tŷ, aeth e i'r dafarn.**

.............................................. **gyrraedd y dafarn, cafodd e fwyd.**





.............................................. **, gwelodd e Delyth.**

.............................................. **, edrychodd e ar yr oriawr.**

.............................................. **, aeth e i godi Llinos o'r orsaf.**

## Bore Beti







**1. Dihunodd Beti.**

**2.**

**3.**

**4.**

**5.**

,

**gadawodd hi'r tŷ.**

**Pryd byddi di'n mynd adre?**

**Ar ôl i'r dosbarth orffen.** — *After the class finishes.*

**Ar ôl i'r ffilm orffen.** — *After the film finishes.*

**Ar ôl i'r bws gyrraedd.** — *After the bus arrives.*

**Ar ôl i'r dafarn gau.** — *After the pub shuts.*

Gyda'ch partner, cysylltwch y ddau hanner.

| | | |
|---|---|---|
| **Pryd bydd y plant gartre?** | | **Ar ôl i'r pitsa gyrraedd.** |
| **Pryd byddwn ni'n prynu car newydd?** | | **Ar ôl i'r larwm ganu.** |
| **Pryd byddi di'n nôl llaeth?** | | **Ar ôl i'r siec loteri gyrraedd.** |
| **Pryd bydd y parti'n gorffen?** | | **Ar ôl i'r tegell ferwi.** |
| **Pryd byddwch chi'n nôl arian?** | | **Ar ôl i'r ysgol orffen.** |
| **Pryd byddwch chi'n bwyta heno?** | | **Cyn i'r banc gau.** |
| **Pryd 'dyn ni'n mynd i gael paned?** | | **Ar ôl i'r heddlu gyrraedd.** |
| **Pryd byddi di'n codi yfory?** | | **Ar ôl i'r car fethu'r MOT eto.** |
| **Pryd byddi di'n ymddeol?** | | **Ar ôl i'r siop agor.** |

## Ynganu


A: Noswaith dda. Sut dych chi heno?
**B: Wedi blino. Roedd hi'n brysur iawn yn y gwaith heddiw.**
**Ar ôl i fi ddod adre, cysgais i am awr ar y soffa.**
A: Ble dych chi'n gweithio?
**B: Dw i'n gweithio fel gyrrwr ambiwlans yn yr ysbyty.**
A: Pryd dechreuoch chi?
**B: Tair wythnos a hanner yn ôl, ar ôl i fi orffen fy nghwrs coleg.**
A: Dych chi'n mwynhau'r gwaith?
**B: Dim llawer. Dw i'n symud i swydd newydd cyn bo hir.**
**Dw i'n mynd i weithio mewn amgueddfa.**

## Gwrando

**Rhowch lythyren yr ateb cywir yn y bocs:**
*Put the letter of the correct answer in the box:*

**1. Ble mae Catrin yn mynd?** ☐

a


b


c


ch


**2. Pryd mae Catrin yn rhedeg y ras?** ☐

a

Rhagfyr

b
yfory

c

Mai

ch

Ebrill

**3. Beth mae Aled yn hoffi wneud nawr?** ☐

a


b


c


ch


**4. I bwy mae'r Clwb Seiclo'n codi arian dydd Sadwrn?** ☐

a
NSPCC

b
TENOVUS

c
OXFAM

ch
RSPCA

**5. Ble mae ras Aled yn gorffen?** ☐

a



b



c



ch



**6. Faint o ferched sy yn y Clwb Seiclo?** ☐

a 10


b 20

c 30

ch 40

**7. Beth mae Catrin yn mynd i wneud am 1.30?** ☐

a


b



c



ch


**8. Beth mae Aled yn brynu yn siop y garej?** ☐

a


b


c


ch


## Sgwrs – Yn y Sêl Cist Car

**Carys:** Gaf i barcio fy nghar i yma?

**Bill:** Cewch, wrth gwrs. Dych chi wedi bod mewn sêl cist car o'r blaen?

**Carys:** Nac ydw, ond cyn i ni symud tŷ mae'n syniad da i ni werthu tipyn o bethau.

**Bill:** I ble dych chi'n symud?

**Carys:** I Aberystwyth.

**Bill:** Braf iawn. Ro'n i'n arfer byw yn Aberystwyth. Dyna ble dysgais i Gymraeg.

**Carys:** Dych chi wedi dysgu Cymraeg? Dych chi'n siarad yn wych!

**Bill:** Diolch! Sais dw i o Chesterfield, ond dysgais i ar ôl i fi gwrdd â fy ngwraig i. Cymraes yw hi, o Grymych.

**Carys:** O Grymych! Byd bach, mae fy mam-gu i o sir Benfro hefyd.


**Bill:** Mae'r plant yn hoffi mynd ar wyliau i sir Benfro, mae'r traethau'n fendigedig yna. Gaf i helpu gyda'r bocsys?

**Carys:** Diolch yn fawr. Carys dw i. Diolch am eich help chi.

**Bill:** Croeso, Bill dw i. Ar ôl i ni gario'r bocsys o'r car, dych chi eisiau paned o de? Mae fflasg gyda fi yn y car!



## Llyfrau Amdani




Dych chi nawr yn gallu darllen *Stryd y Bont* gan Manon Steffan Ros. Dych chi'n gallu prynu'r llyfr yn eich siop Gymraeg leol chi neu ar www.gwales.com.

Dyma'r clawr (*cover*) ac un paragraff:

Dydd Gwener, 6.12pm

Mae Sioned yn cerdded drwy'r drws. Mae Rhif 1, Stryd y Bont yn dywyll, ac mae Sioned wedi blino ar ôl diwrnod prysur yn y gwaith. Mae hi'n tynnu ei hesgidiau, ac yn tynnu ei chot.

tywyll – *dark*

## Robin Radio

**a) Atebwch:**

Pam roedd Gwen yn hwyr yn dod adre? ..........................................

Pam aeth gŵr Gwen i'r banc? ..........................................

Pam mae Gwen yn ffonio Radio Rocio? ..........................................

**b) Gwrandewch am:**

Roedd olwyn fflat gyda fi. —— *I had a flat tyre.*
Pen-blwydd priodas hapus! —— *Happy anniversary!*
Mwynhewch y noson! —— *Enjoy the evening!*

**c) Cyfieithwch:**

*After the mechanic arrived...* ..........................................

*They didn't take cards.* ..........................................

*After I saw the flowers...* ..........................................

## Help llaw

*This pattern is very similar to* **Rhaid**.

**1.** *Here is the pattern for* **Cyn/Ar ôl** *in full:*

**Cyn/Ar ôl i fi**
**Cyn/Ar ôl i ti**
**Cyn/Ar ôl iddo fe/iddi hi**
**Cyn/Ar ôl i Eryl**

**Cyn/Ar ôl i ni**
**Cyn/Ar ôl i chi**
**Cyn/Ar ôl iddyn nhw**

**2.** *Again, the* **treiglad meddal** *following the pattern* **Cyn/Ar ôl i fi** *is caused by the* **i**: **Cyn i fi fynd.**

**3.** *Again, there is no* **yn** *in this pattern. e.g.* **Ar ôl i fi ymddeol.**

**4.** *There is no difference between past, present and future.*
*Look at the rest of the sentence to work out the tense.*
*Before I go/Before I went =* **Cyn i fi fynd.**
*After I go/After I'd gone =* **Ar ôl i fi fynd.**

# Uned 25 (dau ddeg pump) – Mae bwyd yn y caffi

**Nod: Gofyn am bethau mewn caffi/**
*Asking for things in a café*
(Mae bwyd, Oes bwyd? Does dim bwyd.
Mae'r bwyd... Ydy'r bwyd...? Dyw'r bwyd ddim...)

## Geirfa

| | | | |
|---|---|---|---|
| **bwydlen(ni)** | *menu(s)* | **gwraig tŷ** | *housewife* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **adeiladwr (-wyr)** | *builder(s)* | **garddwr (-wyr)** | *gardener(s)* |
| **bwletin** | *bulletin* | **gorllewin** | *west* |
| **cerddor(ion)** | *musician(s)* | **gweithiwr (gweithwyr)** | *worker(s)* |
| **cig eidion** | *beef* | **gwleidydd(ion)** | *politician(s)* |
| **cig moch/bacwn** | *bacon* | **gŵr tŷ** | *househusband* |
| **cig oen** | *lamb* (cig) | **gwynt(oedd)** | *wind(s)* |
| **cyw iâr** | *chicken* | **Pasg, y** | *Easter* |
| **darn(au)** | *piece(s)* | **porc** | *pork* |
| **diwrnod(au)** | *day(s)* | **pryd(au)** | *meal(s)* |
| **dwyrain** | *east* | | |

| | |
|---|---|
| **adeiladu** | *to build* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **agos** | *close* | **gwan** | *weak* |
| **cryf** | *strong* | **hoff** | *favourite* |
| **eitha** | *fairly, quite* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **hyd yn oed** | *even* | **unman** | *nowhere* |
| **rheina** | *those* | **ychydig** | *a little, a few* |

Geiriau pwysig i fi

........................................ ........................................
× ×
........................................ ........................................
× ×
........................................ ........................................

## Yn y caffi

**Sut mae'r bwyd yn y caffi?**

| | |
|---|---|
| **Mae'r te'n oer.** | *The tea is cold.* |
| **Mae'r brechdanau'n ffres.** | *The sandwiches are fresh.* |
| **Mae'r coffi'n gryf.** | *The coffee is strong.* |
| **Mae'r cacennau'n flasus.** | *The cakes are tasty.* |

| | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r te'n oer?** | *Is the tea cold?* | **Nac ydy.** |
| **Ydy'r coffi'n dda?** | *Is the coffee good?* | **Ydy.** |
| **Ydy'r cacennau'n flasus?** | *Are the cakes tasty?* | **Ydyn.** |
| **Ydy'r staff yn dda?** | *Are the staff good?* | **Nac ydyn.** |

## Siaradwch


Siaradwch am dŷ bwyta yn yr ardal.
Gofynnwch gwestiynau i'ch partner.




| | |
|---|---|
| **Dyw'r bwyd ddim yn barod.** | *The food isn't ready.* |
| **Dyw'r brechdanau ddim yn barod.** | *The sandwiches aren't ready.* |
| **Dyw'r te ddim yn boeth.** | *The tea isn't hot.* |
| **Dyw'r cyrri ddim yn boeth.** | *The curry isn't hot.* |

# Cerdyn post o'r gwyliau

Gyda'ch partner, ysgrifennwch frawddegau am y gwyliau gwych ac am y gwyliau ofnadwy.



**tywydd**
**gwesty**
**traeth**
**môr**
**bwyd**
**gwin**
**plant**



**tywydd**
**gwesty**
**traeth**
**môr**
**bwyd**
**gwin**
**plant**

## Mae...

| | |
|---|---|
| **Mae siwgr ar y bwrdd.** | *There is sugar on the table.* |
| **Mae llaeth yn y jwg.** | *There is milk in the jug.* |
| **Mae cacennau ar y cownter.** | *There are cakes on the counter.* |
| **Mae brechdanau ar y cownter.** | *There are sandwiches on the counter.* |

| | |
|---|---|
| **Mae llawer o fwyd yma.** | *There is a lot of food here.* |
| **Mae digon o fwyd yma.** | *There is enough/plenty of food here.* |
| **Mae gormod o fwyd yma.** | *There is too much food here.* |
| **Mae ychydig o fwyd yma.** | *There is a little food here.* |

| | |
|---|---|
| **Oes siwgr yn y coffi?** | *Is there sugar in the coffee?* |
| **Oes siwgr ar y bwrdd?** | *Is there sugar on the table?* |
| **Oes llaeth ar y bwrdd?** | *Is there milk on the table?* |
| **Oes digon o laeth yn y te?** | *Is there enough milk in the tea?* |

| | |
|---|---|
| **Does dim brechdanau ar ôl.** | *There are no sandwiches left.* |
| **Does dim cacennau ar ôl.** | *There are no cakes left.* |
| **Does dim llaeth ar ôl.** | *There is no milk left.* |
| **Does dim byd ar ôl.** | *There is nothing left.* |

**Edrychwch ar y lluniau gyda'ch partner ac ysgrifennwch dair brawddeg yn dechrau gyda 'Mae...' neu 'Does dim...' wrth bob llun.**




............................................

............................................

............................................

............................................

............................................



............................................

............................................

............................................

............................................

............................................



......................................................

......................................................

......................................................

......................................................

......................................................

......................................................

# Yn eich ardal – Oes...?

| | | |
|---|---|---|
| **pwll nofio** | **sinema** | **theatr** |
| **gorsaf heddlu** | **gorsaf drenau** | **canolfan siopa** |
| **gwesty** | **tafarn** | **swyddfa bost** |
| **ysgol** | **garej** | **llyfrgell** |
| **siop ddillad** | **siop esgidiau** | **ysbyty** |

## Sgwrs 1 – Yn y Tŷ Bwyta – Bwyty Bwyd y Byd

**A:** **Noswaith dda. Croeso i fwyty "Bwyd y Byd". Dych chi ar eich pen eich hun?**

**B:** Mae'n ddrwg iawn gyda fi, mae fy ffrind i, Jen, yn mynd i fod yn hwyr iawn.

**A:** **Wel, 'dyn ni'n brysur iawn... bwrdd i un, felly?**

**B:** Na, dw i eisiau bwrdd i ddau.

**A:** **Iawn. Mae'r pysgod wedi mynd, ond mae un pryd arbennig ar ôl ar y fwydlen.**

**B:** Beth yw e?

**A:** **Ein Paella Poeth. Mae e'n fendigedig.**

**B:** Paella... Poeth?

**A:** **Ie, mae llawer o chili a phaprica yn y paella.**

**B:** Dw i ddim yn siŵr...

**A:** **Rhaid i chi gael y paella.**

**B:** O'r gorau.

**A:** **Ac i yfed? Mae ein gwin coch Bordeaux ni yn mynd yn dda iawn gyda'r paella...**

**B:** Iawn... Bydd syched arna i ar ôl bwyta chili poeth.

**A:** **Mwynhewch eich bwyd!**

## Sgwrs 2 – Yn y caffi

**A:** Prynhawn da. On'd yw'r tywydd yn ofnadwy!
**B: Ydy wir, mae hi'n stormus iawn, on'd yw hi? Mae'r gwynt yn ofnadwy.**
**A:** Dw i wedi bod yn cerdded am oriau! Oes bwyd poeth ar gael yma?
**B: Nac oes, mae'n ddrwg gyda fi, 'dyn ni'n cau mewn hanner awr.**
**A:** Oes brechdanau, 'te?
**B: Oes, mae brechdanau cyw iâr gyda ni... O na, mae'n ddrwg gyda fi, maen nhw wedi mynd hefyd.**
**A:** Beth! Dim brechdanau hyd yn oed. Oes unrhyw fwyd o gwbl?
**B: Wel, mae cacen lemon a bara brith gyda ni.**
**A:** Reit, dw i eisiau rheina, os gwelwch chi'n dda. Gaf i ddarn o gacen lemon a darn o fara brith – gyda mwg mawr o goffi llaeth, plîs?
**B: Dim problem, ar eu ffordd nawr.**

Darllenwch y darn eto a newid y geiriau wedi eu tanlinellu i siarad am "Y Dafarn".

## Gofyn cwestiwn

### Mae

| | |
|---|---|
| **Sut mae'r teulu?** | *How is the family?* |
| **Sut mae'r gwaith?** | *How is work?* |
| **Sut mae'r tywydd?** | *How is the weather?* |
| **Ble mae'r car?** | *Where is the car?* |
| **Pryd mae amser paned?** | *When is coffee time?* |

### Yw

| | |
|---|---|
| **Pwy yw'r tiwtor?** | *Who is the tutor?* |
| **Beth yw eich enw chi?** | *What is your name?* |
| **Faint yw'r bil?** | *How much is the bill?* |
| **Faint o'r gloch yw hi?** | *What time is it?* |

# Y cwmpawd







**Mae Bangor a Wrecsam yng ngogledd Cymru.**

**Mae Caerfyrddin a Chasnewydd yn ne Cymru.**

**Mae Casnewydd a Wrecsam yn nwyrain Cymru.**

**Mae Caerfyrddin a Bangor yng ngorllewin Cymru.**

**Mae Bangor yn y gogledd-orllewin.**

**Mae Wrecsam yn y gogledd-ddwyrain.**

**Mae Caerfyrddin yn y de-orllewin.**


**Mae Casnewydd yn y de-ddwyrain.**

**Ble mae...?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Caerdydd | Tyddewi | Caergybi | Yr Wyddgrug |
| Nant Gwrtheyrn | Pontypridd | Llangrannog | Y Fflint |

# Oedran

| | |
|---|---|
| **Beth yw oed y plentyn?** | *How old is the child?* |
| **Beth yw oed y plant?** | *How old are the children?* |
| **Beth yw oed dy fab di?** | *How old is your son?* |
| **Beth yw oed dy ferch di?** | *How old is your daughter?* |
| | |
| **Mae e'n un oed.** | *He is one.* |
| **Mae e'n ddwy oed.** | *He is two.* |
| **Mae hi'n dair oed.** | *She is three.* |
| **Mae hi'n bedair oed.** | *She is four.* |




















## Ynganu

**A:** Noswaith dda. Croeso i Dŷ Bwyta'r Ddraig.
**B:** **Diolch yn fawr. Ydy hi'n bosib cael bwrdd i ddau, os gwelwch chi'n dda?**
**A:** 'Dyn ni'n llawn ar hyn o bryd, mae'n ddrwg gyda fi.
**B:** **Mae hi'n brysur iawn yma. Fydd rhaid i ni aros yn hir?**
**A:** Tua awr, fallai.
**B:** **Mae popeth yn edrych yn hyfryd, ond dw i eisiau bwyd nawr.**
**A:** Mae siop sglodion rownd y gornel os dych chi eisiau bwyd cyflym.
**B:** **Syniad da. 'Dyn ni'n gallu cael pysgod a sglodion heno a dod yn ôl nos yfory.**

## Ymarfer Arholiad

| | |
|---|---|
| Nyrs/doctor yw hi. | Mae hi'n gweithio mewn ysbyty. |
| Athro yw e. | Mae e'n gweithio mewn ysgol. |
| Gyrrwr bws yw hi. | Mae hi'n gyrru bws. |
| Tiwtor Cymraeg yw e. | Mae e'n dysgu Cymraeg i bobl. |
| Ysgrifenyddes yw hi. | Mae hi'n gweithio mewn swyddfa. |
| Garddwr yw e. | Mae e'n garddio bob dydd. |
| Actores yw hi. | Mae hi'n actio ar y teledu. |
| Cogydd yw hi. | Mae hi'n coginio mewn gwesty. |
| Adeiladwr yw e. | Mae e'n adeiladu tai. |



**Dyma Tom.**

| | |
|---|---|
| **Byw:** | Bangor |
| **Teulu:** | 3 o blant |
| **Hoffi:** | darllen |
| **Neithiwr:** | i'r dafarn |
| **Gwaith:** | (Llun/*Picture*) |

**Edrychwch ar y llun o Tom. Gyda'ch partner, atebwch y cwestiynau:**

Ble mae Tom yn byw? ........................................................................................

Oes teulu gyda fe? ..........................................................................................

Beth mae e'n hoffi wneud?.................................................................................

Beth wnaeth e neithiwr? ....................................................................................

Beth yw gwaith Tom? .......................................................................................

# Gofyn cwestiwn

**Gyda'ch partner, ysgrifennwch o leia** *(at least)* **tri chwestiwn gyda'r geiriau yn y blwch:**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ble | eich | yw | dosbarth | mae |
| hi | plant | teulu | Sut | car |
| gwaith | o'r gloch | mae'r | Faint | chi |
| Beth | Pryd | enw | tywydd | ? |

.....................................................................................................

.....................................................................................................

.....................................................................................................


# Gwrando – Bwletin Tywydd



1. Heddiw, roedd hi'n ..............................................................................
2. Heno, mae hi'n ..............................................................................
3. Yfory, bydd hi'n ..............................................................................
4. Dydd Sul, bydd hi'n ..............................................................................

## Robin Radio

**a) Atebwch:**



Beth sy'n agor nos Sadwrn?

..........................................................................................

Beth mae Anti Mair yn hoffi fwyta?

..........................................................................................

Beth dyw Llinos ddim yn hoffi fwyta?

..........................................................................................



**b) Gwrandewch am:**

yn agos at yr afon ______ *close to the river*
Cymro yw'r cogydd? ______ *Is the chef a Welshman?*
Sais o Lerpwl yw e. ______ *He is an Englishman from Liverpool.*


**c) Cyfieithwch:**

*What is the name of the restaurant?* ..........................................

*The menu is in Welsh and English.* ..........................................

*Are you a vegetarian?* ..........................................

## Help llaw



1. **Mae'r coffi ar y bwrdd.** – *The coffee is on the table. (specific)* ond
   **Mae coffi ar y bwrdd.** – *There is coffee on the table. (non-specific)*

2. **Ydy'r coffi ar y bwrdd? – Ydy.** *(specific)* ond
   **Oes coffi ar y bwrdd? – Oes.** *(non-specific)*

3. *Learn when to use* **yw** *and when to use* **mae** *when there is a definite noun or a pronoun in the question:*
   **PWY, BETH, FAINT+ YW**
   **PRYD, BLE, SUT + MAE**
   *There is only one word in the corresponding patterns in the past and future, but there is a* treiglad meddal *with* pwy, beth *and* faint.

   **Sut roedd y tywydd + Faint oedd y bil?**
   **Sut bydd y tywydd + Faint fydd y bil?**

4. *Age is always feminine in Welsh.*
   **dwy oed** **tair oed** **pedair oed**

# Uned 26 (dau ddeg chwech) – Ei/Ein/Eu

**Nod: Siarad am bethau a phobl sy'n perthyn i bobl eraill**
*Talking about other people's belongings and relatives*
(ei dŷ e; ei thŷ hi; ein tŷ ni; eu tŷ nhw)

## Geirfa

**Siôn Corn** — *Santa Claus*

**aur** — *gold*
**pert** — *pretty*
**taclus** — *tidy*

**defnyddio** — *to use*

Geiriau pwysig i fi

....................................... ......................................
× ×
....................................... ......................................
× ×
....................................... ......................................

# Adolygu Fy a Dy

**Sam yw enw fy <u>mhartner</u> i.** **Beth yw enw dy <u>bartner</u> di?**

**Llenwch o leiaf** *(at least)* **5 blwch:**





| | |
|---|---|
| enw partner | |
| enw mab | |
| enw merch | |
| enw babi | |
| enw (anifail) | |
| lliw (anifail) | |
| mêc car | |
| lliw car | |
| enw bòs | |
| enw tŷ | |
| enw stryd | |
| enw mam/tad | |
| enw brawd/chwaer | |
| enw ysgol | |
| mêc ffôn | |
| enw tiwtor | |
| lliw gwallt | |
| lliw llygaid | |


**Beth yw dy hoff fwyd di?**
**Beth yw dy hoff ddiod di?**
**Beth yw dy hoff lyfr di?**
**Beth yw dy hoff ffilm di?**

**Pitsa yw fy hoff fwyd i.**
**Coffi yw fy hoff ddiod i.**
**Y cwrs Mynediad yw fy hoff lyfr i.**
***Batman* yw fy hoff ffilm i.**

| Enw | Beth? – bwyd | Beth? – diod | Beth? – llyfr | Beth? – ffilm | Pwy? – actor | Pwy? – canwr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |




## Ei __________ e


| | | |
|---|---|---|
|  ei docyn e |  ei ddiod e |  ei lyfr e |
|  ei gar e |  ei _wely e |  ei faneg e |
|  ei bapur e |  ei feic e |  ei restr e |




Dyma fy ffrind i.
Alwyn yw ei enw e.
Mae ei dad e'n dod o Dreorci.
Mae ei bartner e'n dod o Bwllheli.
Mae ei fam e'n dod o Fangor.
Mae ei gar e'n goch.
Mae ei wallt e'n frown.
Mae ei lygaid e'n las.

## Ei ________ hi

| | | |
|---|---|---|
|  ei thocyn hi |  ei diod hi |  ei llyfr hi |
|  ei char hi |  ei gwely hi |  ei maneg hi |
|  ei phapur hi |  ei beic hi |  ei rhestr hi |




Dyma fy ffrind i.
Alwen yw ei henw hi.
Mae ei thad hi'n dod o Dreorci.
Mae ei phartner hi'n dod o Bwllheli.
Mae ei mam hi'n dod o Fangor.
Mae ei char hi'n goch.
Mae ei gwallt hi'n frown.
Mae ei llygaid hi'n las.

Gyda'ch partner, gorffennwch y brawddegau gyda un o'r geiriau.
Defnyddiwch **ei**.

**cân x 2** **llyfr x 2** **partner x 2** **gŵr** **gwraig**

| | |
|---|---|
| Tom Jones | *Green Green Grass of Home* yw enw ________________. |
| Victoria Beckham | David yw enw ________________. |
| Dec | Ant yw enw ________________. |
| Cerys Matthews | *International Velvet* yw enw ________________. |
| Bill Clinton | Hilary yw enw ________________. |
| J K Rowling | *Harry Potter* yw enw ________________. |
| Stephen King | *The Shining* yw enw ________________. |
| Jennifer Saunders | Dawn French yw enw ________________. |

**Mae ein tŷ ni'n hen.** ———— *Our house is old.*

**Mae ein tŷ ni'n fodern.** ———— *Our house is modern.*

**Mae ein car ni'n hen.** ———— *Our car is old.*

**Mae ein car ni'n newydd.** ———— *Our car is new.*

**Mae eu tŷ nhw'n hen.** ———— *Their house is old.*

**Mae eu tŷ nhw'n fodern.** ———— *Their house is modern.*

**Mae eu car nhw'n hen.** ———— *Their car is old.*

**Mae eu car nhw'n newydd.** ———— *Their car is new.*

## Ynganu

**Darllenwch y ddeialog yn uchel gyda'ch partner:**

**Arweinydd:** Tawelwch, os gwelwch chi'n dda. Dyma'r plentyn nesa i ganu yng Nghyngerdd Nadolig Llandudoch.

**Mam-gu/Tad-cu:** **On'd yw hi'n edrych yn bert?**

**Arweinydd:** Heulwen Huws yw ei henw hi. Mae hi wedi dod â'r pianydd o'i hysgol hi, Ysgol Hafod y Coed.

**Mam-gu/Tad-cu:** **Da iawn, Mrs Prydderch.**

**Arweinydd:** Mae hi'n saith oed. Mae hi'n mynd i ganu'r gân "Annwyl Siôn Corn".

**Mam-gu/Tad-cu:** **O dw i wrth fy modd gyda "Annwyl Siôn Corn".**

**Arweinydd:** Felly pawb yn y Neuadd yn dawel a rhowch groeso mawr i Heulwen Huws.

## Sgwrs

**A.** Dych chi'n nabod Elwyn Evans?

**B.** Elwyn Evans. Oedd ei dad e'n blismon yn Llanelli ers llawer dydd?

**A.** Oedd. Dyna chi.

**B.** Mae ei bartner e'n gweithio yn y Cyngor Sir.

**A.** Ydy. Dyna chi.

**B.** Mae ei blant e yn ysgol Abercastell.

**A.** Ydyn. Dyna chi.

**B.** Aeth ei frawd e i Awstralia neu rywle.

**A.** Do, i Seland Newydd. Dyna chi.

**B.** Dyw e ddim yn cadw gwesty ym Mhorthcawl gyda ei frawd arall?

**A.** Ydy. Dyna chi. Dych chi'n ei nabod e?

**B.** Nac ydw, dim o gwbl.

**Newidiwch y cwestiwn cynta i: Dych chi'n nabod Elwen Evans (hi)?**

**Dyma Ffion:**



| | |
|---|---|
| Gweithio: | mewn ysbyty |
| Ddoe: | darllen llyfr |
| Teulu: | 2 fab |
| Byw: | Caergybi |
| Hoffi: | (llun/*picture*) |

Edrychwch ar y llun o Ffion. Gyda'ch partner, atebwch y cwestiynau:

Ble mae Ffion yn gweithio? .................................................................................

Beth wnaeth hi ddoe? .................................................................................

Oes teulu gyda hi? .................................................................................

Ble mae hi'n byw? .................................................................................

Beth mae hi'n hoffi wneud? .................................................................................

**Siaradwch am eich ffrind gorau/bòs/cymdogion chi.**

Beth yw ei enw e? (e.e. Gwyn yw e.)

Beth yw ei waith e?

Beth yw ei ddiddordebau e?

Beth yw ei henw hi?

Beth yw ei gwaith hi?

Beth yw ei diddordebau hi?

Beth yw eu henwau nhw?

Beth yw eu gwaith nhw? ............................................................ yw X.

............................................................ yw Y.

Beth yw eu diddordebau nhw?

## Robin Radio

**a) Atebwch:**

Faint o ystafelloedd gwely sy yn nhŷ newydd Siân? ............................

Beth arall sy yn nhŷ newydd Siân?...........................................................

Beth mae Siôn wedi ei wneud gyda ei arian? ......................................

**b) Gwrandewch am:**

yr un —————— *each*

stafell ymolchi —————— *bathroom (literally "washing room")*

stafell haul —————— *conservatory (literally "sun room")*

**c) Cyfieithwch:**

*her new car* ..........................................................................................

*in his old caravan* ...............................................................................

*his money* .............................................................................................

# Help llaw

family 1 family 2

**1.** *Here is a table of all the pronouns covered in this unit.*

| | **ei ____hi** | **ei _____ e** | **ein _____ni** | **eu _____nhw** |
|---|---|---|---|---|
| **tŷ** | ei **thŷ** hi | ei **dŷ** e | ein tŷ ni | eu tŷ nhw |
| **car** | ei **char** hi | ei **gar** e | ein car ni | eu car nhw |
| **plant** | ei **phlant** hi | ei **blant** e | ein plant ni | eu plant nhw |
| **brawd** | ei brawd hi | ei **frawd** e | ein brawd ni | eu brawd nhw |
| **doctor** | ei doctor hi | ei **ddoctor** e | ein doctor ni | eu doctor nhw |
| **gwaith** | ei gwaith hi | ei __waith e | ein gwaith ni | eu gwaith nhw |
| **mam** | ei mam hi | ei **fam** e | ein mam ni | eu mam nhw |
| **lle** | ei lle hi | ei **le** e | ein lle ni | eu lle nhw |
| **rhieni** | ei rhieni hi | ei **rieni** e | ein rhieni ni | eu rhieni nhw |
| **oed** | ei **hoed** hi | ei oed e | ein **hoed** ni | eu **hoed** nhw |

**2. Ei** *(his) ... causes the* ***soft mutation****, like* **dy** *(your).*

**Ei** *(her) ... causes the* **aspirate mutation***. This entails adding a* **H** *to any words starting with the consonants* **C**, **P** *and* **T***. In addition to this,* **ei** *(her) also adds a H to words starting with a vowel (***A, E, I, O, U, W, Y***).*

*Plural possessives do not in general take a mutation. However, it is necessary to add a* **h** *to any word starting with a vowel following* **ein** *(our) or* **eu** *(their)* - ein **h**enw ni, eu **h**enw nhw.

**3.** *Adjectives usually follow the noun as in* **car du**, **cath ddu***. However, a few adjectives go* ***before*** *the noun. One of the most useful is* **hen** *(old) e.g.* **hen gar***. Notice that placing the adjective before the noun causes a* ***soft mutation****.*

# Uned 27 (dau ddeg saith) – Pobl y Cwm

**Nod: Siarad am eiddo a pherthnasau/***Talking about possessions and relatives*

## Geirfa

**cyfnither(od)** — *cousin(s)*
**nith(od)** — *niece(s)*
**opera (operâu)** — *opera(s)*
**prifysgol(ion)** — *university (universities)*

**canol** — *middle, centre*
**cefnder (cefndryd)** — *cousin(s)*
**cyfenw(au)** — *surname(s)*
**cylchgrawn (cylchgronau)** — *magazine(s)*
**hanes(ion)** — *history (histories)*
**hen beth(au)** — *antique(s)*
**nai (neiaint)** — *nephew(s)*
**ystyr(on)** — *meaning(s)*


**llond ceg** — *a mouthful*


Geiriau pwysig i fi


........................................ ........................................
× ×
........................................ ........................................
× ×
........................................ ........................................


## Pris y petrol

**Beth yw pris y petrol?** — *What is the price of the petrol?*
**Beth yw rhif y tŷ?** — *What is the number of the house?*
**Beth yw enw'r tŷ?** — *What is the name of the house?*
**Beth yw enw'r dre?** — *What is the name of the town?*



**£1.15 y litr**



**£1.19 y litr**



**£1.25 y litr**


**£1.36 y litr**






























## Pris petrol

**Beth yw pris petrol?** — *What is the price of petrol?*
**Beth yw pris cwrs Cymraeg?** — *What is the price of a Welsh course?*
**Beth yw pris cyfrifiadur?** — *What is the price of a computer?*
**Beth yw pris ffôn symudol?** — *What is the price of a mobile phone?*




.................................... .................................... .................................... ....................................

**Mam Siân dw i.** — *I'm Siân's mother.*
**Brawd Siân dw i.** — *I'm Siân's brother.*
**Ewythr Siân dw i.** — *I'm Siân's uncle.*
**Ffrind Siân dw i.** — *I'm Siân's friend.*

## Coeden deuluol



**Beth yw enw dy dad di?** —— *What is your father's name?*
**Beth yw enw dy frawd di?** —— *What is your brother's name?*
**Beth yw enw dy fodryb di?** —— *What is your aunt's name?*
**Beth yw enw dy bartner di?** —— *What is your partner's name?*

**Fiesta yw mêc fy nghar i.** —— *Fiesta is the make of my car.*
**Coch yw lliw fy nghar i.** —— *Red is the colour of my car.*
**Dr Jones yw enw fy noctor i.** —— *Dr Jones is the name of my doctor.*
**Banc Bryncastell yw enw fy manc i.** —— *Banc Bryncastell is the name of my bank.*

**Pwy ddwedodd?**
***Bart  Simon Cowell  Sali Mali  Juliet  Shakespeare  Batman***

Romeo yw enw fy nghariad i. ..........

Batmobile yw enw fy nghar i. ..........

Homer yw enw fy nhad i. ..........

Jac y Jwc yw enw fy ffrind i. ..........

*X Factor* yw teitl fy rhaglen i. ..........

*King Lear* yw teitl fy nrama i. ..........

**Beth yw mêc eich car chi?** —— *What is the make of your car?*
**Beth yw lliw eich car chi?** —— *What is the colour of your car?*
**Beth yw enw eich doctor chi?** —— *What is the name of your doctor?*
**Beth yw enw eich banc chi?** —— *What is the name of your bank?*

**Holiadur – Gofynnwch y cwestiynau i bum person yn y dosbarth**

| Enw | mêc car | lliw car | enw doctor | enw banc |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

**Pwy yw'r capten?** —— *Who is the captain?*
**Pwy yw capten y tîm?** —— *Who is the captain of the team?*
**Pwy yw capten tîm Cymru?** —— *Who is the captain of the Welsh team?*

**Gyda'ch partner, cyfieithwch:**

*Who is the head?* ..........

*Who is the head of the school?* ..........

*Who is the head of Aberheli School?* ..........

*Who is the teacher?* ..........

*Who is the teacher of the class?* ..........

*Who is the teacher of Year 6?* ..........

*Where is the middle?* ..........

*Where is the city centre?* ..........

*Where is the centre of the city of London?* ..........

**Gyda'ch partner, ysgrifennwch y cwestiwn:**

.......... JK Rowling yw awdur llyfrau Harry Potter.

.......... Bethan Gwanas yw awdur llyfrau Blodwen Jones.

.......... Ian Fleming oedd awdur llyfrau James Bond.

.......... Shakespeare oedd awdur *Macbeth*.

.......... John Davies oedd awdur *Hanes Cymru*.

.......... Dylan Thomas oedd awdur *Under Milk Wood*.

## Ynganu

**Bryn Terfel**

Mae Bryn Terfel yn dod o Bant-glas yng Ngogledd Cymru yn wreiddiol ac mae e wedi gweithio'n galed iawn i lwyddo ym myd opera. Erbyn hyn, mae e'n canu dros y byd. Aeth e i'r coleg yn y Guildhall yn Llundain ble enillodd e'r fedal aur. Dechreuodd e weithio i Gwmni Opera Cenedlaethol Cymru yn 1990 pan ganodd e *Cosi Fan Tutte*. Wedyn aeth e i weithio ym Mrwsel cyn canu yn *Figaro* yn Covent Garden yn 1992. Ym mis Medi 2011, canodd e yn Central Park, Efrog Newydd o flaen dros saith deg mil o bobl. Mae e'n helpu Urdd Gobaith Cymru, Shelter Cymru a Chanolfan Therapi Plant Bobath yng Nghaerdydd.

## Sgwrs – Yn Siop y Gornel

Gwrandewch ar y Sgwrs a llenwch y tabl am Ann.

| | |
|---|---|
| **Enw llawn** | |
| **Cyfeiriad** | |

**A:** **Helô 'na! Esgusodwch fi, ond beth yw pris y cylchgrawn yma?**

**B:** Dwy bunt yw pris y cylchgrawn yna. Bargen!

**A:** **Wel ydy, mae'n dipyn o fargen. Mmm! Ydy hi'n bosib archebu'r cylchgrawn bob mis?**

**B:** Ydy, wrth gwrs. Un funud. Beth yw'r enw?

**A:** **Ann. Ann Rhydderch.**

**B:** Diolch. Ann... Beth oedd y cyfenw eto, plîs?

**A:** **Rhydderch. Mae'n dipyn o lond ceg!**

**B:** A beth yw'ch cyfeiriad llawn chi, Ann?

**A:** **7 Ffordd y Parc, Aberheli.**

**B:** Na! 7 Ffordd y Parc! Mam Dafydd Rhydderch dych chi?

**A:** **Ie. Pam? Beth mae e wedi wneud nawr?**

**B:** Dim byd. Ond tad Siân dw i, cariad Dafydd.

**A:** **Chi yw Mr Davies, tad Siân? O, byd bach!**

## Gwylio – Croeso i Gaerdydd

**Gwyliwch y fideo ac ysgrifennwch y lleoedd dych chi'n gweld – 5 lle.**


.....................................................................................................................

.....................................................................................................................

## Llyfrau Amdani

Dych chi nawr yn gallu darllen *Pass y Sugnydd Llwch, Darling!* gan Rhodri a Lucy Owen. Dych chi'n gallu prynu'r llyfr yn eich siop Gymraeg leol chi neu ar www.gwales.com.

Dyma'r clawr (*cover*) ac un paragraff:




Mae Rhodri a Lucy Owen yn byw yn **y Bont-faen** gyda eu mab Gabriel. Mae'r ddau yn gwneud gwaith **cyflwyno** ar y teledu. Mae Rhodri yn cyflwyno ar y rhaglen deledu *Heno* ac mae Lucy yn darllen y newyddion ar BBC Wales. Mae Gabriel a Rhodri yn siarad Cymraeg yn **rhugl**. Mae Lucy yn dysgu Cymraeg. Hoff beth Gabriel ydy hanes, hoff beth Rhodri ydy **cadw'n heini**. Hoff beth Lucy ydy **hwfro**. Mae hi'n hoffi hwfro'r tŷ.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Bont-faen | *Cowbridge* | cyflwyno | *to present* |
| rhugl | *fluent* | cadw'n heini | *to keep fit* |
| hwfro | *to hoover* | | |

## Robin Radio

**a) Atebwch:**

I ba dre/ddinas aeth Catrin dros y penwythnos? ..............................................................

Pam doedd hi ddim eisiau mynd i'r Senedd? ..............................................................

Faint o gestyll sy yn y sgwrs? ..............................................................

**b) Gwrandewch am:**

Beth yw dy hanes di? — *What's your history? (lit.) What have you been doing?*

Dyfala ble es i. — *Guess where I went.*

Dw i newydd fod... — *I've just been...*

**c) Cyfieithwch:**

*I don't like antiques.* ..............................................................

*I must have a clue.* ..............................................................

*Is The Millennium Centre the answer?* ..............................................................

# Help llaw

**1.** *This pattern,* **pris te, pris y te** *can sometimes be difficult because it is so different to English. Think of it as* **Pobl y Cwm** *syndrome.*
*The People of the Valley =* **Pobl y Cwm**.

**Un** *THE* **yn Saesneg** *(the price of petrol)*
**Dim 'Y' yn Gymraeg**
**(pris petrol)**

**Dau** *THE* **yn Saesneg** *(the price of the petrol)*
**Un 'Y' yn Gymraeg**
**(pris y petrol)**

**2.** *When something belongs to or is associated with a person or place, we have no* **y** *at all:*

| | |
|---|---|
| *The Welsh team* | **Tîm Cymru** |
| *The University of South Wales* | **Prifysgol De Cymru** |
| *The National Library of Wales* | **Llyfrgell Genedlaethol Cymru** |

**3.** *Notice that* **y** *or* **yr** *appears as* **'r** *when following a vowel:*

**Beth yw rhif y car?**
**Beth yw cyfeiriad yr ysgol?**
**Beth yw enw'r athrawes?**

**4.** *Notice the answer* **Ie** *in the* Sgwrs. *We answer* **Ie** *to an emphatic question. In Welsh, a non-emphatic sentence or question begins with a verb. However, if there is a different part of speech at the beginning, we answer* **Ie** *or* **Na / Nage.** *Look at the examples:*

| | |
|---|---|
| **Mam Dafydd Rhydderch dych chi?** | **Ie/Na. (Nage.)** |
| **Coch yw lliw eich gwallt chi?** | **Ie/Na. (Nage.)** |
| **Doctor dych chi?** | **Ie/Na. (Nage.)** |
| **(Dych chi'n gweithio fel doctor?)** | **(Ydw/Nac ydw.)** |

# Uned 28 (dau ddeg wyth) – Adolygu'r cwrs ac edrych ymlaen

**Nod: Adolygu lefel Mynediad**

## Geirfa

| | | | |
|---|---|---|---|
| **campfa** | *gym* | **rownd** | *round* (gêm / diod) |
| **ffurflen(ni)** | *form(s)* | | |
| **trio** | *to try* | **tynnu** | *to pull, to take off, to take out* |
| **ola** | *last* | **tal** | *tall* |
| **perffaith** | *perfect* | | |
| **gwir neu gau** | *true or false* | **ymlaen** | *forward* |
| **llongyfarchiadau** | *congratulations* | **yn barod** | *already* |

Geiriau pwysig i fi

×

×

×

×

# Gêm o gardiau

| | ♠ | ♦ | ♣ | ♥ |
|---|---|---|---|---|
| **A** | Sut mae'r tywydd heddiw? | Ble aethoch chi i'r ysgol? | Beth wnaethoch chi cyn dod yma heddiw? | Sut roedd y tywydd ddoe? |
| **2** | Beth wnaethoch chi yr wythnos diwetha? | Pryd codoch chi y bore 'ma? | Beth gest ti i frecwast heddiw? | Beth wnaethoch chi ddoe? |
| **3** | Ble dych chi wedi bod yng Ngogledd Cymru? | Ble aethoch chi ar eich gwyliau diwetha chi? | Beth mae rhaid i chi wneud yfory? | Dych chi wedi gweld *Pobol y Cwm*? |
| **4** | Gofynnwch gwestiwn i fi, os gwelwch chi'n dda! | Dych chi'n mynd i gampfa? | Beth o'ch chi'n hoffi wneud pan o'ch chi'n blentyn? | Beth mae rhaid i chi wneud heno? |
| **5** | Oes anifail anwes gyda chi? | Beth yw'ch gwaith chi? | Gyda phwy dych chi'n siarad Cymraeg? | Oes teulu gyda chi? |
| **6** | Beth fyddwch chi'n wneud dros y penwythnos? | Sut bydd y tywydd yn Sawdi-Arabia yfory? | Beth dych chi'n hoffi wneud yn eich amser sbâr? | Beth brynoch chi mewn siop ddiwetha? |
| **7** | Beth weloch chi ar y teledu ddiwetha? | Beth gest ti i ginio dydd Sul? | Faint o'r gloch dych chi'n mynd i'r gwely fel arfer? | Ble ro'ch chi nos Galan ddiwetha? |
| **8** | O ble dych chi'n dod yn wreiddiol? | Dych chi'n hoffi wyau Pasg siocled? | Beth dych chi'n hoffi wneud ar ddydd Sadwrn? | Am faint o'r gloch dych chi'n edrych ar y newyddion? |
| **9** | Pwy yw dy hoff actor di? | Beth yw mêc eich car chi? | Beth yw dy hoff air Cymraeg di? | Ble dych chi'n dysgu Cymraeg? |
| **10** | Beth wnaethoch chi ar ôl i chi adael yr ysgol? | Faint o'r gloch yw hi nawr? | Pwy yw dy gymdogion di? | Ble dych chi'n byw? |
| **Jac** | Beth yw lliw eich llygaid chi? | Beth dych chi'n hoffi yfed mewn caffi? | Beth yw dy hoff ffilm di? | Beth wnaethoch chi neithiwr? |
| **Brenhines** | Ble dych chi eisiau mynd ar wyliau? | Beth yw enw eich ffrind gorau chi? | Faint o'r gloch dych chi'n codi fel arfer? | O ble mae eich teulu chi'n dod yn wreiddiol? |
| **Brenin** | Ble rwyt ti'n hoffi mynd am dro yng Nghymru? | Sut daethoch chi yma heddiw? | Dych chi wedi bod yn Iwerddon? | Beth dych chi'n hoffi yfed mewn parti? |

**Gyda'ch partner, parwch hanner o'r grid cynta â hanner o'r grid nesa.**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhaid | Nyrs | Ydy'r plant yn hapus? | Dw i'n edrych | Beth yw dy | Dw i'n mynd i'r |
| Mae'r ferch yn (3) | Bydd hi'n | Mae'r babi'n un | Dyma fy | Rhaid i | Mae hi'n chwarter |
| Mae'r trên am | Mae'r bachgen yn (4) | Mae'r swyddfa'n | Dw i'n gweithio yn | Sut | Gwnaeth e |
| Wnaethon nhw ddim | Pwy | Faint | Dw i'n gwrando | Wnaeth | Beth wnest |
| Roedd hi'n | Beth yw eich | Mae Aled yn gweithio | Mae hi'n hanner awr | Pryd | Ble |
| *********** | *********** | *********** | *********** | *********** | *********** |
| bedair oed | i bedwar | dri o'r gloch | i fi brynu bara | oer ddoe | waith di? |
| brysur iawn heddiw | mae swper? | mae'r teulu? | enw chi? | yw hi | dair oed |
| ar y teledu | wedi dau | mae'r ysgol? | yw'r pris? | chi fynd | wyntog yfory |
| yr ysbyty | mewn banc | yw'r actores? | gwaith nawr | nheulu i | ar y radio |
| Ydyn | y plant gysgu? | mynd i'r gêm | fynd i'r parti | oed | ti neithiwr? |

# Gwrando a darllen – Yn y parc

| **Enw** | **Pam maen nhw yn y parc?** | **Pryd maen nhw'n mynd i'r parc?** | **Pa anifail anwes sy gyda nhw?** |
|---|---|---|---|
| **Mair** | **1** | **2** | **3** |
| **Gareth** | **4** | **5** | **6** |
| **Enw** | **Pam ro'n nhw yn yr ysbyty?** | **Ble maen nhw'n mynd ym mis Hydref?** | |
| **Mair** | **7** | **8** | |
| **Gareth** | **9** | **10** | |

**Gareth:** Helô Mair, sut wyt ti ers llawer dydd?

**Mair:** Eitha da diolch, Gareth. Rwyt ti'n edrych yn dda. Wyt ti'n rhedeg yn aml?

**Gareth:** Ydw, dw i'n trio rhedeg bob dydd, ond dim ond ar y penwythnos dw i'n dod yma. Dw i'n mynd i'r gampfa yn y gwaith o ddydd Llun i ddydd Gwener.

**Mair:** Dw i'n dod yma bob dydd. Mae'n lle braf i fynd â'r ci am dro. Mae e'n mwynhau rhedeg ar ôl y bêl.

**Gareth:** Ydy wir. Helô, Pero.

**Mair:** Oes anifail anwes gyda ti?

**Gareth:** Dim nawr. Roedd cath gyda ni pan oedd y plant yn fach.

**Mair:** Felly pam rwyt ti'n rhedeg bob dydd, Gareth?

**Gareth:** Dw i'n ymarfer – dw i'n rhedeg hanner marathon Caerdydd ym mis Hydref.

**Mair:** Da iawn ti! Wyt ti'n codi arian at rywbeth?

**Gareth:** Ydw – at ysbyty Abercastell. Maen nhw angen arian drwy'r amser.

**Mair:** Roedd rhaid i fi fynd i ysbyty Abercastell pan o'n i'n blentyn. Roedd rhaid i fi gael tynnu fy nhonsils. Roedd y bwyd yn ofnadwy ond roedd y nyrsys yn hyfryd iawn – rhoion nhw hufen iâ i fi un diwrnod. Roedd llwnc tost gyda fi ar ôl i fi gael tynnu fy nhonsils!

**Gareth:** Torrais i fy nghoes yn chwarae rygbi yn yr ysgol. Roedd rhaid i fi gael plastar yn yr ysbyty ond arhosais i ddim dros nos.

**Mair:** Dyma ti – deg punt, achos dw i'n mynd ar wyliau ym mis Hydref.

**Gareth:** Diolch yn fawr. Ble rwyt ti'n mynd y tro 'ma?

**Mair:** I Sbaen, wrth gwrs, fel arfer. A dw i'n mynd yn y car, felly dw i'n gallu mynd â Pero hefyd!

**Gareth:** Braf iawn. Hwyl i ti, a diolch am yr arian. A hwyl fawr i ti ar dy wyliau, Pero!


**Mair:** Pob hwyl yn y ras, Gareth.



Disgrifiwch beth sy yn y llun.


Beth dych chi'n wneud i ymlacio?

## Dych chi'n cadw'n heini? Sut?



**Beth oedd rhaid i ti wneud y bore 'ma?** *What did you have to do this morning?*

**Roedd rhaid i fi olchi'r llestri.** ____________ *I had to wash the dishes.*
**Roedd rhaid i fi fynd â'r biniau mas.** ____ *I had to take the bins out.*
**Roedd rhaid i fi fynd â'r ci am dro.** ______ *I had to take the dog out for a walk.*
**Roedd rhaid i fi fynd â'r plant i'r ysgol.** _ *I had to take the children to school.*



## Gwrando a darllen – Diwedd y cwrs

**Tiwtor:** Reit, dyma'r dosbarth ola. Llongyfarchiadau i bawb! 'Dyn ni wedi gorffen y cwrs!
**Dosbarth:** Hwrê!
**Tiwtor:** Cyn i ni fynd i'r dafarn i ddathlu, bydd rhaid i ni wneud un peth bach. Rhaid i chi lenwi ffurflen am y cwrs.
**Dosbarth:** Oes rhaid i ni?
**Tiwtor:** ______________________________! Gawn ni ymarfer bach yn gynta? Cwestiwn un. Dych chi wedi mwynhau'r cwrs?
**Dosbarth:** ______________________________, wrth gwrs.
**Tiwtor:** Dych chi'n dod yn ôl i wneud y cwrs nesa?
**Dosbarth:** ______________________________, wrth gwrs.
**Tiwtor:** Oedd y cwrs yn ddiddorol?

**Dosbarth:** ______________________, wrth gwrs.
**Tiwtor:** O'ch chi'n hapus gyda phopeth?
**Dosbarth:** ______________________, wrth gwrs
**Tiwtor:** Ddysgoch chi'r treigladau yn berffaith?
**Dosbarth:** ______________________, wrth gwrs
**Tiwtor:** Fyddwch chi'n gwneud y cwrs Sylfaen nesa?
**Dosbarth:** ______________________, wrth gwrs.
**Tiwtor:** Dych chi'n mynd i ymarfer eich Cymraeg cyn y cwrs nesa?
**Dosbarth:** ______________________, wrth gwrs.
**Tiwtor:** Fyddwch chi'n edrych ar S4C?
**Dosbarth:** ______________________, wrth gwrs
**Tiwtor:** Fydd Radio Cymru yn y car bob dydd?
**Dosbarth:** ______________________, wrth gwrs
**Tiwtor:** Reit – dych chi eisiau i fi ddweud popeth eto?
**Dosbarth:** ______________________wir! (x)
**Tiwtor:** Oes cwestiwn gyda chi?
**Dosbarth:** ______________________wir! (x)
**Tiwtor:** Dych chi eisiau taflen am y cwrs nesa?
**Dosbarth:** ______________________, wrth gwrs.
**Tiwtor:** Da iawn chi – dw i'n mynd i brynu'r rownd gynta i bawb!

**Cyn y dosbarth nesa...**
*Before the next class...*

Cymraeg

**Bydd rhaid i ni edrych ar S4C.**
*We will have to watch S4C.*
**Bydd rhaid i ni wrando ar Radio Cymru.**
*We will have to listen to Radio Cymru.*
**Bydd rhaid i ni siarad Cymraeg mewn siop.**
*We will have to speak Welsh in a shop.*
**Bydd rhaid i ni gwrdd â ffrindiau i siarad Cymraeg.**
*We will have to meet friends to speak Welsh.*

**Dyma Siân.**



| | |
|---|---|
| byw: | Prestatyn |
| teulu: | 3 mab |
| gwaith: | deintydd |
| ddoe: | i'r pwll nofio |
| amser sbâr: | (llun/picture) |

**Gyda'ch partner, atebwch y cwestiynau.**

**Ble mae Siân yn byw?** ..........................................................................................

**Oes teulu gyda hi?** ...............................................................................................

**Beth yw gwaith Siân?** ..........................................................................................

**Ble aeth Siân ddoe?** ............................................................................................

**Beth mae hi'n hoffi wneud yn ei hamser sbâr?** ..............................................

..........................................................................................................................................

## Gwrando a darllen – Yn y Siop

**Gwrandewch ar y sgwrs ac atebwch y cwestiynau.**

**Gwir neu Gau:**

Bydd Anti Sali yn saith deg oed dydd Sadwrn. ..........................................................

Bydd Tomos yn saith oed dydd Sadwrn. ......................................................................

Mae Carys eisiau prynu cacen i Anti Sali. .....................................................................

Mae Aled eisiau prynu trên bach i Tomos. ...................................................................

**Cyfieithwch:**

*birthday cake* ____________________

*afternoon tea* ____________________

*birthday present* ____________________

*T-shirt* ____________________

**Dych chi'n gallu meddwl am rywbeth arall?**

cacen ____________ te ____________

anrheg ____________ crys ____________

**Carys:** Bore da Aled, sut wyt ti?
**Aled:** Helô Carys, dw i'n iawn, diolch.
**Carys:** Gaf i ofyn cwestiwn i ti? Pa gerdyn wyt ti'n hoffi? Yr un gyda balŵns pinc, neu'r un yma gyda chacen pen-blwydd?
**Aled:** Dw i ddim yn siŵr, i bwy mae'r cerdyn?
**Carys:** Mae chwaer fy mam, Anti Sali, yn wyth deg oed dydd Sadwrn. 'Dyn ni'n mynd â hi i Westy Dewi Sant i gael te prynhawn.
**Aled:** Bendigedig! Rhaid i ti ddewis y cerdyn gyda'r gacen, dych chi'n siŵr o gael cacen arbennig iawn yng Ngwesty Dewi Sant!
**Carys:** A dweud y gwir, dw i wedi coginio un yn barod, mae Anti Sali yn hoffi cacen ffrwythau gyda digon o frandi – a dw i'n edrych ymlaen at fwyta'r gacen hefyd!
**Aled:** Wel, wyt ti'n gallu helpu gyda dewis anrheg pen-blwydd i Tomos?
**Carys:** Dy fab di? Beth mae e'n hoffi wneud?
**Aled:** Mae e'n hoffi trenau. Mae'r llyfr yna'n edrych yn dda, ond mae e dipyn bach yn anodd.
**Carys:** Beth am y crys T yna? Yr un gyda thrên glas.
**Aled:** Perffaith! Glas yw ei hoff liw e. Wyt ti'n gallu gweld un i fachgen saith oed? Mae e'n cael ei ben-blwydd e'n chwech oed dydd Sadwrn, ond mae e'n fachgen tal iawn.
**Carys:** Fel ei dad e! Dyma fe, crys T i blentyn saith oed. Ble dych chi'n cael parti?
**Aled:** Yn y ganolfan hamdden, gyda chastell neidio. Mae'r dosbarth i gyd yn dod a bydd jeli coch i bawb!
**Carys:** Pob lwc gyda'r parti!
**Aled:** Diolch.

## Siaradwch



**Pryd roedd y tro diwetha aethoch chi i barti? Parti pwy? Ble roedd y parti?**

**Fyddwch chi'n dathlu rhywbeth yn y misoedd nesa? Beth? Ble? Sut? Gyda phwy?**

## Robin Radio

**a) Atebwch:**

Ble mae Robin yn mynd? ..........

Pam? ..........

Pam mae Anti Mair yn mynd hefyd? ..........

**b) Gwrandewch am:**

Gaf i air? —— *Can I have a word?*
Paid â bod yn swil. —— *Don't be shy.*
Gawn ni weld. —— *We shall see.*

**c) Cyfieithwch:**

*Can you come here?* ________

*What am I going to do?* ________

*It will be terribly boring.* ________

## Syniad da – Mynd i amgueddfa!

Mae Amgueddfa Cymru (*the National Museum of Wales*) yn deulu o saith amgueddfa – yn Llanberis, Dre-fach, Abertawe, Sain Ffagan, Caerdydd, Caerleon a Blaenafon. Dych chi wedi bod i un? Siaradoch chi Gymraeg? Mae llawer o staff Amgueddfa Cymru yn siarad Cymraeg, felly dych chi'n gallu mwynhau diwrnod mas a siarad Cymraeg. Mae adnoddau (*resources*) i helpu dysgwyr hefyd: e.e
Llwybrau Llafar Sain Ffagan - https://amgueddfa.cymru/media/45094/Llwybrau-Llafar.pdf
Pwll Mawr - https://amgueddfa.cymru/geiriauglo/
Yr Amgueddfa Wlân – Gwau Geiriau - https://amgueddfa.cymru/gwaugeiriau/

Mae mynediad am ddim hefyd!

# Yr Arholiad

## Paratoi at Arholiad Mynediad
*Preparing for the Entry level exam*

---

## Geirfa

**arholiad(au)** — *exam(s)*
**cyfweliad(au)** — *interview(s)*
**manylion** — *details*
**trip(iau)** — *trip(s)*

**paratoi** — *to prepare*

**tebyg** — *similar; likely*

Geiriau pwysig i fi

........................................ ........................................
× ×
........................................ ........................................
× ×
........................................ ........................................

## Papur 1 yw'r Papur Darllen a Deall.

Mae hanner awr i wneud tri chwestiwn.

## Cwestiwn 1 – Hysbysebion

Mae'r cwestiwn yn codi yn y Gwaith cartref am y tro cynta yn Uned 17.

## Cwestiwn 2 – Deialog

**Gyda'ch partner, darllenwch y ddeialog, ac yna llenwch y gridiau ar sail yr wybodaeth a roddir.**
*Read the dialogue, then complete the grids based on the information given.*

**Mae Dafydd a Bethan yn cwrdd yn noson gofrestru** *(registration)* **y dosbarthiadau nos yn y Coleg.**

**Dafydd:** Helô Bethan. Sut wyt ti? Wyt ti'n mynd i wneud cwrs Sbaeneg eto eleni?

**Bethan:** Mwynheuais i'r cwrs Sbaeneg yn fawr iawn llynedd, ac ro'n i'n mynd i wneud cwrs Sbaeneg Blwyddyn 2 eleni. Ond dyw'r cwrs ddim yn mynd i redeg achos does dim digon o bobl.

**Dafydd:** O, mae'n ddrwg gyda fi. Fel rwyt ti'n gwybod, do'n i ddim yn hapus o gwbl gyda'r cwrs Sbaeneg llynedd. Do'n i ddim yn lico'r tiwtor a doedd y tiwtor ddim yn fy lico i!

**Bethan:** Pa gwrs wyt ti'n mynd i'w wneud eleni, 'te?

**Dafydd:** Ro'n i'n mynd i wneud cwrs coginio ond mae e'n costio gormod.

**Bethan:** O wel, dim dosbarth nos i ti na fi eleni!

**Dafydd:** Trueni!

**Bethan:** Ddefnyddiaist ti dy Sbaeneg ar dy wyliau?

**Dafydd:** Naddo, es i ddim i Sbaen. Arhosais i mewn carafán yn Harlech am wythnos. Roedd y tywydd yn wlyb bob dydd. Byth eto!

**Bethan:** Wel, ces i wyliau bendigedig yn Sbaen. Roedd y bwyd yn dda, roedd y tywydd yn ardderchog a siaradais i dipyn bach o Sbaeneg bob dydd. Mwynheuais i bob munud.

**Dafydd:** Rhaid i fi fynd i Sbaen ar wyliau y flwyddyn nesa. Dw i'n mynd i ofyn pwy yw tiwtor cwrs Sbaeneg Blwyddyn 1 eleni. Os bydd tiwtor newydd, dw i'n mynd i wneud y cwrs eto!

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

**Gair gan y tiwtor:**

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

# Gwaith cartref Uned 24 (dau ddeg pedwar)

**1. Atebwch: (Defnyddiwch "Cyn i fi/Ar ôl i fi")**

**i.** Pryd cawsoch chi frecwast heddiw?

........................................................................................................

**ii.** Pryd byddwch chi'n cael brecwast yfory?

........................................................................................................

**iii.** Pryd cawsoch chi baned ddiwetha?

........................................................................................................

**iv.** Pryd byddwch chi'n cael paned nesa?

........................................................................................................

**v.** Pryd edrychoch chi ar eich ffôn chi ddiwetha?

........................................................................................................

**vi.** Pryd byddwch chi'n edrych ar eich ffôn chi nesa?

........................................................................................................

**vii.** Pryd symudoch chi dŷ ddiwetha?

........................................................................................................

**viii.** Pryd byddwch chi'n symud tŷ nesa?

........................................................................................................

**2. Ysgrifennwch bum pwynt am ddoe, a phump am yfory.
Defnyddiwch "ar ôl i fi" neu "cyn i fi" bob tro:**

**DDOE**
**e.e. "Ar ôl i fi godi, gwnes i baned"**

**i.** ........................................................................................................

**ii.** ........................................................................................................

**iii.** ........................................................................................................

**iv.** ..........................................................................................

**v.** ..........................................................................................

**YFORY**
**e.e. "Cyn i fi fynd i'r gwely, bydda i'n mynd â'r ci am dro."**

**vi.** ..........................................................................................

**vii.** ..........................................................................................

**viii.** ..........................................................................................

**ix.** ..........................................................................................

**x.** ..........................................................................................

**3. Hysbysebion/***Advertisements*

**Darllenwch yr hysbysebion yma. Yna, atebwch y cwestiynau sy'n dilyn ar sail yr wybodaeth yn yr hysbysebion. Does dim rhaid defnyddio brawddegau.**
*Read these advertisements. Then, answer the questions which follow on the basis of the information in the advertisements. You do not need to use sentences.*

**Ysgol Roc**

Dewch i gwrs gitâr gyda'r gitarydd
enwog Jeff Peck.

Yn Neuadd y Dre, Caellydan.

Dydd Sadwrn, 31 Hydref o 10 y bore tan 5 y prynhawn.

Dewch â'ch gitâr drydan.

Ffoniwch Ffred Ffrimstone ar 01339 44590 am le.

Pris llawn: £30

## Dosbarth Dawnsio Bol

Tiwtor: Martha Jones

Yng Nghanolfan Gymunedol, Brodawel.

7.00-9.00 bob nos Fercher.

Dechrau: 5 Medi
£50 am 5 dosbarth.

Rhaid talu yn y dosbarth cynta.
Ffoniwch Martha ar 01678 457492 neu e-bostiwch
martha@dawnscymru.co.uk

**Bydd Megan Evans yn agor ei chaffi newydd am 8.00 bore Llun, 12 Mehefin!**

## Caffi'r Groes

Prynwch un brecwast mawr a chael un arall am ddim!

Bydd y *chef* teledu Chris Evans, brawd Megan, yno yn y prynhawn.

Dewch i gwrdd â fe!

**Cwestiynau**

**i.** Pam mae Jeff Peck yn enwog? ..........................................................

**ii.** Ble mae Neuadd y Dre? ..........................................................

**iii.** Am faint o'r gloch mae'r cwrs gitâr yn dechrau? ..........................................

**iv.** Beth yw gwaith Martha Jones? ..........................................................

**v.** Ar ba noson mae'r dosbarth dawnsio bol? ..........................................

**vi.** Faint yw pris pump dosbarth dawnsio? ..........................................

**vii.** Pryd mae rhaid i chi dalu am y cwrs? ..........................................

**viii.** Caffi pwy yw Caffi'r Groes? ..........................................................

**ix.** Sut dych chi'n gallu cael brecwast am ddim? ..........................................

**x.** Pryd bydd brawd Megan yn y caffi? ..........................................

### 4. Llenwi bylchau/*Gap-filling*


**Llenwch y bylchau yn y brawddegau yma, gan ddefnyddio'r sbardun mewn cromfachau neu'r llun, fel y bo'n briodol:**
*Fill the gaps in these sentences, using the prompts in brackets or the pictures, as appropriate:*

**i.** Dw i'n hoffi ................................ yn y parc. 

**ii.** Mae John yn gweithio ................................ swyddfa fawr.

**iii.** Oes coffi ar y bwrdd? ................................ (✔)

**iv.** Beth ................................ (gwneud) hi neithiwr?

**v.** Roedd hi'n ................................ ddoe. 

**vi.** Faint yw oed Aled? ................................ (3) oed.

**vii.** Dw i'n byw ym ................................ **Bangor**

**viii.** Dw i'n mynd i'r gwely am hanner................................ wedi deg. **10.30**

**ix.** Gaf i ofyn cwestiwn, os ................................ chi'n dda?

**x.** Rhaid ................................ ni dalu'r bil.

**Gair gan y tiwtor:**

................................................................................................

................................................................................................

................................................................................................

................................................................................................

# Gwaith cartref Uned 25 (dau ddeg pump)

**1. Cyfieithwch/** *Translate:*

**i.** *There is a new menu in the cafe.* ................................................................................

..................................................................................................................................

*The menu is on the table.* ................................................................................

..................................................................................................................................

**ii.** *Is there a restuarant in the village?* ................................................................................

..................................................................................................................................

*Is the restaurant expensive?* ................................................................................

..................................................................................................................................

**iii.** *There's no toilet in the village.* ................................................................................

..................................................................................................................................

*The toilet isn't working.* ................................................................................

..................................................................................................................................

**2. Llenwch y bylchau:**

**i.** Beth ............ eich ................................... chi?

**ii.** ........................ o'r gloch ....................... hi?

**iii.** Sut mae'r .................................. ?

**iv.** Ble ...................................... car?

**v.** ...................... mae'r dosbarth?

**3. Atebwch y cwestiynau yma gyda brawddeg lawn** *(full sentence):*

**i.** Ble dych chi'n byw?

..................................................................................................................................

**ii.** O ble dych chi'n dod yn wreiddiol?

..................................................................................................................................

**iii.** Ble aethoch chi i'r ysgol?

..................................................................................................................................

**iv.** Beth yw'ch gwaith chi?

..................................................................................................................................

**v.** Oes teledu gyda chi?

..................................................................................................................................

**vi.** Oes anifeiliaid anwes gyda chi?

....................................................................................................

**vii.** Ble aethoch chi ar eich gwyliau diwetha?

....................................................................................................

**viii.** Beth wnaethoch chi ddoe?

....................................................................................................

**ix.** Beth wnaethoch chi neithiwr?

....................................................................................................

**x.** Beth wnaethoch chi y penwythnos diwetha?

....................................................................................................

**xi.** Beth dych chi'n wneud y penwythnos nesa?

....................................................................................................

**xii.** Beth dych chi'n hoffi wneud yn eich amser sbâr?

....................................................................................................

**xiii.** Ble dych chi'n dysgu Cymraeg?

....................................................................................................

**xiv.** Sut daethoch chi yma heddiw (i'r dosbarth)?

....................................................................................................

**xv.** Beth dych chi'n hoffi ar y teledu?

....................................................................................................

**xvi.** Beth mae'n rhaid i chi wneud yfory?

....................................................................................................

**xvii.** Sut mae'r tywydd heddiw?

....................................................................................................

**xviii.** Sut roedd y tywydd ddoe?

....................................................................................................

**xix.** Am faint o'r gloch dych chi'n codi fel arfer?


....................................................................................................

**xx.** Beth o'ch chi'n hoffi wneud pan o'ch chi'n blentyn?

....................................................................................................

### 4. Portread/*Portrait*

**Ysgrifennwch 5 brawddeg am y person yn y llun yn defnyddio'r wybodaeth yn y symbolau.**
*Write 5 sentences about the person in the picture using the information in the symbols around him.*




**Dyma Dafydd.**

**i.** ....................................................................................................

**ii.** ....................................................................................................

**iii.** ....................................................................................................

**iv.** ....................................................................................................

**v.** ....................................................................................................

**5. Ysgrifennwch fwletin tywydd i S4C am yr wythnos:**

Sut roedd y tywydd yng Nghymru ddoe?
Sut mae'r tywydd heddiw?
Sut bydd y tywydd heno, yfory a dros y penwythnos?

Dyma'r bwletin tywydd. Ddoe ..........................................................................

..........................................................................

Heddiw ..........................................................................

..........................................................................

Heno ..........................................................................

..........................................................................

Yfory ..........................................................................

..........................................................................

a dros y penwythnos ..........................................................................

..........................................................................

felly ..........................................................................

..........................................................................

A dyna'r bwletin tywydd.

**Gair gan y tiwtor:**

..........................................................................

..........................................................................

..........................................................................

..........................................................................

..........................................................................

..........................................................................

# Gwaith cartref Uned 26 (dau ddeg chwech)

**1. Newidiwch: e > hi:**

**i.** Beth yw lliw ei lygaid e?

..................................................

**ii.** Beth yw ei enw e?

..................................................

**iii.** Beth yw ei rif ffôn e?

..................................................

**iv.** Roedd ei wallt e'n ddu.

..................................................

**v.** Roedd ei dad e'n gyrru lori.

..................................................

**vi.** Mae e wedi torri ei goes e.

..................................................

**2. Newidiwch: hi > e:**

**i.** Beth yw mêc ei char hi?

..................................................

**ii.** Beth yw ei hoed hi?

..................................................

**iii.** Beth yw lliw ei gwallt hi?

..................................................

**iv.** Ydy ei phlant hi yn yr ysgol?

..................................................

**v.** Mae ei phartner hi wedi ymddeol.

..................................................

**vi.** Mae ei gwaith hi'n brysur.

..................................................

**3. Cymharwch** *(compare)* **chi â'r cymdogion, e.e.**

**Mae ein car ni'n hen, mae eu car nhw'n newydd.**

**i.** ....................................................................................................

**ii.** ....................................................................................................

**iii.** ....................................................................................................

**4. Darllenwch y ddeialog ac atebwch y cwestiynau:**

**Mae Lowri a Tracy'n cwrdd yn y parc.**

**Lowri:** Tracy! Sut mae'r hwyl?

**Tracy:** O, ddim yn ddrwg. Mae pen tost gyda fi ar ôl bod gyda'r ddau fachgen drwy'r dydd.

**Lowri:** Mae'n anodd, dw i'n gwybod. Dim ond un sy gyda fi, a dw i wedi blino bob dydd, drwy'r dydd!

**Tracy:** Dw i'n gwybod. Es i i'r gwely neithiwr am wyth o'r gloch.

**Lowri:** Dw i'n eitha lwcus. Daeth fy mam aton ni neithiwr i edrych ar ôl Gwenllian, felly es i a fy ngŵr am bryd o fwyd.

**Tracy:** Do? Ble aethoch chi?

**Lowri:** Aethon ni i'r lle newydd ar y stryd fawr. Rwyt ti'n gwybod... maen nhw'n gwneud pasta da iawn.

**Tracy:** O ie. Mae fy mam i wedi bod yno. Mae hi'n hoffi coginio bwyd yr Eidal, ac roedd hi'n hapus iawn gyda'r lle.

**Lowri:** Mae dy fam di'n dda am goginio, on'd yw hi?

**Tracy:** Ydy.

**Lowri:** Mae fy mam i'n help mawr hefyd, ond mae hi'n brysur yn chwarae bowls yn yr haf.

**Tracy:** Ydy hi'n gweithio o gwbl?

**Lowri:** Nac ydy. Mae hi wedi ymddeol o'r ysbyty. Beth am dy fam di?

**Tracy:** Mae hi'n gweithio'n rhan-amser yn yr ysgol erbyn hyn. Mae hi'n hoffi dweud fel jôc, 'dw i'n fam-gu amser llawn'!

**Lowri:** Ha! Mae'r plant yma'n barod i fynd adre.

**Tracy:** Ydyn. Hwyl, Lowri.

| Enw | Beth sy'n bod arnyn nhw? | Faint o blant sy gyda nhw? | Beth wnaethon nhw neithiwr? |
|---|---|---|---|
| Lowri | 1. | 2. | 3. |
| Tracy | 4. | 5. | 6. |

| Enw | Beth maen nhw'n hoffi wneud? | Ble maen nhw'n gweithio? |
|---|---|---|
| Mam Lowri | 7. | 8. |
| Mam Tracy | 9. | 10. |

**Nawr, ysgrifennwch bedair brawddeg** *(sentences)* **am Lowri, a phedair am Tracy.**

**Lowri, e.e. Mae plentyn gyda hi.**

**i.** ..........................................................................................

**ii.** ..........................................................................................

**iii.** ..........................................................................................

**iv.** ..........................................................................................

**Tracy, e.e. Aeth hi i'r gwely am wyth o'r gloch neithiwr.**

**i.** ..........................................................................................

**ii.** ..........................................................................................

**iii.** ..........................................................................................

**iv.** ..........................................................................................

**Gair gan y tiwtor:**

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

# Gwaith cartref Uned 27 (dau ddeg saith)

**1. Beth yw'r cwestiwn?**

**i.** Cartref yw enw'r tŷ. ........................................................................

**ii.** Jac a Craig yw enwau'r cymdogion. ..............................................

**iii.** CJ19 HHA yw rhif y car. .................................................................

**iv.** Coch yw lliw fy ngwallt i. ...............................................................

**2. Atebwch:**

**i.** Beth yw lliw eich car chi? ...............................................................

**ii.** Beth yw lliw eich llygaid chi? .........................................................

**iii.** Beth yw enw'ch deintydd chi? .......................................................

**iv.** Beth yw enw'ch ffrind gorau chi? ...................................................

**3. Ysgrifennwch y paragraff yn y trydydd person/**
*Rewrite the paragraph in the third person:*

Dw i'n byw gyda fy nhad i, Elfed, ym Mhwllheli. Dw i'n gweithio gyda fy nhad hefyd ond dw i ddim yn mwynhau'r gwaith. Does dim plant gyda fi. Dw i'n hoffi darllen a mynd i'r sinema gyda ffrindiau. Es i i'r dosbarth Cymraeg neithiwr a dysgais i lawer. Mae'r tiwtor yn dda iawn.

**Mae John yn byw**

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

**4. Ysgrifennwch frawddegau/gwestiynau yn dechrau gyda phob un o'r patrymau:**

**i.** Dw i ..........................................................................................

**ii.** Does dim ..........................................................................................

**iii.** Ro'n i ..........................................................................................

**iv.** Fyddan nhw ..........................................................................................

**v.** Mae e wedi ..........................................................................................

**vi.** Ydy hi wedi ..........................................................................................

**vii.** O't ti ..........................................................................................

**viii.** Fydda i ddim ..........................................................................................

**ix.** Dych chi wedi ..........................................................................................

**5. Geirfa Uned 27. Llenwch y bylchau:**

**i.** Mab eich brawd yw eich ..........................................................................

**ii.** Dych chi'n mynd i'r theatr i weld ..........................................................

**iii.** "Mae eich ...................................................... yn canu. Atebwch e!"

**iv.** Mae un ar ddeg o chwaraewyr pêl-droed mewn ......................................

**v.** Siân yw fy enw cynta i. Jones yw fy ......................................................

**vi.** Mae plant yn hoffi chwarae yn y ...........................................................

**6. Ysgrifennwch gerdyn post yn cynnwys y geiriau isod i gyd.**
**Does dim rhaid iddyn nhw fod yn y drefn yma.**
**Dylech chi ysgrifennu rhwng 50 a 60 gair.**
*Write a postcard including all these words.*
*They do not have to be in this order.*
*You should write between 50 and 60 words*

**ddoe** **bwyd** **yfory** **darllen** **braf**

7 Mehefin

Annwyl

..................................................................................

..................................................................................

..................................................................................

..................................................................................

..................................................................................

..................................................................................

..................................................................................


..................................................................................

..................................................................................

..................................................................................

Pob hwyl,

............................................



**Chris Morris**

2 Ffordd y Bryn
Caerddinas
Cymru
SY12 2DL

**Gair gan y tiwtor:**

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

# Gwaith cartref (Arholiad)
# 1. Ysgrifennu Cerdyn Post

**1. Cerdyn Post**
*Postcard*

**Ysgrifennwch gerdyn post yn cynnwys y geiriau isod i gyd.**
**Does dim rhaid iddyn nhw fod yn y drefn yma.**
**Dylech chi ysgrifennu rhwng 50 a 60 gair.**
*Write a postcard including all these words.*
*They do not have to be in this order.*
*You should write between 50 and 60 words*

**cerdded heno ddoe ystafell gwlyb**

6 Mehefin

Annwyl Ann,

............................................................................

............................................................................

............................................................................

............................................................................

............................................................................

............................................................................

............................................................................


............................................................................

............................................................................

............................................................................

Pob hwyl,

.............................................



**Ann Evans**

3 Heol y Môr
Llanaber
Cymru
SA11 2NJ

**2. Edrychwch ar y geiriau 'Gofyn cwestiwn' ar dudalen 262 ac ysgrifennwch gwestiwn i fynd gyda phob gair. Defnyddiwch ddarn o bapur** *(Use a piece of paper.)*

**Gair gan y tiwtor:**

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

# Geirfa

**ben.** – *fem.*, **gwr.** – *masc.*, **ll.** – *pl.*, **gw.** – *see*, **bôn** – *stem*

## A

a (+ Treiglad Llaes) – *and*
a dweud y gwir – *to be honest*
Abertawe – *Swansea*
ac ati – *et cetera*
actor (gwr.) – *an actor;* actorion – *actors*
actores (ben.) – *an actress;* actoresau – *actresses*
achos – *because*
adeilad (gwr.) – *a building;* adeiladau – *buildings*
adeiladu – *to build* (bôn: adeilad- )
adeiladwr (gwr.) – *a builder;* adeiladwyr – *builders*
adolygu – *to revise* (bôn: adolyg- )
adre – *home (homeward)*
e.e. 'mynd adre' – *to go home*
afon (ben.) – *a river;* afonydd – *rivers*
afreolaidd – *irregular*
agor – *to open* (bôn: agor- )
agos – *near*
angel (gwr.) – *an angel;* angylion – *angels*
angen – *to need*
angen (gwr.) - *a need;* anghenion – *needs*
anghofio – *to forget* (bôn: anghofi- )
anghywir – *incorrect, wrong*
angor (gwr.) – *an anchor;* angorau – *anchors*
ail – *second*
allan – *out*
allwedd (ben.) – *a key;*
allweddi – *keys* (De Cymru)
am – *about*
ambiwlans (gwr.) – *an ambulance;*
ambiwlansys – *ambulances*
amgueddfa (ben.) – *a museum;*
amgueddfeydd – *museums*
aml – *often*
amser (gwr.) – *time, a time*
amser sbâr – *spare time*
anifail (gwr.) – *an animal;*
anifeiliaid – *animals*
anifail anwes (gwr.) – *a pet*
annwyd (gwr.) – *a cold;* anwydau – *colds*
annwyl – *dear, beloved*
anodd – *difficult*
anrheg (ben.) – *a gift;* anrhegion – *gifts*
apwyntiad (gwr.) – *an appointment;*
apwyntiadau – *appointments*
ar (+ Treiglad Meddal) – *on*
ar gael – *available*
ar gyfer – *for (for the purpose of)*
ar hyn o bryd – *at the moment*
ar lan… – *on the banks of…, on the shore of*
ar ôl – *after, following*
ar unwaith – *at once*
ar werth – *for sale*
araf – *slow*
arall – *other*
arbennig – *special*
archebu – *to order, to book, to reserve* (bôn: archeb- *)*
ardderchog – *excellent*
arholiad (gwr.) – *an exam;* arholiadau – *exams*
arian (gwr.) – *money, silver*
aros – *to wait* (bôn: arhos- )
ateb – *to answer* (bôn: ateb- )
ateb (gwr.) – *an answer;* atebion – *answers*
athrawes (ben.) – *a female teacher;*
athrawesau – *female teachers*
athro (gwr.) – *a male teacher;* athrawon – *male teachers*
athro cyflenwi (gwr.) – *a supply teacher*
aur (gwr.) – *gold*
awdur (gwr.) – *an author;* awduron – *authors*
awr (ben.) – *an hour;* oriau – *hours*
awyren (ben.) – *an aeroplane;* awyrennau – *aeroplanes*

## B

babi (gwr.) – *baby;* babis – *babies*
bach – *small*
bachgen (gwr.) – *a boy;* bechgyn – *boys*
bag (gwr.) – *a bag;* bagiau – *bags*

banana (gwr.) – *a banana;* bananas – *bananas*
banc (gwr.) – *a bank;* banciau – *banks*
bar (gwr.) – *a bar;* bariau – *bars*
bara (gwr.) – *bread*
bargen (ben.) – *a bargain;* bargeinion – *bargains*
barn (ben.) – *opinion;* barnau – *opinions*
bechgyn – *boys* (gw. bachgen)
bechod! – *what a pity!* (Gogledd Cymru)
beic (gwr.) – *a bike;* beiciau – *bikes*
beic modur (gwr.) – *a motor bike;* beiciau modur – *motor bikes*
beiro (gwr.) – *a biro;* beiros – *biros*
bendigedig – *fantastic*
benthyg – *to borrow, to lend;* (bôn: benthyc- )
berwi – *to boil* (bôn: berw- )
beth? – *what?*
beth bynnag – *anyway, whatever*
bisged (ben.) – *a biscuit;* bisgedi – *biscuits*
ble? – *where?*
blin – *angry* (Gogledd Cymru)
blodyn (gwr.) – *a flower;* blodau – *flowers*
blwyddyn (ben.) – *a year;* blynyddoedd – *years*
blynyddoedd – *years* (gw. blwyddyn)
bod – *to be*
bol / bola (gwr.) – *a stomach;* boliau – *stomachs*
bore (gwr.) – a *morning;* boreau – *mornings*
bowlio – *to bowl* (bôn: bowli- )
braf – *fine*
braich (ben.) – *an arm;* breichiau – *arms*
brawd (gwr.) – *a brother;* brodyr – *brothers*
brecwast (gwr.) – *a breakfast;* brecwastau – *breakfasts*
brechdan (ben.) – *a sandwich;* brechdanau – *sandwiches*
breichiau – *arms* (gw. braich)
bron – *nearly*
brws (gwr.) – *a brush;* brwsys – *brushes*
brwsio – *to brush* (bôn: brwsi- )
brysio – *to hurry* (bôn: brysi- )
buan – *soon*
bugail (gwr.) – *a shepherd;* bugeiliaid – *shepherds*
bwletin (gwr.) – *a bulletin;* bwletinau – *bulletins*
bwrdd (gwr.) – *a table;* byrddau – *tables*
bwrw eira – *to snow*
bwrw glaw – *to rain*
bws (gwr.) – *a bus;* bysiau – *buses*
bwyd (gwr.) – *food;* bwydydd – *foods*
bwydlen (ben.) – *a menu;* bwydlenni – *menus*
bwydo – *to feed* (bôn: bwyd- )
bwyta – *to eat* (bôn: bwyt- )
bwyty (gwr.) – *a restaurant;* bwytai – *restaurants*
byd (gwr.) – *a world;* bydoedd – *worlds*
byr – *short*
bys (gwr.) – *a finger;* bysedd – *fingers*
byth – *ever, never*
byw – *to live*

## C

cacen (ben.) – *a cake;* cacennau – *cakes*
cadair (ben.) – *a chair;* cadeiriau – *chairs*
cadw – *to keep, to reserve* (bôn: cadw- )
cadw'n heini – *to keep fit*
cael – *to have, to get*
Caerdydd – *Cardiff*
caffi (gwr.) – *a café;* caffis – *cafés*
Calan Gaeaf – *Halloween*
Calan Mai – *May Day*
camera (gwr.) – *a camera;* camerâu – *cameras*
campfa (ben.) – *a gym;* campfeydd – *gyms*
cân (ben.) – *a song;* caneuon – *songs*
canol (gwr.) – *centre, middle*
canolfan (ben.) – *a centre;* canolfannau – *centres*
cant (gwr.) - *a hundred;* cannoedd - *hundreds*
canu – *to sing* (bôn: can- )
capel (gwr.) – *a chapel;* capeli – *chapels*
capten (gwr.) – *a captain;* capteiniaid – *captains*
car (gwr.) – *a car;* ceir – *cars*
carafán (ben.) – *a caravan;* carafanau – *caravans*

cardiau – *cards* (gw. cerdyn)

cariad (gwr.) - *love, a boyfriend, a girlfriend;* cariadon - *boyfriends, girlfriends*
cario – *to carry* (bôn: cari- )
cartref (gwr.) – *a home;* cartrefi – *homes*
caru – *to love* (bôn: car- )
casglu – *to collect* (bôn: casgl- )
castell (gwr.) – *a castle;* cestyll – *castles*
cath (ben.) – *a cat;* cathod – *cats*
cau – *to close* (bôn: cae- )
cawl (gwr.) – *soup;* cawliau – *soups*
cawod (ben.) – *a shower;* cawodydd – *showers*
caws (gwr.) – *cheese;* cawsiau – *cheeses*
ceir – *cars* (gw. car)
cefn (gwr.) – *a back;* cefnau – *backs*
cefnder (gwr.) – *a (male) cousin;* cefndryd – *(male) cousins*
cefnogi (bôn: cefnog-) – *to support*
ceffyl (gwr.) – *a horse;* ceffylau – *horses*
ceg (ben.) – *a mouth;* cegau – *mouths*
cegin (ben.) – *a kitchen;* ceginau – *kitchens*
ceiniog (ben.) – *a penny;* ceiniogau – *pennies*
cenedlaethol – *national*
cerdyn (gwr.) – *a card;* cardiau – *cards*
cerdded – *to walk* (bôn: cerdd- )
cerddor (gwr.) – *a musician;* cerddorion – *musicians*
cerddoriaeth (ben.) – *music*
ci (gwr.) – *a dog;* cŵn – *dogs*
cig (gwr.) – *meat;* cigoedd – *meats*
cig eidion (gwr.) – *beef*
cig moch (gwr.) – *bacon*
cig oen (gwr.) – *lamb meat*
cinio (gwr.) – *dinner, lunch;* ciniawau – *dinners, lunches*
clên – *agreeable, nice* (Gogledd Cymru)
cloc larwm (gwr.) – *an alarm clock;* clociau larwm – *alarm clocks*
clust (ben.) – *an ear;* clustiau – *ears*
clwb (gwr.) – *a club;* clybiau – *clubs*
clywed – *to hear* (bôn: clyw- )
coch – *red*
codi – *to get up, to lift, to pick up* (bôn: cod- )
coeden (ben.) – *a tree;* coed – *trees*
coes (ben.) – *a leg;* coesau – *legs*
cofio – *to remember* (bôn: cofi- )
coffi (gwr.) – *coffee*
coginio – *to cook* (bôn: cogini- )
cogydd (gwr.) – *a (male) cook, chef;* cogyddion – *cooks, chefs*
cogyddes (ben.) – *a (female) cook, chef;* cogyddion – *cooks, chefs*
côr (gwr.) – *a choir;* corau – *choirs*
cost (ben.) – *cost;* costau – *costs*
cot (ben.) – a coat; cotiau – *coats*
crac – *angry* (De Cymru)
credu – *to believe* (bôn: cred- )
crempog (ben.) – *a pancake;* crempogau – *pancakes*
criced – *cricket*
croeso – *welcome*
cryf - *strong*
cuddio – *to hide* (bôn: cuddi- )
cur pen (gwr.) – *a headache* (Gogledd Cymru)
cwestiwn (gwr.) – *a question;* cwestiynau – *questions*
cwm (gwr.) – *a valley;* cymoedd – *valleys*
cwmni (gwr.) – *a company;* cwmnïau – *companies*
cŵn – *dogs* (gw. ci)
cwrdd (â) – *to meet (someone)*
cwrs (gwr.) – *a course;* cyrsiau – *courses*
cwrw (gwr.) – *beer*
cychwyn – *to begin* (bôn: cychwynn- )
cyfarfod (gwr.) – *a meeting;* cyfarfodydd – *meetings*
cyfarfod – *to meet*
cyfarth – *to bark* (bôn: cyfarth- )
cyfeiriad (gwr.) – *an address;* cyfeiriadau – addresses
cyfenw (gwr.) – *a surname;* cyfenwau – *surnames*
cyfieithu – *to translate* (bôn: cyfieith- )
cyflym – *fast, quick*
cyfnither (ben.) – *a (female) cousin;* cyfnitherod – *(female) cousins*
cyfrifiadur (gwr.) – *a computer;* cyrifiaduron – *computers*
cyfweliad (gwr.) – *an interview;* cyfweliadau – *interviews*

cyngerdd (gwr.) – *a concert;*
cyngherddau – *concerts*
cyngor (gwr.) – *a council, advice;*
cynghorau – *councils*
cylchgrawn (gwr.) – *a magazine;*
cylchgronau – *magazines*
cymaint – *so much*
cymdogion – *neighbours* (gw. cymydog)
cymoedd – *valleys* (gw. cwm)
Cymraeg (ben.) – *Welsh*
Cymraes (ben.) – *a Welshwoman*
Cymro (gwr.) – *a Welshman*
Cymru (ben.) – *Wales*
Cymry – *Welsh people*
cymryd – *to take* (bôn: cymer- )
cymydog (gwr.) – *a neighbour;*
cymdogion – *neighbours*
cymylog – *cloudy*
cyn – *before*
cynnar – *early*
cynnes – *warm*
cynnwys – *to include*
cynta(f) – *first*
cyrraedd – *to arrive at, to reach* (bôn: cyrhaedd- )
cysgu – *to sleep* (bôn: cysg- )
cystadleuaeth (ben.) – *a competition;*
cystadlaethau – *competitions*
cystadlu – *to compete* (bôn: cystadl-)
cytuno – *to agree* (bôn: cytun- )
cyw iâr (gwr.) – *chicken (meat)*

## Ch

chi – *you (plural and formal singular)*
chwaer (ben.) – *a sister;* chwiorydd – *sisters*
chwaith – *either*
chwarae – *to play* (bôn: chwarae- )
chwaraeon – *sports*
chwarter (gwr.) – *a quarter;* chwarteri – *quarters*
chwerthin – *to laugh* (bôn: chwerthin- )
chwiorydd – *sisters* (gw. chwaer)
chwith – *left*

## D

da – *good*
da-da – *sweets* (Gogledd Cymru)
dangos – *to show* (bôn: dangos- )
dail – *leaves* (gw. deilen)
dal – *to catch* (bôn: dali- )
dallt – *to understand* (bôn: dallt- ) (Gogledd Cymru)
damwain (ben.) – *an accident;*
damweiniau – *accidents*
dan (+ Treiglad Meddal) – *under*
dannodd (ben.) – *toothache*
dant (gwr.) – *a tooth;* dannedd – *teeth*
darllen – *to read* (bôn: darllen- )
darn (gwr.) – *a piece;* darnau – *pieces*
dathlu – *to celebrate* (bôn: dathl- )
dawnsio – *to dance* (bôn: dawnsi- )
de (gwr.) – *south*
de (ben.) – *right*
deall – *to understand* (bôn: deall- )
dechrau – *to begin, to start* (bôn: dechreu- )
defnyddio – *to use* (bôn: defnyddi-)
deffro – *to wake up* (bôn: deffro- )
deilen (ben.) – *a leaf;* dail – *leaves*
deintydd (gwr.) – *a dentist;* deintyddion – *dentists*
del – *pretty* (Gogledd Cymru)
derbynnydd (gwr.) – *receptionist;*
derbynyddion – *receptionists*
dewis (gwr.) – *a choice;* dewisiadau – *choices*
dewis – *to choose* (bôn: dewis- )
diddordeb (gwr.) – *an interest;*
diddordebau – *interests*
diddorol – *interesting*
diflas – *miserable, boring*
digon – *enough*
digwydd – *to happen, to occur* (bôn: digwydd- )
dillad – *clothes* (gw. dilledyn)
dilledyn (gwr.) – *a garment;* dillad – *clothes*

dim – *zero*
dim byd – *nothing*
dim ond – *only*
dinas (ben.) – *a city;* dinasoedd – *cities*
diod (ben.) – *a drink;* diodydd – *drinks*
diog – *lazy*
diolch – *thanks*
di-waith – *unemployed*
diwetha – *last (previous)*
diwrnod (gwr.) – *a day;* diwrnodau – *days*
dod – *to come*
dolur gwddw (gwr.) – *sore throat*
(Gogledd Cymru)
dosbarth (gwr.) – *a class;* dosbarthiadau
– *classes*
drama (ben.) – *a play;* dramâu – *plays*
dringo – *to climb* (bôn: dring- )
dros (+ Treiglad Meddal) – *over*
drud – *expensive*
drwg – *bad*
drws (gwr.) – *a door;* drysau – *doors*
Duw (gwr.) – *God*
dŵad – *to come* (Gogledd Cymru)
dweud – *to say* (bôn: dwed- )
dŵr (gwr.) – *water;*
dwyn – *to steal* (bôn: dyg- )
dwyrain (gwr.) – *east*
dydd Calan – *New Year's Day*
dydd Gwener – *Friday*
dydd Gŵyl Dewi – *Saint David's Day*
dydd Iau – *Thursday*
dydd Llun – *Monday*
dydd Mawrth – *Tuesday*
dydd Mercher – *Wednesdasy*
dydd Nadolig – *Christmas Day*
dydd Sadwrn – *Saturday*
dydd Sul – *Sunday*
dydd (gwr.) – *a day;* dyddiau – *days*
dyfalu – *to guess* (bôn: dyfal- )
dyma – *here is, this is*
dymuno – *to wish* (bôn: dymun- )
dyn (gwr.) – *a man;* dynion – *men*
dyna – *there is*
dyna drueni! – *what a pity!* (De Cymru)
dyna pam – *that's why*
dynes (ben.) – *woman* (Gogledd Cymru)
dysgu – *to teach* (bôn: dysg- )

## Dd

ddoe – *yesterday*

## E

ebost (gwr.) – *email;* ebyst – *emails*
echdoe – *the day before yesterday*
edrych ar – *to watch, to look at*
(bôn: edrych- )
(e)fallai - *perhaps*
efo – *with* (Gogledd Cymru)
eglwys (ben.) – *a church;*
eglwysi – *churches*
eira (gwr.) – *snow*
eisiau – *to want*
eistedd – *to sit* (bôn: eistedd- )
eitha – *fairly, quite*
ennill – *to win* (bôn: enill- )
enw (gwr.) – *a name;* enwau – *names*
enwog – *famous*
er – *although*
erioed – *never*
ers – *since*
ers talwm – *a long time ago*
(Gogledd Cymru)
eryr (gwr.) – *an eagle;* eryrod – *eagles*
esgid (ben.) – *a shoe;* esgidiau / sgidiau –
*shoes*
esgusodi – *to excuse* (bôn: esgusod- )
eto – *again*
ewythr (gwr.) – *an uncle;* ewythrod –
*uncles*

## F

faint – *how much, how many*
fel – *as, like*
fel arfer – *usually*
felly – *so, thus*
fi – *me*
fideo (gwr.) – *a video;* fideos – *videos*
finegr (gwr.) – *vinegar*

## Ff

ffair (ben.) – *a fair;* ffeiriau – *fairs*
ffatri (ben.) – *a factory;* ffatrïoedd – *factories*
ffeindio – *to find* (bôn: ffeindi- )
ffenest (ben.) – *a window;* ffenestri – *windows*
ffermio – *to farm* (bôn: ffermi- )
ffermwr (gwr.) – *a farmer;* ffermwyr – *farmers*
fferyllfa (ben.) – *a pharmacy;* fferyllfeydd – *pharmacies*
ffigwr (gwr.) – *a figure;* ffigyrau – *figures*
ffilm (ben.) – *a film;* ffilmiau – *films*
ffisig (gwr.) – *medicine;* ffisigau – *medicines* (Gogledd Cymru)
fflat (ben.) – *a flat;* fflatiau – *flats*
ffôn (gwr.) – *a phone*; ffonau – *phones*
ffôn symudol – *mobile phone*
ffonio – *to phone* (bôn: ffoni- )
ffordd (ben.) – *a way, a road;* ffyrdd – *ways, roads*
Ffrainc – *France*
ffrind (gwr.) – *a friend;* ffrindiau – *friends*
ffrwyth (gwr.) – *a fruit;* ffrwythau – *fruit(s)*
ffurflen (ben.) – *a form;* ffurflenni – *forms*
ffyrdd – *ways, roads* (gw. ffordd)

## G

gadael – *to leave* (bôn: gadaw- )
gaeaf (gwr.) – *winter*
gair (gwr.) – *a word;* geiriau – *words*
galw – *to call* (bôn: galw- )
gallu – *to be able to, can* (bôn: gall- ) (De Cymru)
gan – *by, from (a person)*
gardd (ben.) – *a garden;* gerddi – *gardens*
garddio – *to garden* (bôn: garddi- )
garddwr (gwr.) – *a gardener;* garddwyr – *gardeners*
garej (ben.) – *a garage;* garejis – *garages*
geiriadur (gwr.) – *a dictionary;* geiriaduron – *dictionaries*
geiriau – *words* (gw. gair)
gêm (ben.) – *a game;* gemau – *games*
gerddi – *gardens* (gw. gardd)
glanhau – *to clean* (bôn: glanheu- )
glaw (gwr.) – *rain;*
go lew – *pretty good, middling* (Gogledd Cymru, Gorllewin Cymru)
gobaith (gwr.) – *hope;* gobeithion – *hopes*
gobeithio – *to hope*
gofalus – *careful*
gofyn – *to ask* (bôn: gofynn- )
gogledd (gwr.) – *north*
golau (gwr.) – *a light;* goleuadau – *lights*
golchi – *to wash* (bôn: golch- )
goleuadau traffig – *traffic lights*
golff (gwr.) – *golf*
gorau – *best*
gorfod – *to have to*
gorffen – *to finish, to end* (bôn: gorffenn- )
goriad (gwr.) – *a key;* goriadau – *keys* (Gogledd Cymru)
gorllewin (gwr.) – *west*
gormod – *too much*
gorsaf (ben.) – *a station;* gorsafoedd – *stations*
gwaith (gwr.) – *work;* gweithiau – *works*
gwallt (ll.) – *hair*
gwan – *weak*
gwanwyn (gwr.) – *spring*
gwario – *to spend* (bôn: gwari- )
gwasanaeth (gwr.) – *a service;* gwasanaethau – *services*
gweddol – *so-so*
gweithio – *to work* (bôn: gweithi- )
gweithiwr (gwr.) – *a worker;* gweithwyr – *workers*
gweld – *to see* (bôn: gwel- )

gwely (gwr.) – *a bed;* gwelyau – *beds*
gwell – *better*
gwenu – *to smile* (bôn: gwen- )
gwers (ben.) – *a lesson;* gwersi – *lessons*
gwerth (gwr.) – *worth, value*
gwerthu – *to sell* (bôn: gwerth- )
gwesty (gwr.) – *a hotel;* gwestai – *hotels*
gwin (gwr.) – *wine;* gwinoedd – *wines*
gwir (gwr.) – *truth*
gwir neu gau – *true or false*
gwirion – *daft* (Gogledd Cymru)
gwisgo – *to dress, to wear* (bôn: gwisg- )
gwlad (ben.) – *a country;* gwledydd – *countries*
Gwlad yr Iâ – *Iceland*
gwleidydd (gwr.) – *a politician;* gwleidyddion – *politicians*
gwlyb – *wet*
gwneud – *to do, to make*
